



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 13 Ionawr 2010
Wednesday, 13 January 2010**

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|--|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs |
| 20 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing |
| 39 | Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Brif Ffrydio Cynaliadwyedd mewn
Portffolios Gweinidogion
The Sustainability Committee's Report on Mainstreaming Sustainability in
Ministerial Portfolios |
| 57 | Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar ei Ymchwiliad i'r Gwaith o Graffu ar Is-
ddeddfwriaeth a Phwerau Dirprwyedig
The Subordinate Legislation Committee's Report on its Inquiry into the Scrutiny of
Subordinate Legislation and Delegated Powers |
| 77 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Siarter Tlodi Tanwydd
Welsh Conservatives Debate : The Fuel Poverty Charter |
| 107 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 110 | Dadl Fer: Trident: y Buddsoddiad Anfoesol
Short Debate :Trident: the Immoral Investment |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog.

The Presiding Officer: Order for questions to the Minister.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Y Diwydiant Pysgodfeydd

The Fisheries Industry

C1 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru? OAQ(3)0919(RAF)

Q1 Paul Davies: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support the fisheries industry in Wales? OAQ(3)0919(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Fel rhan o strategaeth pysgodfeydd Cymru, mae nifer o fesurau wedi eu lansio i gefnogi'r diwydiant pysgota. Mae buddsoddiadau drwy gronfa pysgodfeydd Ewrop yn cynnwys darparu cyfarpar yn uniongyrchol i bysgotwyr er mwyn gwella'r modd y gofelir am y ddalfa, sicrhau cyfleoedd i arallgyfeirio a chynorthwyo gyda gwaith marchnata.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): As part of the Wales fisheries strategy, a number of measures have been launched to support the Welsh fishing industry. Investments through the European fisheries fund include equipment direct to fishermen to improve care of the catch, diversification opportunities and marketing assistance.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Ym mis Hydref y llynedd, fe gyhoeddwyd gennych y byddech yn parhau tymor caeedig ar gyfer pysgota cregyn bylchog. Yr wyf yn derbyn fod yn rhaid sicrhau cynaliadwyedd y diwydiant pysgota cregyn bylchog, ond mae pysgotwyr yn fy ardal wedi cysylltu â mi gan ddweud eu bod yn poeni am ddyfodol y diwydiant. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae pysgotwyr cychod bach yn poeni'n fawr os byddant yn gorfod symud yn bell allan i'r môr na fydd ganddynt y gallu i bysgota'n ddiogel, ac y bydd hynny felly yn cael effaith enfawr ar ei busnesau. Yn yr amgylchiadau, pa ystyriaeth yr ydych wedi ei roi i bysgotwyr o'r fath, a phryd y byddwch mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiadau pellach ynglŷn â'r mater hwn?

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that response. In October last year, you announced that you would continue the closed season for the fishing of scallops. I accept that we must ensure the sustainability of the scallop fishing industry, but there are fishermen in my area who have contacted me as they are concerned about the future of the industry. As you will be aware, fishermen with small boats are very concerned that if they have to move a long way out into the open sea they will not be able to fish safely, and that will have a huge impact on their businesses. In the circumstances, what consideration have you given to such fishermen and when will you be in a position to make further announcements on this matter?

Elin Jones: Diolch am eich cwestiwn, ac yr wyf yn ymwybodol fod rhai pysgotwyr yn eich etholaeth wedi eu heffeithio gan y gwaharddiad sy'n bod ar hyn o bryd ar bysgota cregyn bylchog. Fe'm gorfodwyd i gyflwyno'r gwaharddiad hwnnw oherwydd y

Elin Jones: Thank you for your question, and I am aware that some fishermen in your constituency have been affected by the ban that exists at present on scallop fishing. I was forced to introduce that ban because of the substantial increase in the overfishing of

cynnydd sylweddol yn y gorbysgota ar gregyn bylchog mewn ambell ardal, yn enwedig ym mae Ceredigion, yn y blynyddoedd diwethaf. Yr wyf wedi cyhoeddi deddfwriaeth newydd ar gyfer y bysgodfa hon a fydd yn lleihau maint y cychod a fydd yn gallu llusgo rhwydi i bysgota cregyn bylchog. Fodd bynnag, oherwydd cyfarwydddeb Ewropeaidd, mae'n rhaid i mi roi tri mis o rybudd cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno, a dyna pam mae'n rhaid i'r gwaharddiad pysgota barhau am gyfnod ychwanegol o dri mis eleni tan 1 Chwefror. O 1 Chwefror ymlaen, bydd y ddeddfwriaeth newydd ger bron, a bydd hynny'n caniatáu i bysgotwyr bach yn eich ardal adfer eu gwaith o bysgota cregyn bylchog.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn eich llongyfarch ar y ddeddfwriaeth, Weinidog, ac yr wyf yn ei chroesawu'n fawr. Yr wyf yn siŵr y bydd yn newyddion da i bysgotwyr cregyn bylchog. Yn gyffredinol, mae teimlad ymysg pysgotwyr môr yn arbennig fod rheoliadau Ewropeaidd yn cyfyngu ar eu hawliau i bysgota, ac yn agor yr ardaloedd dan sylw i bysgotwyr tramor. Drwy'r ddeddfwriaeth hon, yr ydych wedi diogelu hawliau pysgotwyr ar longau bach sydd yn pysgota cregyn bylchog, ond beth arall allwch chi ei wneud i ddiogelu'r hyn sydd yn weddill o'r diwydiant pysgota, yn enwedig yn ne-orllewin Cymru?

Elin Jones: Un o'r cyfraniadau mwyaf gwerthfawr y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud ar hyn o bryd yw gwella'r amodau economaidd y mae'r pysgotwyr hynny yn gweithredu oddi tanynt. Yr ydym yn ymwybodol fod canran uchel o'r pysgod a'r cregyn a bysgotir oddi ar arfordir Cymru yn cael eu hallforio yn syth, ac mae angen inni edrych ar sut y gallwn wella isadeiledd ceiau ar hyd yr arfordir i sicrhau bod mwyfwy o'n pysgotwyr yn gallu gwerthu eu pysgod a'u bwyd môr yn uniongyrchol mewn ardaloedd lleol, er mwyn ychwanegu gwerth a chynyddu budd economaidd y pysgotwyr hynny. Drwy gronfa bysgodfeydd Ewrop, a'r arian sy'n cael eu neilltuo gan Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r gronfa, yr ydym am wneud y buddsoddiadau hynny a fydd yn helpu pysgotwyr ar hyd yr arfordir.

scallops in some areas, particularly in Cardigan bay, in recent years. I have announced new legislation for this fishery that will reduce the size of boats that will be able to drag net fish for scallops. However, because of a European directive I have to give three months' notice before introducing that legislation and that is why the fishing ban has to continue for a further three months this year until 1 February. From 1 February onwards, new legislation will be introduced, and that will allow fishermen with small boats in your area to fish for scallops once again.

Rhodri Glyn Thomas: I congratulate you on the legislation, Minister, and welcome it very much. I am sure it will be good news for scallop fishermen. In general, there is a feeling among sea fishermen in particular that European regulations restrict their right to fish, and open the areas up to foreign fishermen. Through this legislation, you have safeguarded the rights of fishermen with smaller boats who fish for scallops, but what else can you do to safeguard what is left of the fishing industry, particularly in south-west Wales?

Elin Jones: One of the most valuable contributions the Welsh Government can make at present is to improve the economic conditions in which those fishermen work. We are aware that a high percentage of the fish and shellfish caught around the Welsh coastline are exported immediately, and we must look at how we can improve the infrastructure on quays along the coastline to ensure that more of our fishermen can sell their fish and shellfish locally, in order to add value and to increase the economic benefit for those fishermen. Through the European fisheries fund, and the moneys that are allocated by the Welsh Government to support the fund, we are looking to make those investments which will help fishermen all along the coast.

Promoting Welsh Produce

Q2 Mick Bates: Will the Minister make a statement on the promotion of Welsh produce? OAQ(3)0923(RAF)

Elin Jones: The Assembly Government is committed to supporting Welsh food and drink produce through supporting a number of initiatives including attendance at major food events and exhibitions across the UK, the True Taste awards, food festivals and farmers markets.

Mick Bates: Thank you for your response, Minister. I would like to start by congratulating you on your written statement regarding the continued efforts of your Government to eradicate the terrible disease that is tuberculosis from Wales. Minister, in the past I have asked your opinion on the fact that many Welsh schoolchildren are drinking UHT milk from Ireland, when we have a struggling dairy industry here in Wales. What are you doing to promote the use of Welsh milk in our schools, which is a much more sustainable product than UHT milk that could have travelled hundreds of miles across the sea?

Elin Jones: My department is working with local authorities and other public sector procurers in Wales to increase the percentage of locally sourced food, which would include school milk in this case. It would be my hope that all local authorities would look to undertake their procurement activity in a way that enables as high a percentage as possible of local food to be procured for use in the education system.

Mick Bates: Thank you for that response. As you are aware, the Rural Development Sub-Committee recently conducted an inquiry into the promotion of Welsh food. As one of its recommendations, the committee called for measurable targets in public procurement, just as you outlined in your response to the question about Welsh school milk. However, one of the other things that the committee found as part of the inquiry was that there was a suspicion that there had been a lack of momentum since the Welsh Development

Hyrwyddo Cynnyrch o Gymru

C2 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo cynnyrch o Gymru? OAQ(3)0923(RAF)

Elin Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i gefnogi cynnyrch bwyd a diod o Gymru drwy gefnogi nifer o fentrau, gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd bwyd mawr ledled y DU, gwobrau'r Gwir Flas, gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr.

Mick Bates: Diolch am eich ymateb, Weinidog. Hoffwn ddechrau drwy eich llongyfarch am eich datganiad ysgrifenedig ar ymdrechion parhaus eich Llywodraeth i ddileu'r clefyd difrifol hwnnw, twberculosis, o Gymru. Weinidog, yn y gorffennol yr wyf wedi gofyn am eich barn am y ffaith fod llawer o blant ysgol yng Nghymru yn yfed llaeth UHT o Iwerddon, er bod gennym ddiwydiant llaeth sydd mewn trafferthion yma yng Nghymru. Beth yr ydych yn ei wneud i hyrwyddo defnyddio llaeth o Gymru yn ein hysgolion, sy'n gynnyrch llawer mwy cynaliadwy o'i gymharu â llaeth UHT a allai fod wedi teithio cannoedd o filltiroedd ar draws y môr?

Elin Jones: Mae fy adran yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n prynu cynnyrch, i gynyddu canran y bwyd lleol sy'n cael ei brynu, a byddai'n cynnwys llaeth ysgol yn yr achos hwn. Byddwn yn gobeithio y byddai'r awdurdodau lleol i gyd yn cynnal eu gweithgaredd prynu mewn modd sy'n golygu bod canran mor uchel ag sy'n bosibl o fwyd lleol yn cael ei brynu i'w ddefnyddio yn y system addysg.

Mick Bates: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw. Fel y gwyddoch, cynhaliwyd ymchwiliad yn ddiweddar gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i'r gwaith o hyrwyddo bwyd o Gymru. Fel un o'i argymhellion, galwodd y pwyllgor am dargedau mesuradwy ar gyfer caffael cyhoeddus, yn union fel yr amlinellwyd gennych yn eich ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â llaeth ysgol o Gymru. Fodd bynnag, un o'r pethau eraill a ddarganfu'r pwyllgor fel rhan o'r ymchwiliad oedd bod amheuaeth bod yna ddiffyg

Agency was taken into Government. The sub-committee felt that there were many pieces of evidence that said this: that promotional activity was not what it should be at the moment. Minister, what are you doing to fulfil what you outlined in your response to me about Welsh school milk and introduce robust measurable targets for the increasing use of Welsh produce through public procurement, or for example as exports?

Elin Jones: Last year, I published the Assembly Government's local sourcing action plan. This gives a comprehensive range of activities that the Government will undertake in conjunction with other public sector partners, and, crucially, with the suppliers to ensure that we are able to increase the percentage of Welsh food and local food that is brought into the public sector. I made the decision that I did not agree with the Rural Development Sub-Committee that we should establish Government targets because there are a great many external factors that influence the procurement process, and it is therefore not all within the Government's control. However, having said that, we are undertaking some work now with the public sector to analyse the current situation as regards the percentage of Welsh and local food bought by the public sector in its entirety. We hope to publish those statistics in the spring.

Bethan Jenkins: Yn sgîl y datganiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yr wythnos diwethaf ar y strategaeth bwyd 20 mlynedd, a fyddai'r Gweinidog yn ystyried gweithredu strategaeth debyg yng Nghymru? Mae cyn-ymgynghorydd y Llywodraeth, yr Athro John Beddington, yn rhagweld storm berffaith o ddiffyg bwyd, prinder dŵr ac adnoddau annigonol yn cael ei hachosi gan newid yn yr hinsawdd os na weithredir i leihau ein dibyniaeth ar fewnforio. Mae ffyrdd o ryddhau tir ar gyfer tyfu bwyd yn cael eu hystyried yng Nghymru i gynyddu ein gallu i wrthsefyll argyfwng o'r fath, ond yr wyf yn credu bod angen i ni fynd ymhellach ac yn gyflymach o lawer i fynd i'r afael â'r diwydiant bwyd gwastraffus, yn enwedig wrth inni feddwl am yr hyn sy'n cael ei

momentwm ers i Awdurdod Datblygu Cymru ddod yn rhan o'r Llywodraeth. Teimlai'r is-bwyllgor fod nifer o ddarnau o dystiolaeth a oedd yn dangos hyn: nad oedd y gwaith hyrwyddo yr hyn a ddylai fod ar hyn o bryd. Weinidog, beth yr ydych yn ei wneud i gyflawni'r hyn a amlinellwyd gennych yn eich ymateb i mi ynglŷn â llaeth ysgol o Gymru a chyflwyno targedau mesuradwy cadarn ar gyfer defnyddio mwy o gynnyrch o Gymru drwy gaffael cyhoeddus, neu fel allforion, er enghraifft?

Elin Jones: Y llynedd cyhoeddais gynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyrchu lleol. Mae'r cynllun hwn yn nodi ystod gynhwysfawr o weithgareddau y bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â hwy ar y cyd â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, ac, yn hanfodol, â'r cyflenwyr er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynyddu canran y bwyd o Gymru a bwyd lleol a ddefnyddir yn y sector cyhoeddus. Penderfynais nad oeddwn yn cytuno ag awgrym yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y dylem bennu targedau i'r Llywodraeth oherwydd mae nifer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar y broses gaffael, ac felly nid yw'r cyfan o fewn rheolaeth y Llywodraeth. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, yr ydym yn gwneud rhywfaint o waith erbyn hyn gyda'r sector cyhoeddus i ddadansoddi'r sefyllfa bresennol o ran canran y bwyd o Gymru a'r bwyd lleol a brynir gan y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Yr ydym yn gobeithio cyhoeddi'r ystadegau hynny yn y gwanwyn.

Bethan Jenkins: Given the UK Government's statement last week on the 20-year food strategy, would the Minister consider implementing a similar strategy in Wales? A former consultant to the Government, Professor John Beddington, predicts a perfect storm of food shortages, water shortages, and insufficient resources being caused by climate change if no action is taken to reduce our dependence on imports. Ways of releasing land to grow food are being considered in Wales to increase our ability to withstand such a crisis, but I believe we need to go further and move much more quickly to get to grips with waste in the food industry, especially when we consider what is wasted by supermarkets. Could the Minister state what her plans are in this context of

wastraffu gan archfarchnadoedd. A fedr y Gweinidog felly ddatgan beth yw ei chynlluniau yn y maes hwn yng nghydestun cyflwyno strategaeth fwyd?

1.40 p.m.

Elin Jones: Cyhoeddodd Hilary Benn strategaeth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer y sector fwyd yr wythnos diwethaf. Cyflwynwyd ein strategaeth ni ar gyfer amaeth a bwyd y llynedd, ond yr ydym yn bwriadu gwneud gwaith penodol ar y sector fwyd yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys yr elfennau hynny y bu i chi eu crybwyll, Bethan, sydd yn ymwneud â lleihau gwastraff bwyd gan archfarchnadoedd a gan gwsmeriaid yr archfarchnadoedd hefyd. Mae angen i ni ddatblygu'r strategaeth honno. Arweinir y gwaith hwnnw gan y bartneriaeth fwyd o dan gadeiryddiaeth Dr Haydn Edwards, a gobeithiaf y gallwn gyhoeddi'r gwaith hwnnw yn nes ymlaen eleni.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): An important place where Welsh produce is promoted is Bwlch Nant-yr-Arian visitor centre, with which I know that you will be familiar, between Aberystwyth and Ponterwyd. I should declare an interest, as I use it frequently. It is also a centre for cyclists, hikers, families who go to see the kite feeding and visitors to the area. There are rumours, of which I think the Minister will be aware, that the centre will close, either on a temporary or permanent basis. Will she take this opportunity to tell us what the future of that centre will be, given its importance to the local economy, not least in promoting Welsh produce?

Elin Jones: I have not heard those rumours and I can give you an assurance that I have received no advice that the centre is to be closed. It is owned by the Forestry Commission and I am not aware of any intention to close the centre. The centre is important to the Forestry Commission as part of its entire estate in Wales and is of significant importance to the local economy in north Ceredigion.

introducing a food strategy?

Elin Jones: Hilary Benn last week announced the strategy by the Department for Environment, Food and Rural Affairs for the food sector. We presented our food and agriculture strategy last year, but we intend to carry out specific work on the food sector as a whole, including those elements which you mentioned, Bethan, on how to reduce food waste by supermarkets and also by their customers. We need to develop that strategy. That work is being led by the food partnership, chaired by Dr Haydn Edwards, and we hope to be in a position to publish that work later this year.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Un lleoliad pwysig lle mae cynnyrch o Gymru'n cael ei hyrwyddo yw canolfan ymwelwyr Bwlch Nant-yr-Arian y gwn y byddwch yn gyfarwydd â hi, rhwng Aberystwyth a Phonterwyd. Dylwn ddatgan diddordeb, oherwydd byddaf yn ei defnyddio'n aml. Mae hefyd yn ganolfan ar gyfer beicwyr, cerddwyr, teuluoedd sy'n mynd i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo, ac ymwelwyr â'r ardal. Mae yna sion, a chredaf y bydd y Gweinidog yn ymwybodol ohonynt, y bydd y ganolfan yn cau, naill ai dros dro ynteu'n barhaol. A wnaiff hi gymryd y cyfle hwn i ddweud wrthym beth fydd dyfodol y ganolfan honno, o gofio'i phwysigrwydd i'r economi leol, yn arbennig wrth hyrwyddo cynnyrch o Gymru?

Elin Jones: Nid wyf wedi clywed y sion hynny, a gallaf eich sicrhau nad wyf wedi cael dim gwybodaeth ynghylch cau'r ganolfan. Y Comisiwn Coedwigaeth sy'n berchen arni, ac ni wn am unrhyw fwriad i gau'r ganolfan. Mae'r ganolfan yn bwysig i'r Comisiwn Coedwigaeth fel rhan o'i ystad gyfan yng Nghymru, ac y mae'n bwysig iawn i economi leol gogledd Ceredigion.

The Single Farm Payment

Q3 Alun Cairns: Will the Minister outline any targets she has set for the payment of the single farm payment to farmers in Wales? OAQ(3)0910(RAF)

Elin Jones: Gosodais darged i Daliadau Gwledig Cymru wneud taliadau i 90 y cant o ffermwyr drwy'r cynllun taliad sengl erbyn 31 Rhagfyr 2009. Talwyd 92 y cant o ffermwyr yng Nghymru erbyn y diwrnod hwnnw, sy'n well na'r targed heriol a osodwyd.

Alun Cairns: I am grateful to the Minister that for answer, and credit must be given for the fact that such a high proportion of payments was made to farmers, exceeding the original target. However, that still leaves a significant number of farmers waiting. Does the Minister find it acceptable that some farmers who went to their regional offices as early as September or October to check their mapping and other details of the claims that they were likely to submit as soon as the window opened are still waiting? Is it not the case that those farmers should be prioritised for payment among the small percentage that is left? Granted, they will receive their payment later on in the spring, but surely they should be a priority now, particularly if they checked before their formal application was made.

Elin Jones: Nid wyf yn deall yn hollol pam y dylid rhoi blaenoriaeth i'r ffermwyr hynny sydd wedi ymweld â swyddfa. Efallai y gallwch egluro hynny eto imi. Mae 8 y cant o'r ceisiadau sydd yn weddill yn cael eu prosesu ar hyn o bryd. Ynghlwm wrth nifer o'r rheini y mae materion sydd eto i'w cytuno a'u cadarnhau rhwng y Llywodraeth a'r ffermwyr dan sylw, ac mae rhai ohonynt yn faterion cymhleth. Fodd bynnag, gallaf roi sicrwydd y byddwn yn ceisio cynyddu'r ganran hon a gweithio'n rhagweithiol gyda'r ffermwyr sydd heb dderbyn eu taliad eto.

Janet Ryder: I welcome your decision to pay farmers affected by the demise of Dairy Farmers of Britain a 70 per cent advance on their single payments in October. Can you

Y Taliad Sengl

C3 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw dargedau y mae wedi'u gosod ar gyfer talu'r taliad sengl i ffermwyr yng Nghymru? OAQ(3)0910(RAF)

Elin Jones: I set a target for Rural Payments Wales to make payments to 90 per cent of farmers through the single payment scheme by 31 December 2009. Over 92 per cent of farmers in Wales had been paid in full by that date, exceeding the challenging target that was set.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwn, a rhaid canmol y ffaith fod cyfran mor uchel o daliadau wedi'u gwneud i ffermwyr, gan ragori ar y targed gwreiddiol. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu bod nifer sylweddol o ffermwyr heb gael eu talu o hyd. A yw'r Gweinidog yn credu ei bod yn dderbyniol bod rhai ffermwyr a aeth i'w swyddfeydd rhanbarthol mor fuan â mis Medi neu fis Hydref i gadarnhau eu manylion mapio a manylion eraill y ceisiadau yr oeddent yn debygol o'u cyflwyno cyn gynted ag y byddai modd gwneud hynny, yn dal i aros am eu taliadau? Oni ddylid rhoi blaenoriaeth i dalu'r ffermwyr hynny o blith y ganran fechan sydd ar ôl? Mae'n wir dweud y byddant yn cael eu taliad yn ddiweddarach yn y gwanwyn, ond oni ddylent gael blaenoriaeth yn awr, yn enwedig os oeddent wedi cadarnhau eu manylion cyn iddynt wneud cais ffurfiol.

Elin Jones: I do not quite understand why priority should be given to those farmers that have visited an office. Perhaps you could explain that to me again. The remaining 8 per cent of applications are being processed at present. A number of those have matters that are yet to be agreed and confirmed between the Government and farmers, and some of those are complex matters. However, I assure you that we will be looking to increase this percentage and work proactively with the farmers that have yet to receive their payments.

Janet Ryder: Croesawaf eich penderfyniad i dalu blaendaliad o 70 y cant i ffermwyr yr effeithiwyd arnynt gan dranc Dairy Farmers of Britain ar eu taliadau sengl ym mis Hydref.

confirm how much you were able to release and whether that had any impact on other payments being released?

Elin Jones: I can confirm that it had no impact on our ability to pay, as I said, 92 per cent of farmers their single farm payment by the end of December. I took the decision to advance the payment for those affected by Dairy Farmers of Britain on the basis that it would not affect the payment to other farmers later on in the year, but I accepted that members of Dairy Farmers of Britain had been put into a particularly difficult situation as a result of its demise. I undertook the decision to make this advance payment in Wales, although it was not replicated in any of the other UK countries. I cannot confirm—yes, I can actually, as I have just seen it in my notes: £4.3 million was paid in October 2009 as a 70 per cent advance payment to Dairy Farmers of Britain members.

Pysgodfeydd Mewndirol

C4 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr pysgodfeydd mewndirol yng Nghymru? OAQ(3)0921(RAF)

Elin Jones: Gan weithio mewn partneriaeth â chyrff statudol a'r sector pysgodfeydd mewndirol, yr ydym yn gweithio tuag at ddatblygu pysgodfa dŵr croyw gynaliadwy yng Nghymru a fydd yn sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd. Caiff hyn ei gyflawni drwy roi ar waith fesurau a nodwyd gan y sector ac sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth pysgodfeydd.

Helen Mary Jones: Diolch am yr ateb, Weinidog. Gwn eich bod yn ymwybodol o'r problemau sydd yn dal i fodoli yn y pysgodfeydd cocos ger Llanelli ac yn y Gŵyr. Diolchaf i chi ac i'r Gweinidog Jane Davidson am fuddsoddi eisoes yn yr ymchwil sy'n ceisio darganfod beth sy'n creu'r problemau. A ydych mewn sefyllfa i roi diweddariad inni ynghylch sut y mae'r ymchwil hwnnw yn mynd rhagddo a phryd yr ydych yn gobeithio cael adroddiad yn ôl gan yr ymchwilwyr?

A allwch gadarnhau faint yr oeddech wedi gallu ei ryddhau ac a oedd hynny wedi cael unrhyw effaith ar ryddhau unrhyw daliadau eraill?

Elin Jones: Gallaf gadarnhau na chafodd ddim effaith ar ein gallu i dalu eu taliad sengl i 92 y cant o ffermwyr erbyn diwedd mis Rhagfyr, fel y dywedais. Penderfynais wneud blaendaliad i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan Dairy Farmers of Britain ar y sail na fyddai hynny'n effeithio ar daliadau i ffermwyr eraill yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ond yr oeddwn yn derbyn bod aelodau Dairy Farmers of Britain wedi'u rhoi mewn sefyllfa arbennig o anodd o ganlyniad i'w dranc. Penderfynais wneud y blaendaliadau hyn yng Nghymru, er na chafodd hynny ei wneud yn yr un o wledydd eraill y DU. Ni allaf gadarnhau—gallaf, gallaf a dweud y gwir, am fy mod newydd ei weld yn fy nodiadau: talwyd £4.3 miliwn ym mis Hydref 2009 fel blaendaliad o 70 y cant i aelodau Dairy Farmers of Britain.

Inland Fisheries

Q4 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the condition of inland fisheries in Wales? OAQ(3)0921(RAF)

Elin Jones: In partnership with statutory bodies and the inland fisheries sector, we are working towards developing a sustainable freshwater fishery in Wales that will deliver social and economic benefits. This will be achieved by implementing measures identified by the sector and included in the Wales fisheries strategy.

Helen Mary Jones: Thank you for the answer, Minister. I know that you are aware of the problems that remain in the cockle fisheries near Llanelli and on Gower. I thank you and the Minister Jane Davidson for having already invested in the research that is trying to discover what is causing the problems. Are you in a position to give us an update on how that research is progressing and when you hope to receive a report back from the researchers?

Elin Jones: Yr wyf wedi cyfarfod â chi a rhai o bysgotwyr eich etholaeth chi ac etholaeth Gŵyr, ac mae'r mater yn un difrifol a chymhleth iawn, fel y deallwch. Nid wyf mewn sefyllfa i roi amserlen benodol ichi y prynhawn yma, ond gallaf ddweud fy mod i, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwybodol o bwysigrwydd cael gwybodaeth glir am y sefyllfa o ran y cocos yn yr ardal fel y gallwn ystyried pa gamau i'w cymryd i wella'r sefyllfa. Felly, er na allaf roi amserlen ichi, yr ydych wedi ein atgoffa unwaith eto o ddifrifoldeb y sefyllfa i'r pysgotwyr.

Elin Jones: I have met you and some of the fishermen in your constituency and in Gower constituency, and this issue is extremely serious and complex, as you understand. I am in no position to give you a definite timetable this afternoon, but I can say that the Minister for Environment, Sustainability and Housing, the Environment Agency and I are fully aware of the importance of having clear information about the situation as regards the cockles in the area so that we can consider the steps needed to be taken to remedy it. Therefore, although I cannot give you a timetable, you have reminded us once again of the severity of the situation for the fishermen.

Perchnogion Ffermydd

C5 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y problemau sy'n wynebu perchnogion ffermydd sefydledig yng Nghymru? OAQ(3)0929(RAF)

Elin Jones: Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer helaeth o raglenni, adolygiadau a pholisïau yn eu lle i gefnogi perchnogion ffermydd sydd wedi'u hen sefydlu. Yn eu plith y mae'r rhaglen Cyswllt Ffermio, yr adolygiad o fiwrocratiaeth yn y diwydiant ffermio, sydd ar y gweill o hyd, a'n strategaeth 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn' a gyhoeddais y llynedd.

Eleanor Burnham: Diolch am yr ateb cynhwysfawr hwnnw, Weinidog. Hoffwn gyfeirio yma at nifer o bobl lwyddiannus, er enghraifft Daphne Tilley o sir Ddinbych, sydd wedi ennill amryw o wobrwyon, megis ffermwraig Gymreig y flwyddyn, a hyn a'r llall. Mae llawer o bobl yn trafod y materion hyn ac mae gwahanol bobl o wahanol gyrff— a minnau'n un ohonynt—yn pryderu. Dywedodd un person ifanc o Undeb Amaethwyr Cymru yn ddiweddar, a oedd yn siarad yng nghyd-destun ennill ysgoloriaeth, y dylai cynlluniau fod yn eu lle i ddod â phobl iau ynghyd â phobl hŷn o gefndir amaethyddol er mwyn iddynt allu helpu ei gilydd. Pa fath o gynlluniau neu raglenni dilyniant sydd gennych i helpu ffermwyr sydd â phryderon?

Hoffwn ofyn un pwt o gwestiwn arall. Mae

Farm Owners

Q5 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on the problems facing established farm owners in Wales? OAQ(3)0929(RAF)

Elin Jones: The Welsh Assembly Government has put in place a vast range of programmes, reviews and policies to support established farm owners. Examples include the Farming Connect programme, the review of red tape and bureaucracy in the farming industry, which is still ongoing, and my strategy 'Farming, Food and Countryside: Building a Secure Future', which I announced last year.

Eleanor Burnham: Thank you for that comprehensive response, Minister. I want to refer at this juncture to several successful people, such as Daphne Tilley from Denbighshire, who has won various awards, such as the Wales woman farmer of the year, as well as this, that and the other. Many people discuss this issue, and different people representing different bodies—and I am one of them—are concerned. One young person from the Farmers' Union of Wales recently said, in the context of winning a scholarship, that schemes should be in place to bring young people and older people from an agricultural background together so that they can help each other. What kinds of continuity schemes or programmes do you have to help those farmers who are concerned?

I want to ask one other small question.

gan ffermwyr yng nghefn gwlad lawer o bryderon ar hyn o bryd, megis ffermwyr llaeth sy'n gorfod gwastraffu eu llaeth os nad yw'r lorri laeth yn medru dod i'w gasglu, ac yn y blaen. Mae un dyn bach, 'Mr Jones o rural Gwynedd' fel y galwodd ei hun ar y ffôn y bore yma, yn pryderu'n fawr am y diffyg trafndiaeth a'r ffaith bod llawer o'r ffyrdd cefn ar gau, sy'n golygu na all pobl gael olew na bwyd hyd yn oed i borthi'r anifeiliaid, ac yn y blaen. Yr ydych yn gyfarwydd â'r holl drafferthion hyn, mae'n siŵr, Weinidog. Pa gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hynny?

Elin Jones: Mae'r cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid a lanswyd gennyf y llynedd, a fydd yn weithredol o fis Ebrill, yn edrych i greu partneriaethau rhwng ffermwyr a phobl ifanc sydd â diddordeb mewn mynd i'r byd amaeth a'r sawl sydd ychydig yn hŷn, o bosibl, ac sy'n ystyried ymadael ag amaethyddiaeth. Bydd creu'r cysylltiadau hynny yn golygu y gallant ddatblygu ffyrdd o gydweithio. Bydd y cynllun yn ystyried sefydlu strwythurau i ganiatáu hynny.

1.50 p.m.

Yn ail, mae'r materion o ran teithio yng nghefn gwlad a'r ffyrdd nad ydynt yn flaenoriaeth i'w graeanu yn heriol i bawb sy'n gweithio, rhedeg busnes, a byw yng nghefn gwlad. Mae'n siŵr gennyf fod pob awdurdod lleol yn ymwybodol o'r angen i edrych ar ffyrdd yng nghefn gwlad yn ogystal, ond y prif ffyrdd sydd â'r flaenoriaeth, fel ym mhobman arall. Mae'n siŵr gennyf fod y sawl sy'n gweithio ac yn byw yng nghefn gwlad yn deall bod ymdrechion mawr yn cael eu gwneud gan yr awdurdodau lleol perthnasol i hwyluso eu teithiau cyn gynted â phosibl.

Gareth Jones: Un broblem sy'n effeithio ar ffermwyr yw TB mewn gwartheg. Mae'n siŵr gennyf y bydd y mwyafrif llethol ohonynt yn croesawu'r pecyn cynhwysfawr o fesurau yr ydych wedi'u cymryd er mwyn ceisio dileu'r afiechyd ofnadwy hwn yng Nghymru. A fedrwch chi roi'r newyddion diweddaraf inni am ganlyniad yr archwiliad iechyd TB, yn enwedig yn y gogledd? Beth fydd y budd tebygol, yn enwedig o ran yr enw da sydd eisoes i gynnwyrch fferm Cymru?

Farmers in rural Wales have a great many concerns at the moment, such as dairy farmers who have to let their milk go to waste because the milk tankers cannot reach them to collect it, and so on. One man, 'Mr Jones from rural Gwynedd' as he called himself on the phone this morning, is greatly concerned about the lack of transport and the fact that many back roads are closed, which means that people cannot get oil or even fodder to feed their animals, and so on. You are familiar with all these difficulties, I am sure, Minister. What plans do you have to alleviate those difficulties?

Elin Jones: The new entrants to farming scheme that I launched last year and which will be operational from April looks to create partnerships between young farmers and young people who are interested in entering agriculture and those who are perhaps slightly older, who are looking to leave the industry. Creating those partnerships will mean that they can develop ways of working together. The scheme will look at setting up structures to allow that to happen.

Secondly, the issues regarding travel in rural areas and those roads that are not a priority to be gritted are a challenge for all those working, running a business, or living in rural areas. I am sure that every local authority is aware of the need to consider roads in rural areas as well, but it will be the main roads that will be given priority, as is the case everywhere else. I am sure that those who live and work in rural areas understand that great efforts are being made by the relevant local authorities to facilitate their journeys as soon as possible.

Gareth Jones: One problem affecting farmers is bovine TB. I am sure that the vast majority of them will welcome the comprehensive package of measures that you have put in place to try to eradicate this terrible disease from Wales. Could you give us an update on the outcome of the TB health check that was carried out, particularly in north Wales? What is the likely benefit of that, particularly given the good reputation that Welsh farm produce already has?

Elin Jones: Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad yr archwiliad iechyd ar gyfer pob buches yng Nghymru y llynedd, ac felly profwyd pob buches yng Nghymru am y tro cyntaf ar gyfer TB o fewn cyfnod o flwyddyn. Cwblhawyd hynny erbyn diwedd Rhagfyr, yn unol â'r amcan. O wneud y gwaith hwnnw, daethpwyd ar draws y clefyd mewn buchesi na fyddem wedi'u profi am ychydig flynyddoedd, felly yr ydym wedi gallu lleihau ei allu i gydio yn yr ardaloedd hynny. Oherwydd y llwyddiant hwnnw, yr wyf wedi penderfynu ailadrodd y broses honno eto eleni, ac felly mae gofyniad, unwaith eto, i bob buches ar hyd a lled Cymru gael ei phrofi'n llawn am TB, gan gynnwys yn yr ardaloedd a fu'n rhydd o'r clefyd yn draddodiadol. Fel rhan o'r pecyn TB cyfan, mae cadw'n glir yr ardaloedd hynny lle bu nifer is o achosion o'r clefyd—yn y gogledd-orllewin, er enghraifft—lawn mor bwysig â chlririo'r clefyd o'r ardaloedd hynny lle mae'n endemig.

Gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig y bore yma i roi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad am y bwriad i ystyried sefydlu ardal yng ngorllewin Cymru lle byddwn yn ystyried gwaredu moch daear yn ogystal â chyflwyno mesurau mwy caeth ar wartheg.

Brynle Williams: Good afternoon, Minister. I also wish to add my congratulations to you on bringing forward the statement on the eradication of TB. I do not think that it would be wrong of me to say that it is quite a momentous step. Thank you very much for bringing this forward, as Minister for agriculture.

Do you agree that a major problem facing established farm owners in Wales has been the way in which agriculture has been disregarded by successive Governments over the past 13 years? That has seen an industry that contributed £634 million to gross value added in 1997 shrink by 68 per cent in just a decade in comparison with the national decline of just 7 per cent. Do you agree that many of the challenges that you face as Minister to turn around the fortunes of Welsh agriculture are so great because the legacy of your predecessors was so abysmal?

Elin Jones: The Assembly Government undertook the health check for every herd in Wales last year, and so every herd in Wales was tested for the first time for TB within a period of a year. That was completed by the end of December, as planned. By completing that work, we came across incidences of the disease in herds that we would not have tested for a few years, and so we have been able to limit its ability to take hold in those areas. As a result of that success, I have taken the decision to repeat that exercise again this year, and so there is a requirement, once again, for every herd throughout Wales to be fully tested for TB, including in those areas that have traditionally been free from the disease. As part of the whole TB package, keeping clean those areas that have seen a lower incidence of the disease—such as north-west Wales, for instance—is just as important as eradicating the disease from those areas where it is endemic.

I issued a written statement this morning, giving an update to the Assembly about the intention to consider establishing an area in west Wales where we will consider culling badgers in addition to introducing stricter controls on cattle.

Brynle Williams: Prynawn da, Weinidog. Hoffwn i hefyd eich llongyfarch am gyflwyno'r datganiad ar ddileu TB. Ni chredaf y byddai'n anghywir imi ddweud ei fod yn gam pwysig iawn. Diolch yn fawr iawn ichi am gyflwyno hyn, fel y Gweinidog dros amaethyddiaeth.

A ydych yn cytuno mai un o'r problemau mawr sy'n wynebu perchnogion ffermydd sydd wedi hen sefydlu yng Nghymru yw'r modd y mae amaethyddiaeth wedi'i diystyru gan y naill Llywodraeth ar ôl y llall yn ystod y 13 mlynedd diwethaf? O ganlyniad, mae diwydiant a arferai gyfrannu £634 miliwn at werth ychwanegol crynswth yn 1997 wedi crebachu 68 y cant mewn degawd yn unig, o'i gymharu â'r dirywiad cenedlaethol o 7 y cant yn unig. A gytunwch fod yr heriau niferus sy'n eich wynebu fel Gweinidog i wella sefyllfa amaethyddiaeth yng Nghymru mor fawr oherwydd bod y sefyllfa yr oeddech

wedi'u hetifeddu gan eich rhagflaenwyr mor drychinebus?

Elin Jones: Diolch am eich sylwadau, Brynle. Yr wyf yn ymwybodol o'r ystadegau y cyfeiriasoch atynt. O edrych ar y 10 mlynedd honno a'r cwmp go sylweddol yng ngwerth y diwydiant amaeth yng Nghymru o gymharu ag ardaloedd eraill yng ngwledydd Prydain, gwelwn fod y ganran hyd at 2007 yn sylweddol ac yn weddol syfrdanol. Un o'r prif resymau dros hynny yw bod gennym ddiwydiant yng Nghymru sy'n ddibynnol yn bennaf ar y diwydiant cig coch a'r sectorau defaid a gwartheg. Mae'r ddau sector wedi bod o dan bwysau sylweddol yn ystod y 10 mlynedd hynny oherwydd gwerth y sector a'r prisiau yn y farchnad, er ein bod yn gweld hynny'n newid rhywfaint erbyn hyn.

Elin Jones: Thank you for your comments, Brynle. I am aware of the statistics to which you referred. From looking at those 10 years and the fairly substantial reduction in the value of the agriculture industry in Wales, compared with other areas in the countries of Britain, we see that the percentage up to 2007 was significant and fairly shocking. One of the main reasons for that was that we have an industry in Wales that depends primarily on the red meat sector and the sheep and cattle sector. Those two sectors have come under great pressure over those 10 years because of the value of the sector and market prices, although we are beginning to see that change now.

Ni fyddaf yn ymateb i faterion sy'n ymwneud â rôl Llywodraethau blaenorol; canolbwyntiaf ar y dyfodol, diolch yn fawr.

I will not respond to issues relating to the role of previous Governments; I will concentrate on the future, thank you very much.

Brynle Williams: Thank you for that answer, Minister. However, the neglect with which past Assembly Governments have treated Welsh agriculture, which has resulted in this shocking decline in GVA, leaves Wales poorly placed to meet future challenges—particularly the rising global population, which is set to double the demand for food by 2050. That has obvious implications for food security. Minister, last week, at the Oxford Farming Conference, your colleague, Hilary Benn, stressed the importance of increasing the sustainability of production as part of the UK Government's food strategy. Would you agree that Wales must also play its part in meeting growing domestic and global demand, and that food security deserves to be given greater priority in Wales?

Brynle Williams: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fodd bynnag, mae'r modd y mae Llywodraethau'r Cynulliad yn y gorffennol wedi esgeuluso amaethyddiaeth yng Nghymru, sydd wedi arwain at y dirywiad dychrynlyd hwn mewn gwerth ychwanegol crynswth, yn golygu nad yw Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r dyfodol—yn arbennig y twf cynyddol ym mhoblogaeth y byd, a fydd yn dyblu'r galw am fwyd erbyn 2050. Mae i hyn oblygiadau amlwg o ran diogelwch cyflenwadau bwyd. Weinidog, yr wythnos diwethaf, yng Nghynhadledd Ffermio Rhydychen, pwysleisiodd eich cydweithiwr, Hilary Benn, bwysigrwydd cynyddu cynaliadwyedd cynhyrchiant yn rhan o strategaeth fwyd Llywodraeth y DU. A gytunwch fod yn rhaid i Gymru hefyd chwarae ei rhan yn y gwaith o ateb y galw cynyddol, yn y wlad hon ac yn fyd-eang, ac y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i ddiogelwch cyflenwadau bwyd yng Nghymru?

Elin Jones: Yes, I agree that Wales needs to play its part in producing food for our population and for a growing population outside Wales. Wales can play a significant part by using its land for food production, but that should be done in such a way as to ensure that the impact on the environment

Elin Jones: Ydw, yr wyf yn cytuno bod angen i Gymru chwarae ei rhan wrth gynhyrchu bwyd ar gyfer ein poblogaeth ni a phoblogaeth gynyddol y tu allan i Gymru. Gall Cymru chwarae rhan sylweddol drwy ddefnyddio'i thir ar gyfer cynhyrchu bwyd, ond dylid gwneud hynny mewn modd a fydd

and the climate is reduced at the same time.

yn sicrhau bod yr effaith ar yr amgylchedd a'r hinsawdd yn cael ei lleihau ar yr un pryd.

I will just point out that the significant problems in the livestock sector date back at least to the period of BSE, which predated the advent of a Labour Government at Westminster.

Hoffwn dynnu sylw at y ffaith fod y problemau sylweddol yn y sector da byw yn dyddio'n ôl o leiaf i gyfnod BSE, a ddigwyddodd cyn i Lywodraeth Lafur ddod i rym yn San Steffan.

Farming Practices

Arferion Ffermio

Q6 Chris Franks: What recent discussions has the Minister had regarding farming practices? OAQ(3)0912(RAF)

C6 Chris Franks: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yh ddiweddar am arferion ffermio? OAQ(3)0912(RAF)

Elin Jones: I am committed to encouraging sustainable farming practices, and I meet regularly with a variety of people and organisations to discuss a range of farming issues.

Elin Jones: Yr wyf wedi ymrwymo i annog arferion ffermio cynaliadwy, a byddaf yn cwrdd yn rheolaidd â phobl a sefydliadau amrywiol i drafod ystod o faterion ffermio.

Chris Franks: Do you agree that any delay in implementing the Glastir scheme could have a devastating impact on the Welsh natural environment? The scheme has the potential to secure the future of declining farmland bird species and could make a significant contribution to tackling issues of climate change, including soil carbon management and water management. As we have missed the biodiversity targets for 2010, it is now urgent that we work to implement this new environmental scheme.

Chris Franks: A gytunwch y gallai unrhyw oedi wrth weithredu cynllun Glastir gael effaith ddinistriol ar amgylchedd naturiol Cymru? Gallai'r cynllun ddiogelu dyfodol rhywogaethau adar tir amaeth y mae eu niferoedd yn dirywio, a gallai wneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o fynd i'r afael â materion newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys rheoli carbon sydd yn y pridd a rheoli dŵr. Gan inni fethu â chyrraedd y targedau bioamrywiaeth ar gyfer 2010, mae angen inni fynd ati ar fyrder yn awr i weithredu'r cynllun amgylcheddol newydd hwn.

Elin Jones: I am aware that some have recently called for a delay to the introduction of Glastir, including, I read last week, the leader of the Welsh Liberal Democrats. I am not persuaded of the need to do that. A considerable amount of work needs to be done in the next few weeks in advance of providing formal notification to the European Commission of the introduction of Glastir. I held a long and fruitful meeting with the farming unions and the Wales Young Farmers Club just before Christmas to go over a number of these issues, and I remain convinced that the introduction of Glastir does not need to be delayed. That is for many reasons, including those that you have outlined, such as its importance to our wildlife population.

Elin Jones: Yr wyf yn ymwybodol bod rhai pobl wedi galw'n ddiweddar am oedi cyn cyflwyno Glastir, gan gynnwys, darllenais yr wythnos diwethaf, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod angen gwneud hynny. Mae angen gwneud cryn dipyn o waith yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf cyn rhoi hysbysiad ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyflwyno Glastir. Cefais gyfarfod hir a buddiol gydag undebau'r ffermwyr a mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru ychydig cyn y Nadolig i drafod nifer o'r materion hyn, ac yr wyf wedi fy argyhoeddi o hyd nad oes angen oedi cyn cyflwyno Glastir. Mae nifer o resymau dros hynny, gan gynnwys y rhai yr ydych wedi cyfeirio atynt, megis ei bwysigrwydd i'n poblogaeth bywyd gwylt.

Andrew R.T. Davies: Minister, it is appropriate to come in at this point as you are talking about Glastir. Many of your schemes are funded by Europe. Given that the reform of the common agricultural policy in 2013 is virtually knocking on our door, what representations are you making to your colleague in London about the UK Government's exclusion from the talks in Paris just before Christmas on agreeing a joint approach to that reform, so that agriculture and rural communities benefit from sustainable policies that are good for the environment and good for food production? Have you raised this with your ministerial colleague in London or is it the case that you have no view on it and you are quite happy to let the Minister be excluded from such discussions?

2.00 p.m.

Elin Jones: I certainly have a view on the future of the common agricultural policy, as does this Government and all Welsh farmers. The importance of the common agricultural policy, in terms of its contribution to rural development and direct support to farmers, is significant in the context of the future of Welsh rural communities. We know that, in 2013, we will need to change the basis of the single farm payment in Wales from an historic basis to an area one, and we are now doing considerable work in Government to model that change. I will be, and I have been, in discussion and in correspondence with the UK Minister for agriculture and the UK Treasury on matters relating to the future of the common agricultural policy.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Given the concerns expressed by your Plaid Cymru colleague and the need to progress to Glastir as quickly as possible, and given your stated belief that any delay would be disastrous, could you tell us when you will be in a position to publish the results of the farms that have been trialling the entry-level prescription to Glastir? When will you be able to give farmers greater detail on the higher entry levels for the scheme,

a public authority, whether a council or the Energy Saving Trust, that could go out proactively to people in fuel poverty and walk them through their house to help them to identify key energy conservation measures, in much the same way as the police or the fire service will knock on people's doors to give them security information and fire-proofing information? It might be a way of helping some people in desperate need.

Jane Davidson: As you know, the Energy Saving Trust already offers free advice. One of the critical points of the fuel poverty strategy on which we went out to consultation is that by having a hub-and-spoke approach to this issue, we can make sure that there is a proper cross-referral between agencies and the Energy Saving Trust with regard to that type of advice, but also with regard to the more general relationship between energy saving measures and benefits entitlement. A whole range of organisations give advice on benefits, from Age Concern to local authorities. We need to make sure that the benefits advice is given alongside the energy efficiency and fuel poverty agenda at all points.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1091(ESH), yn ôl.

2.30 p.m.

Targedau Ailgylchu

C5 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru? OAQ(3)1082(ESH)

Jane Davidson: Mae'r ffigurau dros dro diweddaraf ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2009 a'r chwarter blaenorol yn dangos bod awdurdodau lleol Cymru, gyda'i gilydd, yn ailgylchu 41 y cant o'r gwastraff trefol a gesglir ganddynt, sydd y tu hwnt i'r targed ailgylchu o 40 y cant a osodwyd ar gyfer 2009-10. Mae'r strategaeth gwastraff drafft newydd, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yn cynnig targed o 70 y cant ar gyfer compostio ac ailgylchu ym mhob sector

gwneud. A wnewch chi ystyried clustnodi awdurdod cyhoeddus, boed yn gyngor neu'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a allai fynd allan yn rhagweithiol at bobl sy'n dioddef tloidi tanwydd a mynd gyda hwy drwy eu tŷ i'w helpu i glustnodi mesurau arbed ynni allweddol, yn yr un modd ag y bydd yr heddlu neu'r gwasanaeth tân yn curo ar ddrysau pobl i roi gwybodaeth iddynt am ddiogelwch a gwybodaeth am ddiogelu rhag tân? Gallai fod yn ffordd o helpu rhai pobl sydd mewn angen dybryd.

Jane Davidson: Fel y gwyddoch, mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni eisoes yn cynnig cyngor rhad ac am ddim. Un o bwyntiau hollbwysig y strategaeth tloidi tanwydd y buom yn ymgynghori yn ei chylch yw'r ffaith y gallwn, wrth gael gwasanaeth canolog a gwasanaethau cysylltiedig i fynd i'r afael â'r mater hwn, wneud yn siŵr bod croesgyfeirio priodol yn digwydd rhwng asiantaethau a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ynghylch y math hwnnw o gyngor, ac ynghylch y berthynas fwy cyffredinol rhwng mesurau arbed ynni a hawl i fudd-daliadau. Mae ystod lawn o sefydliadau'n rhoi cyngor ar fudd-daliadau, o Age Concern i awdurdodau lleol. Mae angen inni wneud yn siŵr bod y cyngor ar fudd-daliadau'n cael ei roi ochr yn ochr â'r agenda effeithlonrwydd ynni a thloidi tanwydd ym mhob man.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)1091(ESH), withdrawn.

Recycling Targets

Q5 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on the Welsh Government's recycling targets? OAQ(3)1082(ESH)

Jane Davidson: The latest provisional figures for July to September 2009 and the previous quarter show that Welsh local authorities collectively are recycling 41 per cent of the municipal waste collected, which exceeds the recycling target of 40 per cent that was set for 2009-10. The new draft waste strategy, 'Towards Zero Waste', proposes a target of 70 per cent for composting and recycling in all sectors by 2025.

erbyn 2025.

Nerys Evans: Hoffwn eich llongyfarch ar osod a chyrraedd y targedau heriol hynny. Mae ystadegau yn dangos bod mwy o bobl yn ailgylchu, ac yn ailgylchu canran uwch o'u gwastraff pan fyddant yn cael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r broses ailgylchu. A ydych yn derbyn bod hynny'n wir? Fel y gwyddoch, mae gennyf Fesur arfaethedig ar ailgylchu sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd, i geisio gwneud y system ailgylchu yn fwy tryloyw. A ydych yn derbyn y gall y Mesur arfaethedig hwn gynyddu cyfraddau ailgylchu er mwyn cyrraedd y targedau uchelgeisiol yr ydych wedi eu gosod fel Gweinidog?

Jane Davidson: Diolch, Nerys. Yr wyf wedi dweud wrth y pwyllgor sy'n edrych ar eich Mesur arfaethedig bod y syniad y tu ôl i'r Mesur yn bwysig iawn—yr wyf yn cytuno'n hollol gyda hynny. Fodd bynnag, mae swyddogion y Llywodraeth wedi dweud wrthyf fi—ac wedi dweud wrth y Pwyllgor—y byddai'n bosibl cael mwy o wybodaeth yn ystod y broses mewn ffordd arall. Yr wyf yn cytuno y bydd yn rhaid inni greu mwy o gyfleoedd i gael mwy o wybodaeth ar gyfer y cyhoedd, a chreu mwy o gyfleoedd i bobl ofyn i'w hawdurdodau lleol a phobl eraill i ble mae'r gwastraff yn mynd.

Darren Millar: Minister, I would also like to congratulate the local authorities and householders that have been involved in helping to achieve the target of recycling 40 per cent of Welsh waste in 2010. Would you agree that one way in which we can move quickly towards achieving the 70 per cent target by 2025 is to have more energy-from-waste schemes across Wales? If you do agree, what action are you taking to help this fledgling industry boom in Wales, particularly given the need for green jobs during difficult economic times?

Jane Davidson: Last year we announced our commitment to a network of anaerobic digestion plants across Wales to tackle this energy-from-waste issue, and we have provided—if my memory serves me right—around £26 million to local authorities to take

Nerys Evans: I wish to congratulate you on setting and achieving those challenging targets. Statistics show that more people recycle, and recycle a higher percentage of their waste when they have more information about the recycling process. Do you agree that that is true? As you know, I have a proposed Measure on recycling, which is going through the Assembly at the moment, to try to make the recycling system more transparent. Do you accept that this proposed Measure can increase the rates of recycling in order to reach the ambitious targets that you have set as Minister?

Jane Davidson: Thank you, Nerys. I have told the committee that is in charge of your proposed Measure that the idea behind the Measure is very important—I agree wholeheartedly with that. However, Assembly officials have told me—and have told the Committee—that it would be possible to glean more information during the process in another way. I agree that we must create more opportunities to obtain more information for the public, and create more opportunities for people to ask their local authorities and others where the waste is going.

Darren Millar: Weinidog, hoffwn innau hefyd longyfarch yr awdurdodau lleol a'r deiliaid aelwydydd sydd wedi bod yn ymwneud â helpu i gyrraedd y targed, sef ailgylchu 40 y cant o wastraff Cymru yn 2010. A fydddech yn cytuno mai un ffordd y gallwn symud yn gyflym tuag at gyrraedd y targed 70 y cant erbyn 2025 yw cael mwy o gynlluniau troi gwastraff yn ynni ledled Cymru? Os ydych yn cytuno, pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd i helpu'r diwydiant ifanc hwn i dyfu yng Nghymru, yn enwedig o ystyried yr angen am swyddi gwyrdd yn ystod amseroedd economaidd anodd?

Jane Davidson: Y llynedd, cyhoeddwyd ein hymrwymiad i rwydwaith o ganolfannau treulio anerobig ledled Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn sy'n ymwneud â throï gwastraff yn ynni, ac yr ydym wedi darparu—os cofiaf yn gywir—tua £26

that network forward. Local authorities are operating partnership arrangements across regional delivery mechanisms in Wales to achieve this.

Kirsty Williams: Teaching children about recycling and developing recycling facilities within schools play important roles in the international eco-schools project, under which schools may be awarded a green flag should they show particular excellence in this field. You will be aware that many schools across Wales that have been awarded a green flag in recognition of their work on recycling and other environmental methods are charged planning fees to erect the flag outside their schools. Many of these schools cannot afford the fees to make such planning applications to their local authorities. You have the power, under section 303(2) of the Town and Country Planning Act 1990, to amend the fee regime to enable schools not to have to pay fees so that they can fly their eco flags outside the school.

However, you have repeatedly refused to make those arrangements. Will you review your policy in this area? If we are to encourage young people to take pride in sustainability and to demonstrate good practice in this area, surely they should be rewarded by being allowed to fly their flags outside their schools and not, as you previously suggested to me, sticking them up inside their school halls, where they are less flags and more wall hangings.

Jane Davidson: The interesting thing about your contribution is the way that you misrepresented the Assembly Government's position. In the last letter that I wrote to you about this, I said that when an opportunity came up to amend the appropriate land planning legislation, I would be happy to do so. In the meantime, the planning authority and the education authority are part of the same local authority, so it is entirely possible for there to be discussions about these flags between the education authority and the planning authority in the interim. The point, which I have already made you in writing, is that we will look at this as part of the normal amendment process.

miliwn i awdurdodau lleol fel y gallant fwrw ymlaen â'r rhwydwaith hwnnw. Mae awdurdodau lleol yn gweithredu trefniadau partneriaeth ar draws systemau cyflenwi rhanbarthol yng Nghymru i gyflawni hynny.

Kirsty Williams: Mae addysgu plant am ailgylchu a datblygu cyfleusterau ailgylchu mewn ysgolion yn chwarae rhan bwysig yn y prosiect eco-ysgolion rhyngwladol, lle gellir dyfarnu baner werdd i ysgolion os ydynt yn dangos rhagoriaeth arbennig yn y maes hwn. Byddwch yn ymwybodol bod llawer o ysgolion ledled Cymru y dyfarnwyd baner werdd iddynt i gydnabod eu gwaith ar ailgylchu a dulliau amgylcheddol eraill yn gorfod talu ffioedd cynllunio i godi'r faner y tu allan i'w hysgolion. Nid yw llawer o'r ysgolion hyn yn gallu fforddio'r ffioedd i gyflwyno ceisiadau cynllunio o'r fath i'w hawdurdodau lleol. Mae'r pŵer gennych, dan adran 303(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i addasu'r drefn ffioedd a galluogi ysgolion i beidio â gorfod talu ffioedd, er mwyn iddynt allu chwifio'u baneri gwyrdd y tu allan i'r ysgol.

Fodd bynnag, yr ydych wedi gwrthod gwneud y trefniadau hynny dro ar ôl tro. A wnewch chi adolygu eich polisi yn y maes hwn? Os ydym am annog pobl ifanc i ymfalchïo mewn cynaliadwyedd a dangos arfer da yn y maes hwn, oni ddylid eu gwobrwyo drwy ganiatáu iddynt chwifio'u baneri y tu allan i'w hysgolion yn hytrach na'u gosod yn neuaddau eu hysgolion, fel yr awgrymasoch wrthyf o'r blaen, lle maent yn debycach i grogluniau na baneri.

Jane Davidson: Yr hyn sy'n ddiddorol am eich cyfraniad yw'r ffordd y cafodd safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ei gamgyfleu gennych. Yn y llythyr diwethaf a ysgrifennais atoch am hyn, dywedais y byddwn yn fodlon diwygio'r ddeddfwriaeth briodol ar gynllunio tir pan fyddai cyfle'n codi i wneud hynny. Yn y cyfamser, mae'r awdurdod cynllunio a'r awdurdod addysg yn rhan o'r un awdurdod lleol, felly mae'n gwbl bosibl i drafodaethau am y baneri hyn ddiwydd rhwng yr awdurdod addysg a'r awdurdod cynllunio. Y pwynt, yr wyf eisoes wedi'i gyfleu ichi'n ysgrifenedig, yw y byddwn yn edrych ar hyn yn rhan o'r broses ddiwygio arferol.

The Building Industry

Q6 Peter Black: Will the Minister make a statement on what meetings she has had with the building industry regarding housing? OAQ(3)1116(ESH)

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): I regularly meet with people from the building industry on and off site and my officials also attend meetings with representatives from the industry, including the Home Builders Federation, most recently regarding the recent additional allocation of tranche 2 of the strategic capital investment fund.

Peter Black: Thank you for that answer, Deputy Minister. Have you had any discussions with the Federation of Master Builders about its proposals to introduce a properly guaranteed warranty scheme for work carried out through repair grants and disabled facility grants?

Jocelyn Davies: I have not had discussions with the federation, Peter, but I am happy to do so. No doubt, when my officials read the Record, they will make the necessary arrangements for me to meet with the federation so that this can be discussed properly. I will then write to you with the outcome of that meeting.

Peter Black: Thank you for that, Deputy Minister. I would be grateful if you could meet with the federation. It is important that people have the protection that warranty schemes can afford them when they get grants, especially as companies can go bust and people can be left with substandard work that they cannot put right. It would be useful for you to have that meeting and for me to get a further reply on this.

Jocelyn Davies: It is highly important, but it is just as important that people do not get substandard work done under the grant system.

Nick Bourne: I have a question on smart

Y Diwydiant Adeiladu

C6 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gyfarfodydd y mae wedi'u cael gyda'r diwydiant adeiladu ynghylch tai? OAQ(3)1116(ESH)

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Byddaf yn cyfarfod yn rheolaidd â phobl o'r diwydiant adeiladu ar safleoedd ac oddi ar safleoedd, a bydd fy swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant, gan gynnwys y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, yn fwyaf diweddar ynghylch dyraniad ychwanegol diweddar cyfran 2 o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol.

Peter Black: Diolch am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. A ydych wedi cael trafodaethau gyda Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr ynghylch ei gynigion i gyflwyno cynllun gwarant wedi'i warantu'n gywir ar gyfer gwaith a gyflawnir drwy grantiau atgyweirio a grantiau cyfleusterau i'r anabl?

Jocelyn Davies: Nid wyf wedi cael trafodaethau gyda'r ffederasiwn, Peter, ond yr wyf yn fodlon gwneud hynny. Mae'n siŵr y bydd fy swyddogion yn gwneud y trefniadau angenrheidiol imi gyfarfod â'r ffederasiwn, pan fyddant yn darllen y Cofnod, er mwyn i'r mater gael ei drafod yn iawn. Yna, byddaf yn ysgrifennu atoch ynghylch canlyniad y cyfarfod hwnnw.

Peter Black: Diolch am hynny, Ddirprwy Weinidog. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyfarfod â'r ffederasiwn. Mae'n bwysig bod pobl yn cael yr amddiffyniad y gall cynlluniau gwarant ei roi iddynt pan fyddant yn cael grantiau, yn enwedig gan y gall cwmnïau fynd i'r wal ac y gall pobl gael eu gadael â gwaith anfodhaol na allant ei gywiro. Byddai'n ddefnyddiol ichi gael y cyfarfod hwnnw ac i mi gael ateb pellach ynghylch hyn.

Jocelyn Davies: Mae'n bwysig tu hwnt, ond mae'r un mor bwysig na wneir gwaith anfodhaol dan y system grantiau.

Nick Bourne: Mae gennyf gwestiwn am

meters, of which I know that you are very much in favour. The Westminster Government is committed to rolling these out in England by 2020. The Conservative party has said that we will roll them out more swiftly by 2017. Clearly, there would be a Barnett consequential and it would be nice if we could improve on that in Wales. What are the Government's plans on this?

Jocelyn Davies: Smart meters do not come under my portfolio, but I am sure that the Minister heard you. However, I must say that you should not assume that there is always a Barnett consequential. It might seem obvious that there is a Barnett consequential, but when it comes to receiving the cheque, that does not always happen. It is not as transparent as that. We will explore the issue and, if it is possible for us to roll them out, I am sure that we will, but I will ask the Minister to write you if she differs from my view.

Landfill

Q7 Mick Bates: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's targets to reduce the amount of waste sent to landfill? OAQ(3)1107(ESH)

Jane Davidson: Three targets for 2010 were set in 'Wise About Waste' to reduce the landfilling of specific waste streams produced in Wales: on biodegradable municipal waste, total industrial and commercial waste, and biodegradable commercial and industrial waste. For all three, the 2010 targets have been met several years early.

Mick Bates: Thank you for that answer and congratulations on meeting those targets. I am well aware that the investment of previous Governments has resulted in Wales performing well in reducing landfill. However, you will be aware, Minister, from my promotion of school milk over the years, that I think that it is a sustainable scheme. However, the carton in which milk is

ffafrio'n fawr. Mae Llywodraeth San Steffan wedi ymrwymo i gyflwyno'r rhain yn Lloegr erbyn 2020. Mae'r blaid Geidwadol wedi dweud y bydd yn eu cyflwyno ynghynt, erbyn 2017. Wrth gwrs, byddai swm canlyniadol dan Barnett, a byddai'n braf pe gallem wella ar hwnnw yng Nghymru. Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth ynghylch y mater?

Jocelyn Davies: Nid yw mesuryddion deallus yn perthyn i'm portffolio i, ond yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog wedi eich clywed. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud na ddylech gymryd yn ganiataol bod swm canlyniadol dan Barnett bob amser. Gallai ymddangos yn amlwg bod swm canlyniadol dan Barnett, ond pan ddaw'n fater o dderbyn y siec, nid yw hynny bob amser yn digwydd. Nid yw mor eglur â hynny. Byddwn yn archwilio'r mater, ac os yw'n bosibl inni gyflwyno mesuryddion deallus, yr wyf yn siŵr y gwnawn, ond gofynnaf i'r Gweinidog ysgrifennu atoch os yw ei barn yn wahanol i'm barn i.

Tirlenwi

C7 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi? OAQ(3)1107(ESH)

Jane Davidson: Gosodwyd tri tharged ar gyfer 2010 yn 'Yn Gall gyda Gwastraff' i leihau'r ffrydiau gwastraff penodol a gynhyrchir yng Nghymru ac a anfonir i safleoedd tirlenwi: ar gyfer gwastraff trefol bioddiraddiadwy, cyfanswm gwastraff diwydiannol a masnachol, a gwastraff masnachol a diwydiannol bioddiraddiadwy. Mae targedau 2010 wedi'u cyrraedd lawer blwyddyn yn gynnar, yn achos y tri.

Mick Bates: Diolch am eich ateb a llongyfarchiadau ar gyrraedd y targedau hynny. Yr wyf yn ymwybodol iawn bod buddsoddiad Llywodraethau'r gorffennol wedi golygu bod Cymru'n perfformio'n dda o ran lleihau tirlenwi. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod, Weinidog, o'm gwaith hyrwyddo llaeth ysgol dros y blynyddoedd, fy mod yn credu ei fod yn gynllun cynaliadwy. Fodd

delivered is not recyclable.

bynag, ni ellir ailgylchu'r carton y caiff
llaeth ei gyflenwi ynddo.

2.40 p.m.

Mick Bates: Do you agree that the current situation in supplying school milk in a carton that ends up in landfill is unacceptable? If you agree, what action are you willing to take to improve the situation by ensuring that when milk goes into our schools it is in a carton that can be recycled and not put into landfill?

Mick Bates: A ydych yn cytuno bod y sefyllfa bresennol o ran cyflenwi llaeth ysgol mewn carton, sy'n mynd yn y pen draw i safle tirlenwi, yn annerbyniol? Os ydych yn cytuno, pa gamau gweithredu yr ydych yn fodlon eu cymryd i wella'r sefyllfa drwy sicrhau bod y llaeth, pan fydd yn mynd i'n hysgolion, mewn carton y gellir ei ailgylchu ac nad yw'n cael ei anfon i safle tirlenwi?

Jane Davidson: That issue has not been raised with me before, but I will have discussions with other Assembly Government Ministers in that context. We propose to consult in February of this year on the possible introduction of landfill bans or restrictions, which I mentioned in my Cabinet written statement of 2 December last year. Key materials that are being considered for landfill bans include food, green waste, paper and card, textiles, wood, glass, metals, plastics, waste electrical and electronic equipment, otherwise known as 'WEEE', and biodegradable waste from all sectors where these wastes are produced. Therefore, we may wish to use this opportunity to look at either a recyclable carton or a carton that cannot go to landfill.

Jane Davidson: Nid yw'r mater hwnnw wedi'i godi gyda mi o'r blaen, ond byddaf yn cael trafodaethau gyda Gweinidogion eraill Llywodraeth y Cynulliad yn y cyd-destun hwnnw. Bwriadwn ymgynghori ym mis Chwefror eleni ar bosibilrwydd cyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau tirlenwi, a chrybwyllais hynny yn fy natganiad ysgrifenedig i'r Cabinet ar 2 Rhagfyr y llynedd. Mae'r deunyddiau allweddol a gaiff eu hystyried ar gyfer gwaharddiadau tirlenwi'n cynnwys bwyd, gwastraff gwyrdd, papur a cherdyn, tecstilau, pren, gwydr, metelau, plastigau, cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, a gwastraff bioddiraddiadwy o'r holl sectorau lle caiff y gwastraff hwnnw ei gynhyrchu. Felly, mae'n bosibl y byddwn am ddefnyddio'r cyfle hwn i ystyried carton y gellir ei ailgylchu neu garton na all fynd i safle tirlenwi.

Brynle Williams: As the Minister knows, anaerobic digestion offers a sustainable way of treating food waste and has the added benefit of generating renewable energy and reducing carbon emissions that would otherwise be generated. However, as appealing as it may be as a method of waste disposal on paper, understandably local communities can have deep reservations when the construction of such a site is proposed in their local area. Can the Minister provide reassurances, where this technology is to be supported in Wales, that legitimate concerns of unpleasant odours and so on are treated seriously, and how confident is the Minister that anaerobic digestion will play a growing role in municipal waste disposal in the coming years?

Brynle Williams: Fel y gŵyr y Gweinidog, mae treulio anerobig yn cynnig ffordd gynaliadwy o drin gwastraff bwyd, ac mae ganddo'r fantais ychwanegol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon, a fyddai'n cael eu cynhyrchu fel arall. Fodd bynnag, ni waeth pa mor ddeniadol yw'r dull hwn o gael gwared â gwastraff mewn theori, gall fod gan gymunedau lleol amheuan dwfn pan fwriedir adeiladu safle o'r fath yn eu hardal leol hwy, sy'n hollol ddealladwy. A all y Gweinidog ddarparu sicrwydd y bydd pryderon teg ynghylch arogleuon annymunol ac yn y blaen yn cael eu hystyried o ddifrif, os bydd y dechnoleg hon yn cael ei chefnogi yng Nghymru, a pha mor hyderus yw'r Gweinidog y bydd treulio anerobig yn chwarae rôl gynyddol o ran cael gwared â

gwastraff trefol yn y blynyddoedd i ddod?

Jane Davidson: We carried out a huge amount of background work with the Environment Agency and others before we committed to a network of anaerobic digestion plants in the context of energy from waste. Our aim is that any energy-from-waste plants should be built to the highest energy efficiency standards, and in April of last year they were revisited again in the European context in order to realise greenhouse gas savings. We must ensure that communities understand that the technology is not new technology; it is technology used well close to communities in many places across Europe. Therefore, we need to provide opportunities for communities that will be affected by such a plant to have dialogue with communities in other parts of Europe to be adequately reassured. I said through the tender process that I would expect the developers to be having those kinds of dialogues and to reassure communities appropriately.

Jane Davidson: Gwnaethom lawer iawn o waith cefndir gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill cyn inni ymrwymo i rwydwaith o ganolfannau treulio anerobig yng nghyd-destun troi gwastraff yn ynni. Ein nod yw y dylid adeiladu unrhyw ganolfannau troi gwastraff yn ynni'n unol â'r safonau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni, ac ym mis Ebrill y llynedd ailedrychwyd arnynt yng nghyd-destun Ewrop er mwyn gwireddu arbedion o ran nwyon tŷ gwydr. Rhaid inni sicrhau bod cymunedau'n deall nad yw'r dechnoleg yn dechnoleg newydd; mae'n dechnoleg a ddefnyddir yn dda wrth ymyl cymunedau mewn nifer o leoedd ledled Ewrop. Felly, mae angen inni sicrhau bod cymunedau yr effeithir arnynt gan ganolfan o'r fath yn cael cyfleoedd i sgwrsio â chymunedau mewn rhannau eraill o Ewrop i gael sicrwydd digonol. Dywedais drwy'r broses dendro y byddwn yn disgwyl i'r datblygwyr gael y mathau hynny o sgysiau a rhoi sicrwydd i gymunedau'n briodol.

Empty Homes

Q8 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the number of empty homes in Wales? OAQ(3)1105(ESH)

Jocelyn Davies: The latest figures from the local government data unit, for 2008-09, show that there were 21,758 private sector dwellings in Wales that had been vacant for more than six months at 1 April 2009. Of that total, 567 were brought back into use during the year through direct action by local authorities.

Helen Mary Jones: I am sure that we will all be pleased to know that local authorities are taking steps. However, I am sure that you will agree, when you compare the number of properties that have been taken back into use with the number that are still vacant, the difference is great. Bearing in mind the increasing pressures on housing because of the current economic situation, are there further steps that your Government can take to encourage local authorities to be even more proactive in trying to bring those homes back into use?

Cartrefi Gwag

C8 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cartrefi gwag yng Nghymru? OAQ(3)1105(ESH)

Jocelyn Davies: Mae'r ffigurau diweddaraf gan yr uned ddata llywodraeth leol ar gyfer 2008-09 yn dangos bod 21,758 o anheddau yn y sector preifat yng Nghymru'n wag ers dros 6 mis ar 1 Ebrill 2009. Yn dilyn camau gweithredu uniongyrchol gan awdurdodau lleol, dechreuwyd aildefnyddio 567 o'r cyfanswm hwnnw yn ystod y flwyddyn.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn siŵr y byddwn i gyd yn falch o wybod bod awdurdodau lleol yn cymryd camau gweithredu. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, wrth gymharu nifer yr anheddau y dechreuwyd eu haildefnyddio â'r nifer sy'n dal yn wag, bod y gwahaniaeth yn fawr. Gan gadw mewn cof y pwysau cynyddol sydd ar dai oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol, a oes camau pellach y gall eich Llywodraeth eu cymryd i annog awdurdodau lleol i fod yn fwy rhagweithiol fyth wrth geisio aildefnyddio'r cartrefi hynny?

Jocelyn Davies: I agree with you that 21,000, even though it is only 1.6 per cent of the stock, is a great number and would go a long way to helping us with the problems that we have with housing in Wales. It sometimes depends on the location and the condition of the empty properties, because properties left empty soon deteriorate and can blight a local area. There is some good practice and we were recently made aware of Denbighshire County Council, which has an empty homes project, and along with North Wales Housing, it recently purchased three long-term empty properties, and, after refurbishment, these will be offered for low-cost home ownership. That involved funding through the north Wales coastal strategic regeneration area partnership approach, but it does mean that you use those wasted empty properties, which are blighting the community, and create employment and provide skill opportunities for local people. Also, three families will have the opportunity to own their own home.

We are currently working on empty property guidance for local authorities, so that the best practice can be shared. This guidance has been developed along with local authorities and Shelter. I would be happy to circulate the guidance to Members when it is ready. In your area, the local authority has said that its empty homes strategy is its priority, and I know that it has recently done some work with the National Landlords Association to identify the owners of all empty properties throughout the borough.

Andrew R.T. Davies: While there is an issue about empty properties, at the other end of the spectrum is the issue of acquiring a property, particularly in rural areas, where it is particularly challenging. With great credit to it, the Government has brought forward various proposals to address the TAN 6 planning guidance to planning authorities. I understand that the final consultation was undertaken in the autumn and that it has now finished. When will the Government bring forward the new recommendations for planning inspectors and planning committees to work to, so that the supply of houses in

Jocelyn Davies: Cytunaf â chi fod 21,000, er mai 1.6 y cant yn unig o'r stoc ydyw, yn nifer fawr ac y byddai o gymorth aruthrol i'n helpu â'r problemau sydd gennym o ran tai yng Nghymru. Weithiau mae'n dibynnu ar leoliad a chyflwr yr anheddau gwag, gan fod anheddau sy'n cael eu gadael yn wag yn dirywio'n fuan ac yn gallu difetha ardal leol. Ceir rhywfaint o arfer da, ac yn ddiweddar daethom yn ymwybodol o Gyngor Sir Ddinbych sydd â phrosiect cartrefi gwag. Ynghyd â Chymdeithas Tai Gogledd Cymru, prynodd y cyngor dri eiddo'n ddiweddar, a oedd wedi bod yn wag ers amser maith, ac ar ôl eu hadnewyddu byddant yn cael eu cynnig ar gyfer perchentyaeth cost isel. Yr oedd hynny'n cynnwys arian drwy ddull gweithredu partneriaeth ardal adfywio strategol arfordir gogledd Cymru, ond mae'n golygu eich bod yn defnyddio'r eiddo gwag a wastreffir, sy'n difetha'r gymuned, a'ch bod yn creu gwaith ac yn darparu cyfleoedd o ran sgiliau i bobl leol. Yn ogystal, bydd tri theulu'n cael cyfle i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain.

Ar hyn o bryd, yr ydym yn gweithio ar ganllawiau eiddo gwag ar gyfer awdurdodau lleol, fel y gellir rhannu'r arfer gorau. Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu ar y cyd ag awdurdodau lleol a Shelter. Byddwn yn fodlon dosbarthu'r canllawiau i'r Aelodau pan fyddant yn barod. Yn eich ardal chi, mae'r awdurdod lleol wedi dweud mai ei strategaeth cartrefi gwag yw ei flaenoriaeth, a gwn iddo wneud rhywfaint o waith yn ddiweddar gyda'r Gymdeithas Genedlaethol Landlordiaid i ganfod pwy yw perchnogion yr holl eiddo gwag sydd ledled y fwrdeistref.

Andrew R.T. Davies: Er bod problem ynghylch eiddo gwag, ar ben arall y sbectwm ceir y broblem sy'n ymwneud â chaffael eiddo, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae hynny'n arbennig o anodd. Er clod mawr iddi, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno amryw gynigion i roi sylw i ganllawiau cynllunio TAN 6 i awdurdodau cynllunio. Deallaf fod yr ymgynghoriad terfynol wedi'i gynnal yn yr hydref a'i fod bellach wedi gorffen. Pryd y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno'r argymhellion newydd i arolygwyr cynllunio a phwyllgorau cynllunio weithio'n unol â hwy, fel y gellir

rural areas can be addressed?

Jocelyn Davies: Again, this is a question that will be answered by the Minister responsible for planning. I am not able to give you that information or even guess at it. However, in terms of my own portfolio, the tranche 2 SCIF money secured an additional £20 million, with which we will be restarting the homebuy scheme. It is available in rural areas, and I have asked for declarations of interest from local authorities. Therefore, we will have our homebuy scheme back, and it will be new and improved. In the meantime, I will ask the Minister to write to you with the information that you have requested.

Jenny Randerson: Empty homes are one of the targets for your proposed legislative competence Order on housing, which I strongly support. However, what is missing from the proposed LCO is the private rented sector, which is obviously a vital part of the total housing portfolio. Large parts of my constituency are dominated by private rented accommodation. Its quality, good or bad, is vital to the wellbeing of the whole community as well as to the individuals who live in it. I am disappointed that you are not including the private rented sector in your proposed LCO. Today, the Welsh Local Government Association, Shelter and Cymorth Cymru gave evidence to Legislation Committee No. 2, which is examining the proposed legislative competence Order. These organisations stated that they support the view that the proposed Order should include the private rented sector, and they believe that sufficient work has been done on policy to justify its inclusion. Will you reconsider, Deputy Minister?

Jocelyn Davies: I did explain to the committee that we had not asked for powers over the private rented sector. We had been involved in the Rugg review, and fully expect the UK Government to bring forward legislation on that. We agree with the thrust of the review and we will expect it to address

mynd i'r afael â'r cyflenwad tai mewn ardaloedd gwledig?

Jocelyn Davies: Eto, mae hwn yn gwestiwn a gaiff ei ateb gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio. Ni allaf roi'r wybodaeth honno ichi na'i dyfalu hyd yn oed. Fodd bynnag, o safbwynt fy mhortffolio i fy hun, sicrhodd arian cyfran 2 y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol £20 miliwn ychwanegol, a byddwn yn ei ddefnyddio i aildechrau'r cynllun cymorth prynu. Mae ar gael mewn ardaloedd gwledig, ac yr wyf wedi gofyn am ddatganiadau ynghylch buddiannau gan awdurdodau lleol. Bydd ein cynllun cymorth prynu'n aildechrau felly, a bydd yn newydd ac yn well. Yn y cyfamser, gofynnaf i'r Gweinidog ysgrifennu atoch â'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

Jenny Randerson: Cartrefi gwag yw un o'r targedau ar gyfer eich Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ar ynghylch tai, yr wyf yn ei gefnogi'n gryf. Fodd bynnag, yr hyn sydd ar goll o'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig yw'r sector rhentu preifat, sy'n amlwg yn rhan hanfodol o'r portffolio tai cyfan. Llety rhentu preifat yw'r llety mwyaf amlwg mewn rhannau mawr o'm hetholaeth. Mae ansawdd y llety hwnnw, boed dda neu ddrwg, yn hanfodol i les y gymuned gyfan yn ogystal â'r unigolion sy'n byw ynddo. Yr wyf yn siomedig nad ydych yn cynnwys y sector rhentu preifat yn eich Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig. Heddiw, rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Shelter a Cymorth Cymru dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, sy'n archwilio'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig. Dywedodd y sefydliadau hynny eu bod yn cefnogi'r farn y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys y sector rhentu preifat, a chredant fod gwaith digonol wedi'i wneud ar bolisi i gyfiawnhau ei gynnwys. A wnewch chi ailystyried, Ddirprwy Weinidog?

Jocelyn Davies: Eglurais wrth y pwyllgor nad oeddem wedi gofyn am bwerau dros y sector rhentu preifat. Yr oeddem wedi bod yn rhan o adolygiad Rugg, ac yr ydym yn disgwyl yn bendant i Lywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth ar hynny. Yr ydym yn cytuno â byrdwn yr adolygiad, a byddwn

issues within the private rented sector. I am surprised that either Shelter or Cymorth Cymru would be able to say whether the Welsh Assembly Government has the capacity for this. I am not aware that the policy development work has been done to support a bid for powers in this regard.

Affordable Homes

Q9 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the funding available for affordable homes? OAQ(3)1110(ESH)

Jocelyn Davies: Affordable housing is funded from the social housing grant programme. In 2009-10, it amounts to approximately £140 million. We have secured further funding from the strategic capital investment fund. A total of £42 million has been made available over three years, and another £20 million will be made available in 2010-11.

Mark Isherwood: Last year, the sixtieth anniversary of Bevan's housing Act went largely uncelebrated. This legislation triggered the biggest social housing building programme in UK and Welsh history, and it was a programme that was continued under the Conservatives subsequently. However, we know that, since devolution, the number of new affordable social houses has declined by two thirds, and last autumn's blueprint for action from Homes for Cymru stated that this is not a new crisis, although the economic crisis is making it worse.

2.50 p.m.

Do you agree that we need to look again at the vision of Bevan and Macmillan? How will you address the 25 per cent cut to capital investment in housing in the forthcoming 2010-11 budget, particularly in the context of the housing bond? When will that be launched? What equity contribution is the Welsh Government making, and how will it be applied?

Jocelyn Davies: We have set an ambitious target for this administration of having 6,500 affordable homes. We are halfway through the administration and are on target to

yn disgwyl iddo roi sylw i faterion yn y sector rhentu preifat. Yr wyf yn synnu y byddai Shelter neu Cymorth Cymru yn gallu dweud a oes gan Lywodraeth y Cynulliad y gallu i wneud hyn. Nid wyf yn ymwybodol bod y gwaith datblygu polisi wedi'i wneud i gefnogi cais am bwerau i'r perwyl hwn.

Cartrefi Fforddiadwy

C9 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid sydd ar gael ar gyfer cartrefi fforddiadwy? OAQ(3)1110(ESH)

Jocelyn Davies: Caiff tai fforddiadwy eu hariannu o'r rhaglen grant tai cymdeithasol. Yn 2009-10, mae'r cyfanswm yn cyfateb i oddeutu £140 miliwn. Yr ydym wedi sicrhau arian pellach o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Sicrhawyd bod cyfanswm o £42 miliwn ar gael dros gyfnod o dair blynedd, a bydd £20 miliwn arall ar gael yn 2010-11.

Mark Isherwood: Y llynedd, aeth pen-blwydd Deddf tai Bevan yn 60 oed heibio heb ei ddathlu i raddau helaeth. Sbardunodd y ddeddfwriaeth honno'r rhaglen adeiladu tai cymdeithasol fwyaf yn hanes y DU a Chymru, ac yr oedd yn rhaglen a barhaodd dan y Ceidwadwyr wedi hynny. Fodd bynnag, gwyddom fod nifer y tai cymdeithasol fforddiadwy newydd wedi gostwng ddau draean ers datganoli, a nododd glasbrint yr hydref diwethaf ar gyfer gweithredu gan Homes for Cymru nad yw hwn yn argyfwng newydd, er bod yr argyfwng economaidd yn ei waethygu.

A ydych yn cytuno bod angen inni edrych eto ar weledigaeth Bevan a Macmillan? Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r toriad o 25 y cant ar fuddsoddiad cyfalaf mewn tai yng nghyllideb 2010-11 sydd ar ddod, yn enwedig yng nghyd-destun y bond tai? Pryd y bydd y bond yn cael ei lansio? Pa gyfraniad ecwiti y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud, a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio?

Jocelyn Davies: Yr ydym wedi gosod targed uchelgeisiol ar gyfer y weinyddiaeth hon, sef sicrhau 6,500 o dai fforddiadwy. Yr ydym hanner ffordd drwy'r weinyddiaeth, ac yr

achieve that. I have yet to hear you welcome that.

On the housing bond, as you know, we have commissioned the foremost expert on bonds, John Shinton to work with us to develop a workable model, and that work is ongoing. We must wait to see whether a workable model is available before we can commit to setting it up. That is vital, and as soon as I have news on that, I will let you know.

With regard to what the Government has done, following the Essex review, and through working with our partners in local government and the housing association world, there has been a considerable increase in the affordable housing that is available, and this has taken place during the most difficult financial times—certainly in the housing world. I hope that you would join me in being positive about the contribution that is being made by housing associations, which are working with local authorities, and that you would wish us well in meeting our target.

Gareth Jones: Weinidog, croesawaf yn fawr yr arian ychwanegol ar gyfer sicrhau nifer fwy o gartrefi fforddiadwy, ac mae'n amlwg y dylid llongyfarch Llywodraeth Cymru'n Un ar fuddsoddi £62 miliwn ac ar fod hanner ffordd tuag at gyrraedd y targed o greu 6,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o gynllun newydd yn y gogledd sydd â'r potensial i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael, drwy annog benthycwyr, datblygwyr, awdurdodau lleol a phrynwyr tro cyntaf i wneud trefniadau rhannu ecwiti. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru'n Un yn caniatáu i'w brand gael ei ddefnyddio, ac yn rhoi cefnogaeth awdurdodol i fath newydd o gynllun cymorth prynu. O gofio mai un fantais i'r cynllun hwn yw nad oes angen ei ariannu, tybed a fydddech yn cytuno i gyfarfod â mi, a phobl eraill sydd ynghlwm â'r cynllun, yn fuan i drafod y ffordd ymlaen?

Jocelyn Davies: Thank you, Gareth. You wrote to me about this before Christmas, and earlier this week I signed off a letter that will be making its way back to you. The

ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed. Nid wyf eto wedi'ch clywed yn croesawu hynny.

O ran y bond tai, fel y gwyddoch yr ydym wedi comisiynu'r arbenigwr blaenllaw ar fondiau, John Shinton, i weithio gyda ni i ddatblygu model ymarferol, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Rhaid inni aros i weld a oes model ymarferol ar gael cyn y gallwn ymrwymo i'w sefydlu. Mae hynny'n hanfodol, a chyn gynted ag y bydd gennyf newyddion am hynny, rhoddaf wybod ichi.

O ran yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud, yn dilyn adolygiad Essex, a thrwy weithio gyda'n partneriaid mewn llywodraeth leol a'r byd cymdeithasau tai, bu cynnydd sylweddol yn nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael, ac y mae hynny wedi digwydd yn ystod y cyfnodau ariannol anoddaf—yn bendant yn y byd tai. Gobeithio y byddech am ymuno â mi i fod yn gadarnhaol ynghylch y cyfraniad a wneir gan gymdeithasau tai, sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol, ac y byddech am ddymuno'n dda inni wrth gyrraedd ein targed.

Gareth Jones: Minister, I very much welcome the additional funding to ensure a higher number of affordable homes, and it is evident that the One Wales Government should be congratulated on the investment of £62 million and on being halfway towards reaching the target of creating 6,500 additional affordable homes. However, I am aware of a new scheme in north Wales that has the potential to increase the number of affordable homes available by encouraging lenders, developers, local authorities and first-time buyers to make equity-share arrangements. I hope that the One Wales Government will give them the right to use its brand, and give authoritative support to a new kind of homebuy scheme. Bearing in mind that one of the advantages of this scheme is that it does not require funding, would you agree to meet me and others who are associated with the scheme, sometime soon, to discuss the way forward?

Jocelyn Davies: Diolch, Gareth. Ysgrifenasoch ataf am hyn cyn y Nadolig, ac yn gynharach yr wythnos hon llofnodais lythyr a fydd ar ei ffordd yn ôl atoch. Byddai

Assembly Government would be very interested in schemes that are developed locally, especially on the issue of equity share. We would need to check it out. I cannot promise to give you the Welsh Assembly Government brand, but we could check that out in order to support it. I am happy to meet with you to explore this option. I believe that the scheme that you mentioned requires no Government or local authority resources at all, but does involve the local authority taking an equity share in properties, which then makes them affordable. I would be happy to explore that with you.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidogion am eu hatebion.

gan Lywodraeth y Cynulliad ddiddordeb mawr mewn cynlluniau a ddatblygir yn lleol, yn enwedig o ran rhannu ecwiti. Byddai angen inni archwilio'r cynllun. Ni allaf addo rhoi brand Llywodraeth y Cynulliad ichi, ond gallem edrych ar hynny er mwyn ei gefnogi. Yr wyf yn fodlon cyfarfod â chi i archwilio'r opsiwn hwn. Credaf nad oes angen adnoddau o gwbl gan y Llywodraeth neu awdurdodau lleol ar y cynllun a grybwyllwyd gennych, ond mae'n golygu bod yr awdurdod lleol yn cymryd cyfran ecwiti mewn eiddo, sy'n gwneud yr eiddo'n fforddiadwy. Byddwn yn fodlon archwilio hynny gyda chi.

The Presiding Officer: I thank the Ministers for their responses.

Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Brif Ffrydio Cynaliadwyedd mewn Portffolios Gweinidogion
The Sustainability Committee's Report on Mainstreaming Sustainability in Ministerial Portfolios

Mick Bates: I move that

the National Assembly for Wales:

notes the report of the Sustainability Committee, 'Mainstreaming sustainability in Ministerial portfolios—10 years of the statutory duty', which was laid in the Table Office on 17 July 2009. (NDM4358)

I start by thanking all the committee staff, who continue to offer such high-quality support in their preparation of all documents.

I am pleased to be leading this debate on mainstreaming sustainability across the Welsh Government's ministerial portfolios. I know that some time has elapsed since the report was published last July, and that some of the Ministers that we scrutinised have since moved on. However, I hope that those currently in the Cabinet will take our recommendations on board and will show commitment to, and take a lead on, the sustainability agenda in Wales. As regards the Ministers who have moved on, I am also assured that despite their possible mediocre performance on carbon reduction, they were not removed from the Cabinet because of

Mick Bates: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd, 'Prif-ffrydio cynaliadwyedd o fewn portffolios y Gweinidogion—10 mlynedd o ddyletswydd statudol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2009. (NDM4358)

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i holl staff y pwyllgor, sy'n parhau i gynnig cymorth o safon mor uchel wrth baratoi pob dogfen.

Mae'n bleser gennyf arwain y ddadl hon ar brif-ffrydio cynaliadwyedd ar draws portffolios Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Gwn fod cryn amser ers cyhoeddi'r adroddiad fis Gorffennaf diwethaf, a bod rhai o'r Gweinidogion y buom yn craffu arnynt wedi symud ymlaen ers hynny. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y sawl sydd yn y Cabinet ar hyn o bryd yn ystyried ein hargymhellion, yn dangos ymrwymiad i'r agenda gynaliadwyedd yng Nghymru ac yn arwain yng nghyswllt yr agenda honno. O ran y Gweinidogion sydd wedi symud ymlaen, cefais fy sicrhau hefyd na chawsant eu symud o'r Cabinet oherwydd eu perfformiad tala

that.

The Government of Wales Act 1998 required the Assembly to

‘make a scheme setting out how it proposes, in the exercise of its functions, to promote sustainable development.’

That is continued under section 79 of the Government of Wales Act 2006.

That makes us one of the few administrations anywhere in the world to have a statutory duty towards sustainable development. In 2007, Peter Davies, of the Sustainable Development Commission Wales, said that,

‘Ministers are justly proud of the fact they operate one of the few administrations in the world that has a duty to promote and ensure sustainable development. This duty marks Wales out as being different and should ensure all policy takes account of the needs of future generations and is designed to establish a just, healthy society that lives within environmental limits.’

Ten years on from the establishment of the National Assembly for Wales, the committee decided that it was timely to look at what effect that statutory duty towards sustainable development has had on the way in which policy is developed by the Welsh Assembly Government and to what extent sustainability has been mainstreamed into ministerial portfolios.

We took evidence from all members of the Cabinet or their senior officials, and I thank all those Ministers and officials for enabling us to take evidence from them in such a short timeframe. I must admit that we had quite a mixed bag of evidence from them. There were several examples of good practice and evidence that real progress has been made in mainstreaming sustainability into some of the ministerial portfolios. The overall assessment, however, is: must do better. The Welsh Assembly Government still has a lot to do before sustainability is truly mainstreamed in all ministerial portfolios.

posibl o ran lleihau carbon.

Yr oedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn mynnu bod y Cynulliad yn

llunio cynllun sy'n egluro sut mae'n bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau.

Nodir hynny hefyd dan adran 79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Golyga hynny ein bod yn un o'r ychydig weinyddiaethau yn y byd sydd â dyletswydd statudol tuag at ddatblygu cynaliadwy. Yn 2007, dywedodd Peter Davies o Gomisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru fod,

Gweinidogion yn haeddiannol falch o'r ffaith eu bod yn gweithredu un o'r ychydig weinyddiaethau yn y byd sydd â dyletswydd i hyrwyddo a sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod Cymru'n wahanol, a dylai sicrhau bod pob polisi'n ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac yn cael ei gynllunio i greu cymdeithas gyfiawn ac iach sy'n byw o fewn terfynau amgylcheddol.

Ddeng mlynedd wedi sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, penderfynodd y pwyllgor ei bod yn amserol ystyried pa effaith y mae'r ddyletswydd statudol honno tuag at ddatblygu cynaliadwy wedi'i chael ar y modd y caiff polisi ei ddatblygu gan Lywodraeth y Cynulliad, ac i ba raddau y mae cynaliadwyedd wedi'i brif-ffrydio mewn portffolios Gweinidogion.

Cawsom dystiolaeth gan holl aelodau'r Cabinet neu'u huwch-swyddogion, a diolchaf i'r holl Weinidogion a'r holl swyddogion hynny am ein galluogi i gael tystiolaeth ganddynt mewn cyfnod mor fyr. Rhaid imi gyfaddef inni gael tystiolaeth eithaf amrywiol ganddynt. Cafwyd nifer o enghreifftiau o arfer da a thystiolaeth bod cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud o ran prif-ffrydio cynaliadwyedd mewn rhai portffolios Gweinidogion. Yr asesiad cyffredinol fodd bynnag yw bod yn rhaid gwneud yn well. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad lawer o waith i'w wneud eto cyn y bydd cynaliadwyedd wedi'i brif-ffrydio'n wirioneddol ym mhorthffolio pob un o'r

Gweinidogion.

On our key findings, we started off on a very optimistic note, with the Minister for Environment, Sustainability and Housing telling us that the Cabinet had agreed that

‘the idea that sustainable development should be the single key organising principle not only of the Assembly Government, but of public service in Wales.’

However, the evidence that we received subsequently from Ministers highlighted how far there is to go before this single organising principle applies across all portfolios. The clarity of roles and responsibilities among members of the Cabinet must surely be of paramount importance in an effective and efficient Government. However, several of the Ministers who appeared before us appeared to be unclear about their role in delivering sustainability objectives. For example, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, who was Jane Hutt at the time, did not have responsibility for eco-schools within her portfolio. Indeed, we had a great deal of difficulty in establishing the lines of responsibility for the delivery of sustainability outcomes in education as a whole between her portfolio at the time and that of the Minister for Social Justice and Local Government. Both claimed that responsibility for the proposed 3 per cent carbon reduction target in schools and colleges was the other’s responsibility.

The blurred lines around the delivery of public sector sustainability objectives was also worrying, and we hope that the new First Minister, who now has responsibility for public service delivery, will take a strong lead on driving sustainability achievements throughout public service in Wales. I wrote to the then Minister for Finance and Public Service Delivery to suggest that, given that he was the Minister with responsibility for public services, he should also take responsibility for their total emissions. However, in his reply, he told me that he was not persuaded by my suggestion that his portfolio—and I remind you that it included

O ran ein darganfyddiadau allweddol, dechreuasom ar nodyn gobeithiol iawn, a’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn dweud wrthym fod y Cabinet wedi cytuno

y dylai syniad datblygu cynaliadwy fod yn brif egwyddor drefniadol allweddol, nid yn unig ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad ond ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru hefyd.

Fodd bynnag, dangosodd y dystiolaeth a gawsom gan Weinidogion yn dilyn hynny gymaint sydd i’w wneud cyn y bydd y brif egwyddor drefniadol hon ar waith ar draws pob portffolio. Rhaid bod eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ymhlith aelodau’r Cabinet o’r pwys mwyaf mewn Llywodraeth effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, yr oedd llawer o’r Gweinidogion a ddaeth ger ein bron yn ymddangos yn ansicr ynghylch eu rôl o ran cyflawni amcanion cynaliadwyedd. Er enghraifft, nid oedd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef Jane Hutt ar y pryd, gyfrifoldeb am eco-ysgolion yn ei phortffolio. Yn wir, bu’n anodd iawn inni ganfod y llinellau cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni amcanion cynaliadwyedd ym maes addysg yn gyffredinol rhwng ei phortffolio hi ar y pryd a phortffolio’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Honnai’r naill Weinidog mai’r llall oedd yn gyfrifol am y targed arfaethedig ar gyfer lleihau carbon 3 y cant mewn ysgolion a cholegau’n perthyn i’r Gweinidog arall.

Yr oedd y llinellau aneglur ynghylch cyflawni amcanion cynaliadwyedd ym maes y sector cyhoeddus yn peri pryder hefyd, a gobeithiwn y bydd y Prif Weinidog newydd, sy’n gyfrifol erbyn hyn am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnig arweiniad cadarn ar hybu cyflawniadau’n ymwneud â chynaliadwyedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ysgrifennais at y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd i awgrymu y dylai gymryd cyfrifoldeb hefyd am gyfanswm allyriadau’r gwasanaethau, o gofio mai ef oedd y Gweinidog â chyfrifoldeb am wasanaethau

public service delivery—was not best placed to co-ordinate and monitor emissions from the energy usage of public services in Wales.

We had great concerns about the lack of measurable outcomes in the evidence that we were given, and for that reason we have made two recommendations on the development of a tool to measure sustainability outcomes. A requirement for each department to report those outcomes annually came from our great concern about the lack of focus on outcomes in the evidence that we received.

3.00 p.m.

While we received detailed written evidence from each of the Ministers outlining many sustainability actions that they are taking within their portfolios, which I am sure Members will have read, the updates and recommendations that we received were also important. However, the evidence that we received was heavy on actions needed to be taken and very light on the outcomes of such actions to show any evidence of improving sustainability or, indeed, of reducing carbon emissions. I must point out at this stage that there were a few notable exceptions.

The committee was taken with the figures submitted by Value Wales about saving 2.2 million sheets of paper, which equates to about 240 trees and, more importantly, 14.4 tonnes of carbon dioxide. This was achieved by introducing an electronic tendering process. The Department for Health and Social Services is developing tools to enable it to measure its progress in energy efficiency terms and to identify the most energy and cost-efficient measures. The department also showed us in its evidence that it was possible to transfer that into a carbon reduction across the whole estate owned by the health service. We held out great hopes for the ability of the much-mentioned policy development

cyhoeddus. Fodd bynnag, yn ei ateb, dywedodd wrthyf na chafodd ei argyhoeddi gan fy awgrym, ac nad ei bortffolio ef—a hoffwn eich atgoffa bod ei bortffolio'n cynnwys darparu gwasanaethau cyhoeddus—oedd orau i gydlynu a monitro allyriadau o'r ynni a gaiff ei ddefnyddio gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yr oeddem yn pryderu'n fawr am y diffyg canlyniadau mesuradwy yn y dystiolaeth a roddwyd inni, ac oherwydd hynny yr ydym wedi gwneud dau argymhelliad ar ddatblygu adnodd i fesur canlyniadau cynaliadwyedd. Ein pryder difrifol am y diffyg ffocws ar ganlyniadau yn y dystiolaeth a gawsom a'n harweiniodd i gyflwyno gofyniad y dylai pob adran adrodd am y canlyniadau hynny bob blwyddyn.

Er inni gael tystiolaeth ysgrifenedig fanwl gan bob un o'r Gweinidogion yn amlinellu nifer o gamau gweithredu a gymerir ganddynt ar gynaliadwyedd yn eu portffolios, ac yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau wedi'i darllen, yr oedd y diweddariadau a'r argymhellion a gawsom yn bwysig hefyd. Fodd bynnag, yr oedd y dystiolaeth a gawsom yn cynnwys peth wmbredd o wybodaeth am gamau gweithredu yr oedd angen eu cymryd. Ond prin iawn oedd y wybodaeth am ganlyniadau camau gweithredu o'r fath i ddangos unrhyw dystiolaeth o wella cynaliadwyedd, neu dystiolaeth o leihau allyriadau carbon hyd yn oed. Wedi dweud hynny, rhaid imi bwysleisio inni weld ambell eithriad nodedig.

Cafodd y pwyllgor ei synnu gan y ffigurau a gyflwynwyd gan Gwerth Cymru ar arbed 2.2 miliwn o ddalenni o bapur, sy'n cyfateb i ryw 240 o goed, ac yn bwysicach na hynny sy'n cyfateb i 14.4 tonnell o garbon deuocsid. Llwyddwyd i wneud hynny drwy gyflwyno proses dendro electronig. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n datblygu adnoddau i'w galluogi i fesur ei chynnydd o ran effeithlonrwydd ynni ac i nodi'r mesurau mwyaf effeithlon o ran ynni a chost. Yn ogystal, dangosodd yr adran inni yn ei thystiolaeth ei bod yn bosibl troi hynny'n lleihad carbon ar draws yr holl ystad sy'n eiddo i'r gwasanaeth iechyd. Yr oedd gennym obeithion mawr am allu offeryn y

gateway tool, which, we were assured, had a sustainability appraisal built into it. We were, however, disappointed not only by the lack of depth of the sustainability appraisal section of the gateway tool but also by the fact that no Minister could recall any policy that had not gone forward because it had failed the sustainability appraisal.

We have recommended that the sustainability appraisal tool developed by some individual departments be rolled out quickly across all Welsh Government departments. Despite the gateway tool, we still feel that many departments would have great difficulty in stating what they have achieved as regards sustainable outcomes in their portfolios. The committee, through its inquiry into carbon reduction in Wales, has a great deal of expertise in this area. We were keen to find out from each Minister what preparations are being made to achieve the 'One Wales' carbon reduction target of 3 per cent annually, work on which was due to start 18 months from the time we took our evidence.

The evidence that we heard gave rise to two main concerns. First, there was a real lack of clarity about which portfolio Ministers would be responsible for achieving some of the emissions reduction targets. I have already mentioned the example of carbon reduction from the education sector, as well as the lack of clarity about the responsibility for delivering targets in the public service sector. The former Minister for Finance and Public Service Delivery denied any responsibility for asking questions about sustainability outcomes or the delivery of the 3 per cent carbon reduction in relation to the schemes that he had applied for under the single capital investment fund. Without clear lines of responsibility and leadership from the Welsh Ministers, we consider that the 3 per cent carbon reduction target will be difficult to achieve. It should be seen as the responsibility of individual Ministers to deliver their department's contribution to the overall 3 per cent carbon reduction target, which is a 'One Wales' commitment. It should not, as many Ministers seemed to

porth datblygu polisiau, y clywyd cymaint o sôn amdano ac y cawsom sicrwydd bod arfarnu cynaliadwyedd yn rhan annatod ohono. Fodd bynnag, cawsom ein siomi nid yn unig gan ddiffyg trylwyredd yr adran arfarnu cynaliadwyedd yn offeryn y porth, ond hefyd gan y ffaith na allai'r un Gweinidog feddwl am bolisi nad oedd wedi medru symud ymlaen am iddo fethu'r arfarniad cynaliadwyedd.

Yr ydym wedi argymhell y dylai'r offeryn arfarnu cynaliadwyedd a ddatblygwyd gan rai adrannau unigol gael ei roi ar waith yn fuan ar draws pob un o adrannau Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf offeryn y porth, yr ydym yn dal i deimlo y byddai llawer o adrannau'n cael anhawster mawr nodi beth maent wedi'i gyflawni o safbwynt canlyniadau cynaliadwy yn eu portffolios. Drwy ei ymchwiliad i leihau carbon yng Nghymru, mae gan y pwyllgor gryn dipyn o arbenigedd yn y maes hwn. Yr oeddem yn awyddus i gael gwybod gan bob Gweinidog pa baratoadau sydd ar y gweill i gyrraedd targed 'Cymru'n Un', sef lleihau carbon 3 y cant bob blwyddyn. Yr oedd disgwyl i'r gwaith ar hynny ddechrau 18 mis wedi'r adeg y casglwyd tystiolaeth gennym.

Deilliodd dau brif bryder o'r dystiolaeth a glywsom. Ein pryder cyntaf oedd diffyg eglurder gwirioneddol pa Weinidogion portffolios a fyddai'n gyfrifol am gyrraedd rhai o'r targedau ar gyfer lleihau allyriadau. Yr wyf eisoes wedi sôn am yr enghraifft sy'n gysylltiedig â lleihau carbon o'r sector addysg, yn ogystal â'r diffyg eglurder ynghylch y cyfrifoldeb am gyflawni targedau yn y sector gwasanaethau cyhoeddus. Gwadodd y cyn-Weinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus fod ganddo unrhyw gyfrifoldeb am ofyn cwestiynau ynghylch canlyniadau o ran cynaliadwyedd neu leihau carbon 3 y cant yng nghyswllt y cynlluniau yr oedd wedi gwneud cais amdanynt dan y gronfa buddsoddi cyfalaf sengl. Heb linellau cyfrifoldeb clir ac arweiniad gan Weinidogion Cymru, ystyriwn y bydd yn anodd cyrraedd y targed i leihau carbon 3 y cant. Dylid ystyried mai cyfrifoldeb Gweinidogion unigol yw sicrhau cyfraniad eu hadran i'r targed cyffredinol o leihau carbon 3 y cant, sy'n un o ymrwymadau 'Cymru'n

suggest, be seen as the sole responsibility of the Minister for Environment, Sustainability and Housing.

Our second concern about the 3 per cent carbon reduction target is the lack of baseline data against which to measure individual portfolio achievements. Several departments told us that they did not have baseline data. Although progress was being made on identifying and collecting the data needed, there were doubts about if and when they would be available. We recognise the need to act urgently to reduce our carbon emissions and, while we do not advocate doing nothing until we have a complete inventory of how to reduce every gram of carbon, we were worried by the inconsistencies in the amount, extent and reliability of the data available to different departments. We urge the Welsh Ministers to identify and address these gaps as a matter of urgency.

Two portfolios stood out as shining examples of good practice: health and social services, and rural affairs. In both, the central role of sustainable development in environmental, economic and social terms has been recognised. Both Ministers have sought to incorporate sustainability across their portfolios. The Minister for Heritage and the former Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills both showed us that they were aware of the importance of sustainable development within their portfolios and had started to take the agenda forward in their departments.

We were particularly disappointed with the lack of engagement with the sustainability agenda in the economy and transport, social justice and local government, and finance and public service delivery portfolios, and we think there needs to be a great deal of improvement there. We have recommended that each Minister examine their portfolio and establish explicit links between their portfolio responsibilities and sustainable development, and those links should be agreed with the Minister for Environment, Sustainability and

Un'. Ni ddylid ei ystyried yn gyfrifoldeb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn unig, fel yr oedd llawer o Weinidogion fel pe baent yn awgrymu.

Ein hail bryder am y targed o leihau carbon 3 y cant yw'r diffyg data sylfaenol y gellir mesur cyflawniadau portffolios unigol yn eu herbyn. Dywedodd nifer o adrannau wrthym nad oedd ganddynt ddata sylfaenol. Er bod cynnydd yn cael ei wneud ynghylch nodi a chasglu'r data y mae eu hangen, caed amheuan ynghylch p'un a fyddai'r data ar gael ac ynghylch pryd y byddent ar gael. Yr ydym yn cydnabod yr angen i weithredu ar frys i leihau ein hallyriadau carbon, ac er nad ydym yn cefnogi gwneud dim nes bydd gennym rhestr gyflawn yn dangos sut i leihau pob gram o garbon, yr oeddem yn pryderu am yr anghysondebau yn swm, hyd a lled a dibynadwyedd y data a oedd ar gael i wahanol adrannau. Pwyswn ar Weinidogion Cymru i nodi'r bylchau hyn a mynd i'r afael â hwy ar frys.

Yr oedd yn amlwg bod dau bortffolio'n esiamplau gwych o arfer da: yr adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a'r adran materion gwledig. Yn y naill adran a'r llall, mae rôl ganolog datblygu cynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol wedi'i chydabod. Mae'r naill Weinidog a'r llall wedi ceisio ymgorffori cynaliadwyedd ar draws eu portffolios. Dangosodd y Gweinidog dros Dreftadaeth a'r cyn-Weinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau inni eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu cynaliadwy yn eu portffolios a'u bod wedi dechrau symud yr agenda yn ei blaen yn eu hadrannau.

Cawsom ein siomi yn anad dim gan y diffyg ymgysylltiad â'r agenda gynaliadwyedd yn y portffolios ar gyfer yr economi a thrafnidiaeth, cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol, a chyllid a darparu gwasanaethau cyhoeddus, a chredwn fod angen llawer iawn o welliant yn y portffolios hynny. Yr ydym wedi argymhell y dylai pob Gweinidog archwilio'i bortffolio a sefydlu cysylltiadau amlwg rhwng cyfrifoldebau ei bortffolio a datblygu cynaliadwy, ac y dylid cytuno ar y cysylltiadau hynny gyda'r

Housing and published on the Welsh Assembly Government's website. That, we believe, will enable clear responsibilities to be established but also, more importantly for the Sustainability Committee, it will ensure that Ministers are held to account for their policies, decisions and actions on sustainable development and carbon reduction.

In closing, I would say that we welcome the Minister's response to the report. While most of the recommendations have been accepted either in part or in full, we wish to see a clear commitment from every Minister to mainstreaming sustainability in their portfolios. I hope that, another 10 years from now, Wales will be recognised as an exemplar of good practice in mainstreaming sustainability at a Government level and that a sustainable future for Wales will be a reality.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I am grateful to Mick Bates, as Chair, and the other members of the Sustainability Committee for their report examining the mainstreaming of sustainable development. He mentioned that Cabinet agreed last year that sustainable development would be the central organising principle for the Assembly Government. That was because the Government recognised that, although there had been substantial moves forward in the context of sustainability, to ensure that we delivered on our legal obligation, we needed to deliver that across the piece. That commitment to the central organising principle only shortly pre-dated the work of the committee. That commitment was central to our new sustainable development scheme, which the former First Minister and I launched last May.

I am pleased that, in its first meeting on Monday this week, the new Cabinet considered the sustainable development indicators. We have further agreed that we will report on the wellbeing of Wales as the fifth headline indicator of sustainable development, using the overall life

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Credwn y bydd hynny'n fodd i bennu cyfrifoldebau clir, ond yn bwysicach na hynny i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, credwn hefyd y bydd yn sicrhau bod Gweinidogion yn cael eu dwyn i gyfrif am eu polisiau, eu penderfyniadau a'u camau gweithredu yng nghyswllt datblygu cynaliadwy a lleihau carbon.

Wrth gloi, hoffwn ddweud ein bod yn croesawu ymateb y Gweinidog i'r adroddiad. Er bod mwyaftrif yr argymhellion wedi'u derbyn naill ai'n rhannol neu'n llawn, hoffem weld ymrwymiad clir gan bob Gweinidog i brif-ffrydio cynaliadwyedd yn eu portffolios. Gobeithiaf, ymhen 10 mlynedd arall, y bydd Cymru'n cael ei chydabod yn batrwm o arfer da o ran prif-ffrydio cynaliadwyedd ar lefel Llywodraeth ac y bydd dyfodol cynaliadwy i Gymru yn realiti.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Yr wyf yn ddiolchgar i Mick Bates, fel y Cadeirydd, ac aelodau eraill y Pwyllgor Cynaliadwyedd am eu hadroddiad a oedd yn archwilio'r modd y caiff datblygu cynaliadwy ei brif-ffrydio. Soniodd fod y Cabinet wedi cytuno y llynedd y byddai datblygu cynaliadwy'n egwyddor drefniadol ganolog ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Cytunwyd ar hynny oherwydd bod y Llywodraeth yn cydnabod, er bod camau breision wedi'u cymryd yng nghyd-destun cynaliadwyedd, bod angen inni gyflawni drwyddi draw i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaeth gyfreithiol. Ychydig amser yn unig cyn i waith y pwyllgor ddechrau y cafwyd yr ymrwymiad hwnnw i'r egwyddor drefniadol ganolog. Yr oedd yr ymrwymiad hwnnw'n ganolog i'n cynllun datblygu cynaliadwy newydd, a lanswyd gan y cyn-Brif Weinidog a minnau fis Mai diwethaf.

Yr wyf yn falch fod y Cabinet newydd, yn ei gyfarfod cyntaf ddydd Llun yr wythnos hon, wedi ystyried y dangosyddion datblygu cynaliadwy. Yr ydym wedi cytuno ymhellach y byddwn yn adrodd am les Cymru fel y pumed prif ddangosydd ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan ddefnyddio'r data

satisfaction data that are collected through the national survey for Wales. We will report on physical and mental wellbeing using data that are collected as part of the Welsh health survey. We will be signposting the children and young people's wellbeing monitor for Wales, which we published in 2008 and which will be published again this year, as well as our older person's wellbeing monitor for Wales, which focuses on the wellbeing of people aged 50 and over. We are keen to recognise the importance of community wellbeing and how communities collectively feel about their own wellbeing. We are awaiting the outcome of a review by the Office for National Statistics of this issue before proposing an approach. The wellbeing indicator, added to the other four, will help us to place the long-term wellbeing of people and communities at the centre of our approach to sustainable development.

I hope that Members have had a chance to look at the update on the Government's actions, which was provided because the debate was postponed from November to today. That additional information was laid on 7 January and e-mailed to Members at the end of last week. I hope that Members will see that our policy imperatives are fulfilling our sustainability aspirations fully.

I want to outline the main points of the Government's response to the report's recommendations concerning sustainable development and climate change. I have deliberately separated those two issues, because, although the report is on mainstreaming sustainability, it does contain recommendations in relation to climate change, which is different from sustainability.

3.10 p.m.

Recommendation 1 was that Ministers establish explicit links between their portfolios and sustainable development. We were pleased as a Government to accept that recommendation, as it is consistent with the commitment to the central organising principle. By setting out what is happening

cyffredinol ar fodlonrwydd bywyd a gesglir drwy arolwg cenedlaethol Cymru. Byddwn yn adrodd ar les corfforol a meddyliol gan ddefnyddio data a gesglir fel rhan o arolwg iechyd Cymru. Byddwn yn cyfeirio at fonitor lles plant a phobl ifanc Cymru, a gyhoeddwyd gennym yn 2008 ac a gyhoeddir unwaith eto eleni, yn ogystal â monitor lles pobl hŷn Cymru, sy'n canolbwyntio ar les pobl 50 oed a throsodd. Yr ydym yn awyddus i gydnabod pwysigrwydd lles cymunedol a sut mae cymunedau fel unedau'n teimlo am eu lles eu hunain. Yr ydym yn disgwyl canlyniad adolygiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol am y mater hwn cyn cynnig dull gweithredu. Bydd y dangosydd lles, o'i ychwanegu at y pedwar dangosydd arall, o gymorth inni osod lles hirdymor pobl a chymunedau wrth wraidd ein hagwedd at ddatblygu cynaliadwy.

Gobeithio bod Aelodau wedi cael cyfle i edrych ar y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu'r Llywodraeth, a ddarparwyd oherwydd bod y ddadl wedi'i gohirio ym mis Tachwedd i'w chynnal heddiw. Cafodd y wybodaeth ychwanegol dan sylw ei gosod ar 7 Ionawr a'i hanfon drwy e-bost at yr Aelodau ddiwedd yr wythnos diwethaf. Gobeithio y bydd Aelodau'n gweld bod ein gorchmynion polisi'n gwireddu ein dyheadau o ran cynaliadwyedd yn llawn.

Hoffwn amlinellu prif bwyntiau ymateb y Llywodraeth i argymhellion yr adroddiad ar ddatblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd. Yr wyf wedi gwahanu'r ddau beth hynny'n fwriadol, oherwydd, er bod yr adroddiad yn ymwneud â phrif-ffrydio cynaliadwyedd, mae hefyd yn cynnwys argymhellion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, sy'n wahanol i gynaliadwyedd.

Argymhelliad 1 oedd y dylai Gweinidogion sefydlu cysylltiadau amlwg rhwng eu portffolios a datblygu cynaliadwy. Fel Llywodraeth, yr oeddem yn falch derbyn yr argymhelliad hwnnw gan ei fod yn gyson â'r ymrwymiad i'r egwyddor drefniadol ganolog. Drwy egluro beth sy'n digwydd ar draws y

across the portfolios, the original response and the subsequent addendum show that Ministers are promoting sustainable development in their work, that there is collective ownership and leadership, and that we will continue to debate through Cabinet and through our Cabinet Committee on Sustainable Futures, with regard to these important issues.

In relation to the committee's other recommendations on sustainable development, our response outlines how we currently use, and are developing, a variety of tools and methods across the Assembly Government to embed sustainability. I am pleased that the committee has recognised the substantial good practice across the Assembly Government—officials across departments work together to share learning and best practice and to avoid silo working.

On our accountability, we produce a sustainable development annual report, which comes before the Assembly, and we report every year on the progress that we have made in becoming a more sustainable nation in our sustainable development indicators. Last year, I offered that we hold a debate in the Assembly on those indicators. In addition, every four years, we review the effectiveness of the sustainable development scheme and publish that report.

You mentioned the policy gateway. That has been through a refresh and now highlights the need for policies to consider how they are delivering the Welsh Assembly Government's 'One Wales: One Planet' sustainable development scheme. It is important that the policy gateway be used consistently right across the Assembly Government.

Dealing separately with the climate change recommendations, recommendation 6 relates to ministerial accountability for meeting our climate change targets, which we have agreed in principle. Accountability for the targets is held collectively by Cabinet. However, as we have told the Sustainability Committee, Ministers are responsible for emissions within their portfolios, although there will be

portffolios, mae'r ymateb gwreiddiol a'r atodiad dilynol yn dangos bod Gweinidogion yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn eu gwaith, y ceir cydberchnogaeth ac arweiniad, ac y byddwn yn parhau i ddadlau am y materion pwysig hyn, drwy'r Cabinet a thrwy ein Pwyllgor Cabinet ar Ddyfodol Cynaliadwy.

O ran argymhellion eraill y pwyllgor ar ddatblygu cynaliadwy, mae ein hymateb yn egluro sut yr ydym wrthi'n defnyddio ac yn datblygu amrywiaeth o adnoddau a dulliau ar draws Llywodraeth y Cynulliad i ymgorffori cynaliadwyedd. Yr wyf yn falch bod y pwyllgor wedi cydnabod yr arfer da sylweddol a geir ar draws Llywodraeth y Cynulliad—mae swyddogion ar draws adrannau wrthi'n cydweithio i rannu gwaith dysgu ac arfer da ac osgoi gweithio heb ymwneud ag eraill.

O ran ein hatebolrwydd, yr ydym yn llunio adroddiad blynyddol ar ddatblygu cynaliadwy, a gyflwynir gerbron y Cynulliad, a byddwn yn adrodd bob blwyddyn am y cynnydd a wnaed gennym wrth dyfu'n wlad fwy cynaliadwy yn ein dangosyddion datblygu cynaliadwy. Y llynedd, cynigiais y dylem gael dadl yn y Cynulliad ar y dangosyddion hynny. Yn ogystal, bob pedair blynedd byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y cynllun datblygu cynaliadwy ac yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw.

Soniecch am y porth i bolisiâu. Mae'r porth wedi'i ailwampio, ac y mae bellach yn tynnu sylw at yr angen i bolisiâu ystyried sut maent yn gwireddu cynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'. Mae'n bwysig bod y porth i bolisiâu'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws Llywodraeth y Cynulliad.

O ymdrin ar wahân â'r argymhellion ynghylch y newid yn yr hinsawdd, mae argymhelliad 6 yn ymwneud ag atebolrwydd Gweinidogion ynghylch cyrraedd ein targedau o ran y newid yn yr hinsawdd, ac yr ydym wedi cytuno â'r argymhelliad mewn egwyddor. Mae atebolrwydd ynghylch y targedau'n perthyn i'r Cabinet cyfan. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi dweud wrth y

areas in which Ministers will wish to work jointly or collectively to achieve the required reduction. Our climate change strategy will be published later this year.

Recommendation 7 is about reporting on the delivery of climate change targets, and a key feature of our climate change strategy will be a clear forward plan for reporting progress, which will include regular reports to the National Assembly. Those reports will also go to colleagues at Westminster.

Angela Burns: Minister, thank you for your response to the committee's report and for the words that you have spoken today. I was delighted to be involved in this committee inquiry, and I thank everybody who came to give such help with it—it was a lengthy process. I thought it an interesting and unusual topic to look at what we do as an Assembly. It was enlightening and, I am afraid to say, disappointing, in many ways. Mick has very clearly and adequately explained the committee's view and why we reached our conclusions, but I want to pick up on a couple of the points that you made, Minister, and on two of the recommendations.

There is no doubt that, when we interviewed the various Ministers and their officials, some carried the sustainability message to the heart of their portfolios with ease and commitment, while, for others, I do not even think that it was a matter of commitment—they just had not got around to thinking about it in any great depth. It certainly came across to us in that way. I will not name and shame the individuals, but you could see it, and you could see it when talking to their officials, as there was a real sense of non-comprehension of what sustainability is all about. The Assembly is most unusual in having these key, central organising principles of sustainability, equality and, now, child poverty—although the latter is not enshrined in the Act.

Pwyllgor Cynaliadwyedd, mae'r Gweinidogion yn gyfrifol am allyriadau yn eu portffolios, er y bydd meysydd lle bydd Gweinidogion yn dymuno gweithio ar y cyd ag eraill neu gyda'i gilydd i sicrhau'r lleihad sy'n ofynnol. Bydd ein strategaeth newid yn yr hinsawdd yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Mae argymhelliad 7 yn ymwneud ag adrodd am gyflawni targedau ar y newid yn yr hinsawdd, ac un o nodweddion allweddol ein strategaeth ar newid yn yr hinsawdd fydd blaengynllun clir ar gyfer adrodd am gynnydd, a fydd yn cynnwys adroddiadau rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yr adroddiadau hynny'n cael eu hanfon hefyd at gydweithwyr yn San Steffan.

Angela Burns: Weinidog, diolch am eich ymateb i adroddiad y pwyllgor ac am eich geiriau heddiw. Yr oeddwn yn falch o fod yn rhan o'r ymchwiliad hwn gan bwyllgor, a diolchaf i bawb a ddaeth i roi cymaint o gymorth ag ef—yr oedd y broses yn unfaith. Teimlwn fod edrych ar yr hyn a wnawn fel Cynulliad yn bwnc diddorol ac anarferol. Yr oedd yn ddadlennol, ac mae'n flin gennyf ddweud, yn siomedig ar sawl cyfrif. Mae Mick wedi egluro barn y pwyllgor ac wedi egluro pam y daethom i'n casgliadau, yn eglur ac yn ddigonol iawn, ond hoffwn sôn am rai o'r pwyntiau a wnaethoch chi, Weinidog, a sôn am ddau o'r argymhellion.

Wrth inni roi cyfweiliad i'r amryw Weinidogion a'u swyddogion, nid oedd amheuaeth nad oedd rhai'n mynd â'r neges am gynaliadwyedd at graidd eu portffolios heb anhawster a chan ddangos ymrwymiad. Ond yn achos eraill, nid wyf hyd yn oed yn credu mai ymrwymiad oedd y broblem—yn syml iawn, nid oeddent wedi dod i ben â meddwl am gynaliadwyedd yn fanwl. Dyna'n bendant oedd yr argraff a gawsom. Nid wyf am enwi'r unigolion a chodi cywilydd arnynt, ond yr oedd yn amlwg inni, ac yr oedd yn amlwg wrth siarad â'u swyddogion, oherwydd caed ymdeimlad gwirioneddol o ddiffyg dealltwriaeth o wir ystyr cynaliadwyedd. Mae'r Cynulliad yn anarferol iawn yn yr ystyr bod ganddo'r egwyddorion trefniadol canolog, allweddol hyn, sef cynaliadwyedd, cydraddoldeb, a thlodi plant

hefyd erbyn hyn—er nad yw tlodi plant wedi'i gynnwys yn y Ddeddf.

I will just make a one-off comment. It is fair to say that, from all the committees that I work on and from talking to various Ministers about these issues, I do not think that we are as good at mainstreaming these particular aspects as we think we are. Mick made the comment that it should not be up to you, Minister, to have to drive this through every single Assembly Government department and I strongly agree with that.

You made a comment that you felt there was substantial good practice across the piece and you wanted to ensure that that would help to eradicate silo-working. Strangely, having watched the evidence coming in, the one thing that I felt that was going on was silo-working. I will mention the Department for Health and Social Services because it was outstanding compared to everybody else. When its representatives came and talked about sustainability within their portfolio, they were a bunch of people who really knew what it was about, had their fingers on the button, could answer all the questions, and were convincing in not only their answers, but also in the fact that they believed that it was incredibly important to have sustainability driven throughout that portfolio. That is why I heartily recommend recommendation 8 to you. I do not think that any of the other portfolios came across half as well as the department for health. You talked about the sustainable development advisers working together to try to bring forward good practice, but I would suggest that they should go and see those guys and talk to them about how they have done it, and how they could take that good practice forward, because they were head and shoulders above the rest.

The other recommendation that I would like to mention, which you have already talked about, is recommendation 6. You agreed in principle that Ministers should be in charge of looking for carbon reductions and aiming for the 3 per cent target. We have not said this as a committee, but your response, which

Hoffwn wneud un sylw wrth basio. O'r holl bwyllgorau yr wyf yn gweithio arnynt ac o sgwrsio ag amryw Weinidogion am y materion hyn, mae'n deg dweud fy mod o'r farn nad ydym yn prif-ffrydio'r agweddau penodol hyn gystal ag y tybiwn. Soniodd Mick nad chi, Weinidog, a ddylai fod yn gyfrifol am orfod hybu'r agenda hon drwy bob un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, a chytunaf yn gryf â hynny.

Dywedasoch eich bod yn teimlo bod arfer da sylweddol ar waith drwyddi draw a'ch bod am wneud yn siŵr y byddai hynny o gymorth i sicrhau nad yw pobl yn gweithio heb ymwneud ag eraill. Yn rhyfedd iawn, ar ôl gwyllo'r dystiolaeth yn cyrraedd, yr oeddwn yn teimlo'n bendant bod pobl yn gweithio heb ymwneud ag eraill. Hoffwn sôn am yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd yr oedd yn rhagorol o'i chymharu â phob adran arall. Pan ddaeth cynrychiolwyr yr adran i siarad am gynaliadwyedd yn eu portffolio, yr oeddent yn griw o bobl a oedd yn deall gwir ystyr cynaliadwyedd, yr oeddent â'u bys ar y botwm, yr oeddent yn gallu ateb yr holl gwestiynau, ac yr oeddent yn argyhoeddi nid yn unig drwy eu hatebion ond hefyd drwy'r ffaith eu bod yn credu ei bod yn eithriadol o bwysig sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei hybu drwy bob agwedd ar y portffolio. Dyna pam yr wyf yn cymeradwyo argymhelliad 8 yn frwd ichi. Nid wyf yn meddwl bod yr un o'r portffolios eraill wedi creu argraff hanner cystal â'r argraff a greodd yr adran iechyd. Buoch yn sôn am yr ymgynghorwyr datblygu cynaliadwy'n cydweithio â'i gilydd i geisio cyflwyno arfer da, ond hoffwn awgrymu y dylent fynd i weld swyddogion yr adran iechyd a siarad â hwy am y ffordd y maent wedi gweithredu, a sut y gallent ddatblygu'r arfer da hwnnw, oherwydd yr oeddent ben ac ysgwydd ar y blaen i'r lleill.

Yr argymhelliad arall yr hoffwn ei grybwyll ac yr ydych wedi sôn amdano eisoes yw argymhelliad 6. Yr oeddech yn cytuno mewn egwyddor y dylai Gweinidogion fod yn gyfrifol am chwilio am ffyrdd o leihau carbon ac anelu at y targed 3 y cant. Nid ydym wedi dweud hyn fel pwyllgor, ond mae

I have read, and what you just said makes me wonder if you would consider trying to get the Cabinet to buy into producing a carbon budget every year. I think that that would be one way of focusing all the other Ministers and their minds on the importance of carbon reduction and the importance of us aiming for that 3 per cent target. One of my worries is that this is a fine response because, Minister, you talk the talk and walk the walk, but I think that you are one of the few members of Cabinet who has the time, the energy and the patience to walk the walk to this extent. I wonder if a carbon budget would help you to drive this message home to the rest of the Cabinet.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn ddiolch yn gyntaf i Gadeirydd y pwyllgor am ei arweiniad wrth inni ymgymryd â'r arolwg hwn, ac i'r ysgrifenyddiaeth am y gwaith a wnaethant yn sicrhau bod tystion ar ein cyfer, yn sicrhau ein bod yn dilyn strategaeth glir yn ystod yr arolwg, ac yn casglu'r holl dystiolaeth at ei gilydd.

Hoffwn groesawu eich ymrwymiad, Weinidog, i sicrhau fod cynaliadwyedd yn cael ei brif ffrydio yng ngwaith Llywodraeth Cymru. Hoffwn groesawu hefyd eich ymateb i'n hadroddiad. Fodd bynnag, fel aelodau eraill y pwyllgor, buaswn yn gofyn am ymrwymadau cadarnach i'n hargymbhellion. Yr ydych wedi derbyn rhai o'n argymbhellion yn rhannol yn hytrach nag yn llawn. Weinidog, a ydych chi'n derbyn, wedi 10 mlynedd o Lywodraeth a oedd wedi ei seilio ar ymrwymiad statudol i hyrwyddo cynaliadwyedd, ein bod mewn sefyllfa siomedig o ran cyflawniadau? Nid wyf yn amau bwriadau da pobl—mae hynny wedi bod yn amlwg dros y 10 mlynedd diwethaf—ond hyd yn oed ar ddiwedd y cyfnod hwn, yr ydym yn dal i sôn am fwriadau ac yn gosod targedau, ac ychydig iawn o gyflawniadau sydd i'w gweld. Mae'n ymddangos i mi, er bod nifer o Weinidogion wedi dangos ymrwymiad personol, nid yw'r ymrwymiad personol hwnnw wedi ymdreiddio i'w hadrannau ac nid yw'r adrannau hynny yn eu cyfanrwydd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Yr wyf yn amheus iawn o unrhyw weithredu trawsadrannol ar unrhyw

eich ymateb, yr wyf wedi'i ddarllen, a'r hyn yr ydych newydd ei ddweud yn gwneud imi feddwl tybed a fydddech yn ystyried ceisio cael y Cabinet i gefnogi llunio cyllideb garbon bob blwyddyn. Teimlaf y byddai hynny'n un ffordd o gael yr holl Weinidogion eraill a'u meddyliau i ganolbwyntio ar bwysigrwydd lleihau carbon a phwysigrwydd anelu at y targed 3 y cant hwnnw. Un peth sy'n fy mhryderu yw hyn: mae hwn yn ymateb gwych oherwydd, Weinidog, yr ydych yn gweithredu yn ogystal â siarad, ond credaf eich bod yn un o Aelodau prin y Cabinet sydd â'r amser, yr egni a'r amynedd i weithredu i'r graddau hyn. Tybed a fyddai cyllideb garbon o gymorth ichi gael gweddill Aelodau'r Cabinet i ddeall gwir ystyr y neges hon?

Rhodri Glyn Thomas: First of all, I should like to thank the Chair of the committee for his leadership as we undertook this review, and the secretariat for the work they did in securing witnesses, ensuring that we followed a clear strategy during the review, and in collating all the evidence.

I welcome your commitment, Minister, to ensuring that sustainability is mainstreamed in the activities of the Welsh Government. I also welcome your response to our report. However, like every other member of the committee, I would ask for firmer commitments to our recommendations. You have accepted some of our recommendations partially rather than fully. Minister, do you accept that after 10 years of a Government with a statutory commitment to promoting sustainability, we are in a disappointing position as regards achievements? I do not doubt people's good intentions—they have been evident over the last 10 years—but even at the end of that period, we are still talking about intentions and setting targets, and there are very few achievements. It seems to me that although several Ministers have demonstrated a personal commitment, that commitment has not permeated into their departments and those departments are not entirely on top of their responsibilities in this field. I am very sceptical of any cross-departmental activities on any scale within the Welsh Government.

raddfa o fewn Llywodraeth Cymru.

3.20 p.m.

Fel y dywedodd Mick yn ei gyflwyniad, un o'r pethau a oedd yn ein taro, oedd bod yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodel arbennig o dda ar gyfer adrannau eraill. Yr oedd yn amlwg fod yr adran wedi mynd ati i edrych yn fanwl ar sut y gellid sicrhau fod cynaliadwyedd yn ganolog i'w gweithgareddau. Felly, mae'r argymhelliad hwnnw yn eithriadol o bwysig.

Yr wyf yn siŵr eich bod wedi edrych yn fanwl ar y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor, ac y byddwch yn canfod fod yr ymateb i'r adroddiad yn drawsbleidiol unfrydol. Yr wyf yn cofio'r trafodaethau a gawsom wrth ffurfio'r argymhellion hyn, ac yr oedd holl aelodau'r pwyllgor yn gytun. Fodd bynnag, a wnewch edrych ar y dystiolaeth sy'n dangos bod rhai Gweinidogion ac adrannau nad ydynt yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac sy'n ansicr ynglŷn â sut yn union y gellir cyflawni hynny? A allwn ddibynnu arnoch i sicrhau fod yr adrannau hynny yn cael eu monitro a'u harwain er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i gyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf? Nid wyf yn sôn am edrych yn ôl mewn 10 mlynedd, ond am ofyn cwestiynau mewn blwyddyn, dwy flynedd a phum mlynedd ynglŷn â beth yn union sydd wedi cael ei gyflawni.

Mae'r adroddiad yn eich rhoi mewn sefyllfa, Weinidog, i weld yn glir lle mae adrannau wedi symud ymlaen i weithredu ar y mater hwn ac i sicrhau ei fod yn rhan annatod o'u gweinyddiaeth fewnol. Fel aelodau o'r pwyllgor, byddem yn awgrymu nad oes gormod o adrannau wedi gwneud hynny. Mae arwyddion fod adrannau eraill yn dechrau gweithio tuag at y nod, ond mae tystiolaeth hefyd, fel yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod, bod rhai adrannau a Gweinidogion nad ydynt yn gweld hyn fel blaenoriaeth ac sydd yn ansicr ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud. Weinidog, yr ydym yn derbyn eich ymrwymiad personol i'r mater a'ch ymateb cadarnhaol i'r adroddiad, ond yr ydym yn disgwyl gweld pethau y gallwn, fel Cynulliad, ymfalchïo ynddynt yn cael eu cyflawni ar fyrder.

As Mick said in his introduction, one thing that struck us was that the Health and Social Services Department was a particularly good model for other departments. It was obvious that they had been looking in detail at how they could ensure that sustainability was central to their activities. So, that recommendation is extremely important.

I am sure you have looked in detail at the evidence given to the committee, and you will discover that the response to the report is unanimous across the parties. I remember the discussions that we had when formulating these recommendations and all members of the committee were in agreement. However, will you look at the evidence that shows that some Ministers and departments are not aware of their responsibilities and are not clear about how exactly that can be achieved? May we depend on you to ensure that those departments are monitored and are given some guidance to ensure that we succeed during the next few years? I am not talking about looking at it 10 years hence, but about asking questions in a year, two years and five years' time regarding what exactly has been accomplished.

This report puts you in a position, Minister, to see clearly where the departments have moved forward to take action on this matter and to ensure that it is an integral part of their internal administration. As members of the committee, we would suggest that not too many departments have done that. There are indications that other departments have started to work towards the aim, but there is also evidence, as I am sure that you are aware, that some departments and Ministers do not view this as a priority and are uncertain about what needs to be done. Minister, we accept your personal commitment and your positive response to the report, but we expect to see things being accomplished soon that we, as an Assembly, can be proud.

Alun Davies: Since I left the Sustainability Committee this week, I wish to start by putting on record my thanks to the staff of that committee for their work in supporting the inquiries of that committee. I thank the Chair of the committee in particular for the way in which the committee has been led since its establishment in 2007. Mick Bates has steered this committee in such a way as to allow the committee to produce some wide-ranging and hard-hitting reports, and the whole Chamber should recognise that and acknowledge the debt of gratitude that we have to him for the way in which he has steered the committee.

In many ways, this report is one of the most significant reports that we have discussed, because it does not simply discuss an area of policy; it discusses one of the Government's statutory duties. This is also a crosscutting policy area that should be the responsibility of not only an individual Minister, but the Cabinet and the Government as a whole.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing began her contribution in the evidence session to the committee by explaining how she could always empty the Chamber by talking about sustainability. She was asked whether or not she felt under political pressure from the Assembly as a whole—from Members—and she answered carefully that she felt under political pressure from the Cabinet and the First Minister, and that she looked forward to being put under further political pressure by Members. That is not exactly a ringing endorsement of the Assembly's commitment to sustainability, as a collective, across the Chamber.

Over a period of three or four months, we examined what political pressure was coming from the First Minister and the rest of the Cabinet. It was a tarnished gift in many ways. A series of Ministers came before the committee, and the way in which they discussed sustainability as a priority often did not sound entirely convincing. The impression that I gained was that sustainability is not a key priority for many Ministers in the execution of their duties.

Alun Davies: Gan imi adael y Pwyllgor Cynaliadwyedd yr wythnos hon, hoffwn ddechrau trwy gofnodi fy niolch i staff y pwyllgor hwnnw am eu gwaith wrth gynorthwyo'i ymchwiliadau. Diolchaf yn arbennig i Gadeirydd y pwyllgor am y modd y mae'r pwyllgor wedi cael ei arwain ers ei sefydlu yn 2007. Mae Mick Bates wedi llywio'r pwyllgor mewn modd sy'n caniatáu i'r pwyllgor lunio adroddiadau pellgyrhaeddol a deifiol, a dylai'r Siambr gyfan gydnabod hynny a sylweddoli'r diolch sy'n ddyledus iddo am y modd y mae wedi llywio'r pwyllgor.

Ar sawl cyfrif, mae'r adroddiad hwn yn un o'r adroddiadau pwysicaf inni eu trafod, oherwydd nid yw'n trafod maes polisi'n unig; mae'n trafod un o ddyletswyddau statudol y Llywodraeth. Mae hwn hefyd yn faes polisi trawsbynciol a ddylai fod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet a'r Llywodraeth yn gyfan, nid i un Gweinidog yn unig.

Dechreuodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ei chyfraniad yn y sesiwn dystiolaeth i'r pwyllgor drwy esbonio sut y gallai wagio'r Siambr bob amser drwy siarad am gynaliadwyedd. Gofynnwyd iddi a oedd yn teimlo dan bwysau gwleidyddol gan y Cynulliad yn ei gyfanrwydd—gan yr Aelodau—ai peidio, ac atebodd yn ofalus gan ddweud ei bod yn teimlo dan bwysau gwleidyddol gan y Cabinet a'r Prif Weinidog, a'i bod yn edrych ymlaen at gael ei rhoi dan bwysau gwleidyddol pellach gan yr Aelodau. Nid yw hynny'n gymeradwyaeth gref i ymrwymiad y Cynulliad i gynaliadwyedd, fel uned, ar draws y Siambr.

Dros gyfnod o dri neu bedwar mis, buom yn archwilio pa bwysau gwleidyddol a ddeuai o du'r Prif Weinidog a gweddill y Cabinet. Yr oedd yn rhodd amherffaith ar sawl cyfrif. Daeth cyfres o Weinidogion gerbron y pwyllgor, ac yn aml, nid oedd y modd yr oeddent yn trafod cynaliadwyedd fel blaenoriaeth yn argyhoeddi'n llwyr. Yr argraff a gefais oedd nad oedd cynaliadwyedd yn flaenoriaeth allweddol i lawer o Weinidogion wrth gyflawni eu ddyletswyddau.

Other Members have referred to the department for health this afternoon, and I will do so as well. I think that the department for health was able to demonstrate the priority given to sustainability in terms of its overall work, and also that it had systems, policies and a management structures in place to make that political priority a reality. I think the department for health stands out in that way. I will be more charitable to the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills than the Chair of the committee was earlier. The education department showed that it gave sustainability a level of priority, although some of the structures were not in place to deliver on that. I would also pick out the Department for Rural Affairs, because it was also able to demonstrate how sustainability is a key part of its functions and responsibilities.

Regarding where we arrived, the clarity of roles and responsibilities, as well as the outcomes and results, were key parts of our report. There needs to be far more clarity in terms of who does what, and who is responsible for delivering what. We also need to be clear about what we mean by outcomes. All too often—and I believe that this will resonate with many people—rather than delivering and reporting on outcomes, we hear a lot about outputs and actions. However, we do not hear a lot about the consequences of those actions and the impact of those outputs. We do not discuss how we have changed Wales; we discuss and report on the activities upon which we have embarked. These are two very different things. Sustainability should be about leading cultural and social change in terms of the behaviour of people in Wales and across Wales, which includes all parts of the public sector. It also means delivering on the 3 per cent target, limiting the amount of carbon that is produced in Wales and reducing the amount of carbon that is produced in Wales. These are real outcomes and they are different to reporting simply on activity.

I hope that this report will lead to action and I

Mae Aelodau eraill wedi cyfeirio at yr adran iechyd y prynhawn yma, a hoffwn innau wneud hynny hefyd. Credaf fod yr adran iechyd wedi medru dangos y flaenoriaeth a roddir i gynaliadwyedd o safbwynt ei gwaith cyffredinol, a'i bod wedi medru dangos hefyd bod ganddi systemau, polisiau a strwythurau rheoli ar waith i droi'r flaenoriaeth wleidyddol honno'n realiti. Credaf fod yr adran iechyd yn rhagori yn yr ystyr hwnnw. Byddaf yn fwy caredig i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau nag yr oedd Cadeirydd y pwyllgor yn gynharach. Dangosodd yr adran addysg ei bod yn rhoi rhywfaint o flaenoriaeth i gynaliadwyedd, er nad oedd rhai o'r strwythurau ar waith i gyflawni i'r perwyl hwnnw. Hoffwn dynnu sylw hefyd at yr Adran Materion Gwledig, oherwydd yr oedd yr adran honno hefyd yn gallu dangos sut mae cynaliadwyedd yn rhan allweddol o'i swyddogaethau a'i chyfrifoldebau.

O ran pen ein taith, yr oedd eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, yn ogystal â'r canlyniadau, yn rhannau allweddol o'n hadroddiad. Mae angen mwy o eglurder o lawer o safbwynt pwy sy'n gwneud beth, a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni beth. Yn ogystal, mae angen inni ddeall beth a olygwn wrth ganlyniadau. Yn rhy aml o lawer—a chredaf y bydd nifer o bobl yn cytuno â hyn—yn hytrach na sicrhau canlyniadau ac adrodd yn eu cylch, clywn lawer o sôn am allbynnau a chymau gweithredu. Fodd bynnag, ychydig a glywn am effeithiau'r camau gweithredu a dylanwad yr allbynnau hynny. Nid ydym yn trafod sut yr ydym wedi newid Cymru; yr ydym yn trafod y gweithgareddau yr ydym wedi ymgymryd â hwy ac yn adrodd yn eu cylch. Mae'r ddau beth hyn yn wahanol iawn i'w gilydd. Dylai cynaliadwyedd fod yn ymwneud ag arwain newid diwylliannol a chymdeithasol o safbwynt ymddygiad pobl yng Nghymru ac ar draws Cymru, sy'n cynnwys pob rhan o'r sector cyhoeddus. Mae hefyd yn golygu cyrraedd y targed o 3 y cant, cyfyngu'r carbon a gynhyrchir yng Nghymru a lleihau'r carbon a gynhyrchir yng Nghymru. Mae'r rhain yn ganlyniadau go iawn, ac maent yn wahanol i adrodd yn syml am gweithgarwch.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn

commend the Minister for sustainability on her response to the report. Moreover, I was delighted to see that the First Minister, under very trying personal circumstances, made a commitment to this agenda by attending the conference in Copenhagen. We should commend both the Minister and the First Minister on those actions.

I will conclude my remarks here, but I hope that the Sustainability Committee will continue this investigation and will return to it on a regular basis, thereby ensuring that the report that has been presented today will be a regular part of Assembly proceedings, and that we will be able to hold the Government to account for delivering on its statutory obligations, as well as on the political commitments given by individual Ministers.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I want to reassure Members regarding the Cabinet's commitment to sustainable development. There are five indicators, now that we have added wellbeing: the economic indicator, the social justice indicator, the environmental indicator, the resource indicator—the ecological footprint—and the new indicator of wellbeing. Sustainability cuts across all of those indicators. One of the challenges for us all is to make sure that people do not confuse sustainability with the environment, any more than they confuse sustainability with climate change. Climate change is one of the most explicit examples of a lack of sustainable development, but environmental issues are only one part of the wider sustainability agenda.

I do not think that it would be right to say that we are disappointed with where we are now. We have continued, as an Assembly and as an Assembly Government, to maintain a commitment to sustainable development, which makes us almost unique. When I have tried to talk to other nations or regions with a similar duty, it does appear that we are probably the most active in terms of taking this duty seriously. One of the great opportunities to have been created by this

arwain at weithredu, a chymeradwyaf y Gweinidog dros gynaliadwyedd am ei hymateb i'r adroddiad. At hynny, yr oeddwn yn falch o weld i'r Prif Weinidog, mewn amgylchiadau personol anodd tu hwnt, ymrwymo i'r agenda hon drwy fynychu'r gynhadledd yn Copenhagen. Dylem ganmol y Gweinidog a'r Prif Weinidog am wneud hynny.

Hoffwn gloi fy sylwadau'n awr, ond gobeithio y bydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn parhau'r ymchwiliad hwn ac yn dychwelyd ato'n rheolaidd, gan sicrhau felly y bydd yr adroddiad a gyflwynwyd heddiw'n rhan reolaidd o drafodion y Cynulliad, ac y byddwn yn gallu dwyn y Llywodraeth i gyfrif am gyflawni yng nghyswllt ei rhwymedigaethau statudol yn ogystal â'r ymrwymadau gwleidyddol a roddir gan Weinidogion unigol.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Hoffwn roi sicrwydd i Aelodau am ymrwymiad y Cabinet i ddatblygu cynaliadwy. Ceir pum dangosydd, gan ein bod bellach wedi ychwanegu lles: y dangosydd economaidd, y dangosydd cyfiawnder cymdeithasol, y dangosydd amgylcheddol, y dangosydd adnoddau—yr ôl troed ecolegol—a'r dangosydd newydd, sef lles. Mae cynaliadwyedd yn rhan o bob un o'r dangosyddion hynny. Un o'r heriau i bob un ohonom yw sicrhau nad yw pobl yn drysu rhwng cynaliadwyedd a'r amgylchedd, ac nad ydynt ychwaith yn drysu rhwng cynaliadwyedd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn un o'r enghreifftiau amlycaf o ddiffyg datblygu cynaliadwy, ond un rhan yn unig o'r agenda gynaliadwyedd ehangach yw materion amgylcheddol.

Ni chredaf y byddai'n gywir dweud ein bod yn siomedig â'r man lle'r ydym ar hyn o bryd. Yr ydym wedi parhau, fel Cynulliad ac fel Llywodraeth Cynulliad, i ymrwymo'n barhaus i ddatblygu cynaliadwy, sy'n golygu ein bod bron yn unigryw. Pan wyf wedi ceisio siarad â gwledydd neu ranbarthau eraill sydd â dyletswydd debyg, ymddengys mai ni yw'r mwyaf gweithgar yn ôl pob tebyg o safbwynt cymryd y ddyletswydd hon o ddifrif. Un o'r cyfleoedd gwych a grëwyd

report is the opportunity for people to have this report to hand, when we do our annual reporting to the Assembly. This will enable people to be certain about delivery in terms of the indications given by Ministers and what the Government has said. Of course, we are also accountable to the Assembly regarding our progress on sustainable development indicators.

3.30 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: I take the point that you are making about the indicators, Minister, and that is encouraging, but do you share my disappointment, and, I think, the disappointment of all the members of the Sustainability Committee, that, 10 years after the establishment of the National Assembly for Wales and the formation of the Welsh Government, we still had Ministers coming to give evidence who were not clear about their responsibilities for sustainable development and were not clear about how their departments could carry out those responsibilities?

Jane Davidson: As I said in my introduction, part of the reason—I want to pay particular tribute to Rhodri Morgan, our previous First Minister, for the way that he so strongly supported this agenda—why we made that big decision in May last year to make sustainable development the central organising principle was so that we could be sure that it was spread right across the Assembly Government. In our Cabinet Committee on Sustainable Futures, we are looking to all Ministers to demonstrate what they are doing in terms of sustainability in their portfolios. All that material is published following the meetings.

In addition, having had my presentation to the committee quoted by Alun, I want to say that I hope that every Assembly department is challenged by Assembly Members on the issue of sustainability. The duty that was laid upon us was laid on the National Assembly for Wales in the context of our establishment and devolution in 1999. The importance of this duty being delivered effectively means

gan yr adroddiad hwn yw'r cyfle i bobl allu troi at yr adroddiad hwn pan fyddwn yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Cynulliad. Bydd hynny'n galluogi pobl i fod yn sicr ynghylch cyflawni o safbwynt yr arwyddion a roddir gan Weinidogion a'r hyn a ddywedir gan y Llywodraeth. Wrth gwrs, yr ydym hefyd yn atebol i'r Cynulliad ynghylch ein cynnydd yng nghyswllt dangosyddion datblygu cynaliadwy.

Rhodri Glyn Thomas: Derbyniaf eich pwynt am y dangosyddion, Weinidog, ac y mae hynny'n galonogol, ond a ydych chi, fel finnau, a holl aelodau'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, mi gredaf, yn siomedig fod gennym o hyd, 10 mlynedd ar ôl sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ffurfio Llywodraeth Cymru, Weinidogion yn dod i roi tystiolaeth heb ddeall eu cyfrifoldebau am ddatblygu cynaliadwy a heb ddeall sut y gallai eu hadrannau gyflawni'r cyfrifoldebau hynny?

Jane Davidson: Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad, rhan o'r rheswm—hoffwn roi teyrnged arbennig i Rhodri Morgan, ein Prif Weinidog blaenorol, am gryfder ei gefnogaeth i'r agenda hon—pam y gwnaethom y penderfyniad mawr hwnnw fis Mai y llynedd i sicrhau bod datblygu cynaliadwy'n egwyddor drefniadol ganolog, oedd er mwyn inni allu bod yn siŵr bod datblygu cynaliadwy'n ymestyn ar draws pob rhan o Lywodraeth y Cynulliad. Yn ein Pwyllgor Cabinet ar Ddyfodol Cynaliadwy, yr ydym yn gofyn i bob Gweinidog ddangos beth maent yn ei wneud o safbwynt cynaliadwyedd yn eu portffolios. Caiff yr holl ddeunydd hwnnw ei gyhoeddi'n dilyn y cyfarfodydd.

Yn ogystal, ar ôl i Alun ddyfynnu fy nghyflwyniad i'r pwyllgor, hoffwn ddweud fy mod yn gobeithio bod holl adrannau'r Cynulliad yn cael eu herio gan Aelodau'r Cynulliad ynghylch cynaliadwyedd. Cafodd y ddyletswydd a osodwyd arnom ei gosod ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghydestun ein sefydlu ac yng nghydestun datganoli yn 1999. Mae pwysigrwydd

that it must happen in government, public service and every single area of responsibility of the Assembly Government and the National Assembly. I hope that Members will continue to support that.

Mick Bates: I thank everyone who has contributed to today's debate, and, in particular, members of the committee for their scrutiny during our inquiry. Everyone is clear, Minister, about your role in leading this agenda and it is also clear from all the contributions and from our report that there is a certain element of disappointment that, after 10 years, these indicators were not powerfully expressed through integrated policies and available for all of us to scrutinise the achievement in each portfolio. I hope that the aims of each portfolio will be made available on the Assembly Government website so that we can, in future, scrutinise the sustainable development outcomes in those portfolios. I understand the difficulties in creating those indicators—people have struggled with wellbeing for a long time, for example.

I would also like to point out that, while some people see confusion between the sustainable development area and the climate change and emission reduction agenda, climate change has an impact on the five indicators of sustainable development. That is why we asked questions such as, 'What are you doing in your portfolio to reduce carbon emissions in line with 'One Wales'?' to which people replied, 'We don't know. We don't know if it is our responsibility or is for another public service. Should the collective emissions from all our schools be under the Minister for education or the Minister for public service delivery? We don't know.' I noted in your response that that confusion was not addressed, but I hope that it will be soon, because 'One Wales' commits to a 3 per cent reduction in emissions by 2011, despite the fact that the data to assess that will not be available until 2012.

In conclusion, I would like to turn to the

cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol yn golygu bod yn rhaid i hynny ddigwydd mewn llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus a phob maes cyfrifoldeb unigol sydd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n parhau i gefnogi hynny.

Mick Bates: Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon heddiw, a diolch yn benodol i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith craffu yn ystod ein hymchwiliad. Mae pawb, Weinidog, yn deall eich rôl yn arwain yr agenda hon, ac y mae hefyd yn amlwg o'r holl gyfraniadau ac o'n hadroddiad ni fod ychydig siom na chafodd y dangosyddion hyn, ar ôl 10 mlynedd, eu mynegi'n rymus drwy bolisiâu integredig, ac nad oeddent ar gael i bob un ohonom graffu ar yr hyn a gyflawnwyd ym mhob portffolio. Gobeithio y bydd nodau pob portffolio ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad er mwyn inni allu craffu yn y dyfodol ar y canlyniadau o ran datblygu cynaliadwy yn y portffolios hynny. Deallaf yr anawsterau o ran creu'r dangosyddion hynny—mae pobl wedi bod yn ymrafael â lles ers amser maith, er enghraifft.

Er bod rhai pobl yn gweld dryswch rhwng maes datblygu cynaliadwy a'r agenda ar y newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau, hoffwn nodi hefyd fod y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y pum dangosydd ar gyfer datblygu cynaliadwy. Dyna pam y gofynnodd y pwyllgor gwestiynau megis 'Beth rydych chi'n ei wneud yn eich portffolio i leihau allyriadau carbon yn unol â 'Cymru'n Un'?. Ateb pobl i hynny oedd, 'Nid ydym yn gwybod. Nid ydym yn gwybod ai ein cyfrifoldeb ni ynteu cyfrifoldeb gwasanaeth cyhoeddus arall yw hynny. A ddylai'r holl allyriadau o'n holl ysgolion fod yn gyfrifoldeb y Gweinidog dros addysg ynteu'r Gweinidog dros gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus? Nid ydym yn gwybod.' Nodais na roddwyd sylw i'r dryswch hwnnw yn eich ymateb, ond gobeithiaf y bydd yn cael sylw'n fuan, oherwydd mae 'Cymru'n Un' yn ymrwmo i leihau allyriadau 3 y cant erbyn 2011, er gwaethaf y ffaith na fydd y data i asesu hynny ar gael tan 2012.

I gloi, hoffwn droi at y sylwadau unigol a

individual remarks made during the debate. Alun Davies used the expression ‘a tarnished gift’, which expresses some of the difficulties that we found in our scrutiny that Ministers face in trying to get to grips with the concept and implementing it. We could not see the significant outcomes, and the point was made in all the contributions today that we want to see them and to be able to say that this statutory duty is reflected in all portfolios and collectively by the Government. That is why the 3 per cent commitment in ‘One Wales’, which we all support, is one of the critical indicators of this Government’s commitment to a climate change agenda and a sustainable development agenda.

I end my contribution by thanking you, Minister, for your continued engagement with the committee, and, in particular, for your updates. I hope that, in future, the rest of the Cabinet will share your enthusiasm, so that when we have the next debate on this issue, we can see clearly the outcomes driven by your personal commitment.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod cytuno â’r cynnig. Gan nad oes neb wedi siarad yn erbyn y cynnig, ni chredaf fod angen i mi ofyn os oes gwrthwynebiad, felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, yr wyf yn datgan bod y cynnig wedi’i dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar ei Ymchwiliad i’r Gwaith o Graffu ar Is-ddeddfwriaeth a Phwerau Dirprwyedig
The Subordinate Legislation Committee’s Report on its Inquiry into the Scrutiny of Subordinate Legislation and Delegated Powers

Janet Ryder: I move that

the National Assembly for Wales:

notes the report of the Subordinate Legislation Committee, ‘Inquiry into the Scrutiny of Subordinate Legislation and Delegated Powers’, which was laid in the Table Office on 20 May 2009. (NDM4359)

I am pleased to open this debate today on the

wnaed yn ystod y ddadl. Defnyddiodd Alun Davies y dywediad ‘rhodd amherffaith’, sy’n mynegi rhai o’r anawsterau a welsom wrth inni graffu ac y mae Gweinidogion yn eu hwynebu wrth geisio mynd i’r afael â’r cysyniad a’i weithredu. Ni allem weld y canlyniadau pwysig, ac yn yr holl gyfraniadau a gafwyd heddiw gwnaethpwyd y pwynt ein bod yn dymuno’u gweld ac yn dymuno medru dweud bod y ddyletswydd hon yn cael ei hadlewyrchu ym mhob portffolio a chan y Llywodraeth fel uned. Dyna pam mae’r ymrwymiad i 3 y cant yn ‘Cymru’n Un’, yr ydym oll yn ei gefnogi, yn un o ddangosyddion hollbwysig ymrwymiad y Llywodraeth hon i agenda newid yn yr hinsawdd ac agenda datblygu cynaliadwy.

Hoffwn ddirwyn fy nghyfraniad i ben drwy ddiolch i chi, Weinidog, am eich ymwneud parhaus â’r pwyllgor, ac yn anad dim am eich diweddariadau. Gobeithio y bydd gweddill y Cabinet yn y dyfodol yr un mor frwdfrydig â chi er mwyn inni allu gweld yn glir, yn y ddadl nesaf a geir ynghylch y mater hwn, y canlyniadau a gafodd eu hybu gan eich ymrwymiad personol chi.

The Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Given that no-one spoke against the motion, I do not believe we need to ask whether there is any objection, therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, I declare that the motion is agreed.

Janet Ryder: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, ‘Ymchwiliad i’r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mai 2009. (NDM4359)

Yr wyf yn falch cael agor y ddadl hon

Subordinate Legislation Committee's inquiry into the scrutiny of subordinate legislation and delegated powers. I put on record my thanks to the present committee team, to the previous people who supported the committee, Bethan Davies and Anna Daniel, and to the committee members who no longer serve on the committee, Dai Lloyd, the previous chair, Mark Isherwood, David Melding, Joyce Watson and Eleanor Burnham. I thank them all for their contributions.

First, I would like to give some background on how we arrived at the committee report. In the first and second Assemblies, the then Legislation Committee had the remit of scrutinising subordinate legislation on a fairly narrow range of technical legal criteria. In the third Assembly, that task is carried out by the Subordinate Legislation Committee, although there have been significant additions to the technical criteria. Also, the committee now has a much wider remit, including looking at the merits of statutory instruments, matters such as whether an instrument is of political or legal importance, whether there are public policy issues likely to be of interest to the Assembly, whether circumstances have changed since the power was granted so that it is no longer appropriate, and whether it achieves the policy objectives claimed for it or does not implement EU legislation properly. The committee's remit does not stop there; it can also look at Assembly Measures and UK Parliament Bills to ensure that the powers proposed for Welsh Ministers are appropriate and proportionate. Most significantly, it can now look into any general legislative matter concerning the competence of the Assembly or Welsh Ministers. The point was made by a number of witnesses that in Westminster the Subordinate Legislation Committee's remit is carried out by five or six separate committees. You would not expect me to argue that we should always follow the way that things are done in Westminster, but it does make the point very effectively about just how wide the committee's remit now is. Given this new and much wider role, the committee decided to conduct this inquiry into how best to approach its work.

heddiw ar ymchwiliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i'r gwaith o graffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig. Yr wyf am gofnodi fy niolch i'r tîm o bobl sy'n gysylltiedig â'r pwyllgor ar hyn o bryd, y bobl a fu'n cynorthwyo'r pwyllgor yn flaenorol, Bethan Davies ac Anna Daniel, ac aelodau'r pwyllgor nad ydynt ar y pwyllgor mwyach, sef Dai Lloyd, y cyn-gadeirydd, Mark Isherwood, David Melding, Joyce Watson ac Eleanor Burnham. Yr wyf yn diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad.

Yn gyntaf, hoffwn roi ychydig wybodaeth gefndir am y modd y daethom i lunio adroddiad y pwyllgor. Yn y Cynulliad cyntaf a'r ail Gynulliad, yr oedd gan y Pwyllgor Deddfau, fel yr oedd yn cael ei adnabod bryd hynny, gyfrifoldeb am graffu ar is-ddeddfwriaeth ar sail ystod ddigon cyfyng o feini prawf cyfreithiol technegol. Yn y trydydd Cynulliad, caiff y dasg honno ei chyflawni gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, er bod ychwanegiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r meini prawf technegol. Yn ogystal, mae gan y pwyllgor gylch gorchwyl llawer ehangach erbyn hyn, sy'n cynnwys edrych ar ragoriaethau offerynnau statudol, materion megis a yw offeryn o bwys gwleidyddol neu gyfreithiol, a oes materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad, a yw'r amgylchiadau wedi newid ers rhoi'r pŵer fel nad yw'n briodol bellach, ac a yw'n cyflawni'r amcanion o ran polisi yr honnir ei fod yn eu cyflawni, neu a yw'n methu â gweithredu deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn iawn. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn mynd ymhellach na hynny; gall edrych hefyd ar Fesurau'r Cynulliad a Mesurau Senedd y DU er mwyn sicrhau bod y pwerau a gaiff eu hargymell ar gyfer Gweinidogion Cymru'n briodol ac yn gymesur. Yn bwysicaf oll, gall y pwyllgor ymchwilio erbyn hyn i unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol yn ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru. Gwnaeth sawl tyst y pwynt fod gan San Steffan bum neu chwe phwyllgor gwahanol i gyflawni'r un cylch gwaith â'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Ni fydddech yn disgwyl imi ddadlau y dylem efelychu'r modd y caiff pethau eu gwneud yn San Steffan bob amser, ond mae'n dangos yn effeithiol iawn pa mor eang yw cylch gwaith

y pwyllgor erbyn hyn. O gofio'r rôl newydd hon sy'n llawer mwy eang, penderfynodd y pwyllgor gynnal yr ymchwiliad hwn i'r modd gorau i gyflawni ei waith.

I do not have the time today to cover in depth all of our recommendations and proposed actions; they are clearly set out in our report and I commend them to the Assembly. However, I want to cover some of the main themes that emerged from the report. These include the need for the National Assembly to be able to effectively influence the development of devolved laws for Wales, even when those laws are being made for us by the UK Parliament, the need for greater openness and transparency and better information and planning about proposed statutory instruments, and how the Subordinate Legislation Committee's enhanced role can help to ensure that legislation is scrutinised effectively.

Perhaps the most problematic issue that arose in the inquiry is the extent to which legislation for Wales continues to be made directly by the UK Parliament in devolved areas of policy. That is not confined to simply giving the Assembly broader areas of legislative competence so that we can make new laws for ourselves. Often, laws made in Westminster make detailed provisions for Wales without giving any additional legislative competence to the National Assembly. They confer wide-ranging powers directly on Welsh Ministers; powers that may never have even been discussed by this Assembly, let alone been subject to detailed scrutiny. Given that scrutiny in Westminster naturally concentrates on UK-wide issues, these powers often receive precious little scrutiny. Even if scrutiny in Westminster were made more effective it would still mean that the Welsh Government is acquiring powers for which it appears to have no democratic accountability to any legislature.

Nid oes gennyf ddigon o amser heddiw i roi sylw manwl i bob un o'n hargymhellion a'n camau gweithredu arfaethedig; maent wedi'u gosod allan yn glir yn ein hadroddiad, ac yr wyf yn eu cymeradwyo i'r Cynulliad. Fodd bynnag, yr wyf am ymdrin â rhai o'r prif themâu a gododd o'r adroddiad. Mae'r themâu hyn yn cynnwys yr angen i'r Cynulliad Cenedlaethol allu dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygu deddfau datganoledig i Gymru, hyd yn oed pan fo'r deddfau hynny'n cael eu llunio ar ein rhan gan Senedd y DU, yr angen i fod yn fwy agored a thryloyw, yr angen i gynllunio'n well a chael gwell gwybodaeth am offerynnau statudol, a sut y gall rôl ehangach y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth helpu i sicrhau bod gwaith craffu effeithiol yn digwydd mewn perthynas â deddfwriaeth.

Efallai mai'r mater mwyaf problemus a gododd yn yr ymchwiliad yw'r graddau y mae deddfwriaeth i Gymru'n parhau i gael ei llunio'n uniongyrchol gan Senedd y DU mewn meysydd polisi datganoledig. Nid yw hynny wedi'i gyfyngu'n syml i roi cymhwysedd deddfwriaethol ehangach i'r Cynulliad fel y gallwn lunio deddfau newydd ar ein cyfer ein hunain. Yn aml, mae deddfau a gaiff eu llunio yn San Steffan yn gwneud darpariaethau manwl ar gyfer Cymru, heb roi dim cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Maent yn rhoi pwerau helaeth yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru; pwerau nad ydynt o bosibl erioed wedi eu trafod gan y Cynulliad hwn hyd yn oed, heb sôn am fod yn destun craffu manwl. O gofio bod craffu yn San Steffan yn canolbwyntio'n naturiol ar faterion yn berthnasol i'r DU gyfan, ychydig iawn o graffu yn aml sydd ar y pwerau hyn. Hyd yn oed pe bai craffu yn San Steffan yn fwy effeithiol, byddai'n dal i olygu bod Llywodraeth Cymru'n cael pwerau yr ymddengys nad oes ganddi ddim atebolrwydd democrataidd i unrhyw ddeddfwrfa ar eu cyfer.

3.40 p.m.

The committee has made a number of recommendations that we believe will help to go some way towards addressing this growing democratic deficit. These include closer and more open liaison between the Welsh and UK Governments to ensure earlier and better consideration of Welsh issues in the development of UK Bills, a detailed legislative statement setting out the powers that the Welsh Government intends to seek via the UK Government's annual legislative work programme, and, as soon as possible after Bills are introduced in Parliament, the Welsh Government providing a delegated powers memorandum setting out the impact of each Bill on Wales and the powers that it will confer on Welsh Ministers.

Another aspect of this democratic deficit that I want to touch upon is the legislative consent or Sewel motions that are used when the Assembly agrees that Westminster should legislate on our behalf in an area that is within our legislative competence. It is important to understand that these motions effectively reverse devolution. They remove legislative decisions and scrutiny from this Assembly and give it to the UK Parliament. These motions have the virtue of being debated and voted on by this Assembly, but whether this allows reasonable opportunity for scrutiny is an entirely different matter. Usually, only a 15-minute debate is allowed, sometimes with the bare minimum of notice. Often, few if any details are provided of precisely what decisions the Westminster Parliament will be making on our behalf.

For instance, on 11 June last year, the Child Poverty Bill was introduced in the House of Commons. A week and a half later the Assembly was given 15 minutes to consider and agree a legislative consent memorandum. Yesterday, we had two further legislative consent memoranda, both with very short notice and no prior committee scrutiny. There was no opportunity to scrutinise the powers contained or to consider the implications of such powers. That can be contrasted with the situation in the Scottish Parliament where the subject committees and the Subordinate

Mae'r pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion y credwn y byddant yn helpu unioni rhywfaint ar y diffyg democrataidd cynyddol hwn. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys cysylltiad nes a mwy agored rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod materion Cymru'n cael eu hystyried ynghynt ac yn well wrth ddatblygu Mesurau'r DU, y dylid cael datganiad deddfwriaethol manwl sy'n gosod allan y pwerau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu'u ceisio trwy raglen waith ddeddfwriaethol flynyddol Llywodraeth y DU, ac y dylid sicrhau, cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl cyflwyno Mesurau yn y Senedd, fod Llywodraeth Cymru'n darparu memorandwm pwerau dirprwyedig sy'n gosod allan effaith pob Mesur ar Gymru a'r pwerau a roir i Weinidogion Cymru.

Un agwedd arall ar y diffyg democrataidd hwn yr wyf am sôn amdano yw'r cydsyniad deddfwriaethol, neu'r cynigion Sewel, a ddefnyddir pan fydd y Cynulliad yn cytuno y dylai San Steffan ddeddfu ar ein rhan mewn maes o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'n bwysig deall bod y cynigion hyn yn gwrthdroi datganoli i bob pwrpas. Maent yn symud penderfyniadau deddfwriaethol a gwaith craffu o'r Cynulliad hwn ac yn eu rhoi i Senedd y DU. Rhinwedd y cynigion hyn yw bod y Cynulliad yn dadlau ac yn pleidleisio yn eu cylch, ond mater hollol wahanol yw p'un a yw hynny'n rhoi cyfle rhesymol i wneud gwaith craffu. Fel rheol, dadl 15 munud yn unig a ganiateir, a hynny weithiau gydag ychydig iawn o rybudd ymlaen llaw. Yn aml, darperir ychydig neu ddim manylion am ba benderfyniadau yn union y bydd Senedd San Steffan yn eu gwneud ar ein rhan.

Er enghraifft, ar 11 Mehefin y llynedd, cyflwynwyd y Mesur Tlodi Plant yn Nhŷ'r Cyffredin. Wythnos a hanner yn ddiweddarach, rhoddwyd chwarter awr i'r Cynulliad ystyried a chytuno memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Ddoe, cawsom ddau femorandwm cydsyniad deddfwriaethol arall, ni chafwyd llawer o rybudd ynghylch yr un ohonynt, ac ni fu'r un pwyllgor yn craffu arnynt ymlaen llaw. Ni chafwyd cyfle i graffu ar y pwerau a oedd wedi'u cynnwys ynddynt, nac i ystyried goblygiadau'r pwerau hynny. Gellir cyferbynnu hynny â'r sefyllfa

Legislation Committee are given the opportunity to consider legislative consent memoranda, and are given adequate time in which to do so. Our report recommends a similar approach for the Assembly, with either subject or legislation committees providing detailed scrutiny.

We also need to ensure that Ministers' use of the powers that they are given, however they may have been acquired, is scrutinised effectively. As I mentioned earlier, the committee can now scrutinise a wide range of issues—the so-called 'merits' of subordinate legislation. Unfortunately, the tight timescales within which the committee has to work allows very little time for the committee to take evidence if it identifies matters that it believes need further scrutiny. The committee has therefore proposed that it should be able to consider statutory instruments in draft so that the views of the committee can be taken into account before the final version is provided to the committee for formal consideration.

We have also recommended that the Welsh Government let us have a six-monthly forward work programme of statutory instruments, which would ensure greater transparency of process for the public and other stakeholders, and also allow the committee and other Assembly committees to plan their scrutiny of the merits of subordinate legislation more effectively. That sort of approach has been commended as good practice by the Merits of Statutory Instruments Committee of the UK Parliament.

We have also made a number of other recommendations about how the Welsh Government can provide better, more timely information, including in relation to the implementation of European Union directives. The report makes a number of recommendations to the Government and the Business Committee, but it was also important for us to focus on actions that the committee itself can take to ensure that its enhanced role is carried out as effectively as possible. We have, therefore, agreed a range

yn Senedd yr Alban, lle mae'r pwyllgorau pwnc a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn cael cyfle i ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol, ac yn cael digon o amser i wneud hynny. Mae ein hadroddiad yn argymhell y dylid mabwysiadu dull tebyg ar gyfer y Cynulliad, gyda naill ai pwyllgorau pwnc neu bwyllgorau deddfwriaeth yn gwneud gwaith craffu manwl.

Mae angen inni sicrhau hefyd bod craffu effeithiol ar y modd y mae Gweinidogion yn defnyddio'r pwerau a roddir iddynt, waeth sut y bydd y pwerau hynny wedi dod. Fel y soniais yn gynharach, gall y pwyllgor graffu ar ystod eang o faterion erbyn hyn—'rhagoriaethau' is-ddeddfwriaeth, fel y'u gelwir. Yn anffodus, mae'r amserlenni tynn y mae'r pwyllgor yn gorfod gweithio iddynt yn golygu nad yw'n cael llawer o amser i gymryd tystiolaeth os yw'n nodi materion y teimla fod angen craffu'n fanylach arnynt. Felly, mae'r pwyllgor wedi cynnig y dylai allu ystyried offerynnau statudol yn eu ffurf ddrافت, fel y gall barn y pwyllgor gael ei hystyried cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyflwyno i'r pwyllgor i'w hystyried yn ffurfiol.

Yr ydym hefyd wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adael inni gael blaenraglen waith o offerynnau statudol ar gyfer cyfnod o chwe mis ar y tro, a fyddai'n sicrhau bod y broses yn fwy tryloyw i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, ac yn caniatáu i'r pwyllgor a phwyllgorau eraill y Cynulliad gynllunio eu gwaith craffu ar ragoriaethau is-ddeddfwriaeth yn fwy effeithiol. Mae dull o'r fath wedi'i gymeradwyo fel arfer da gan Bwyllgor Rhagoriaethau Offerynnau Statudol Senedd y DU.

Yr ydym hefyd wedi gwneud llawer argymhelliad arall am y modd y gall Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth well a mwy amserol, gan gynnwys gwybodaeth am weithredu cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion i'r Llywodraeth a'r Pwyllgor Busnes, ond yr oedd yn bwysig hefyd inni ganolbwyntio ar gamau gweithredu y gall y pwyllgor ei hun eu cymryd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rôl ehangach mor effeithiol ag sy'n bosibl. Felly,

of actions aimed at ensuring that the wider remit of the committee is not crowded out by the weight of subordinate legislation to which we have to give technical scrutiny. Among the actions that we agreed were a more systematic approach to merits scrutiny, focusing initially on statutory instruments made under the affirmative procedure; looking systematically at powers delegated to Welsh Ministers in Westminster Bills to help plug the current scrutiny gap; and monitoring the quality of the information provided by the Welsh Government to ensure that the committee and the Assembly is provided with the information that it needs for effective scrutiny.

Since our report, but in line with the broad thrust of the committee's wider role, we have also started an inquiry into how Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 is developing, which includes the use of exceptions in the matters that are devolved to us. That is in light of concerns expressed by a range of bodies, including Assembly committees, Welsh civic society and the House of Lords' Constitution Committee.

Before I move on to talk about the Government's response to the report, the committee also recommended that its name should be changed to reflect the wider remit that it now has. We recommended that the name should be 'the delegated powers and subordinate legislation committee', but I understand that consideration has also been given to the title of 'the constitutional affairs committee'. I am sure that the committee would find that acceptable.

Turning to the Government's response—and I stress that the response that I refer to is the written response that was tabled some time ago—I look forward to the contribution of the new Counsel General to today's debate, as I found the Government's initial response very disappointing. For instance, we asked the Welsh Government to notify the committee of consultations on statutory instruments. The Government's response

yr ydym wedi cytuno ar ystod o gamau gweithredu sydd â'r nod o sicrhau nad yw cylch gorchwyl ehangach y pwyllgor yn cael ei lethu gan bwysau is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid inni wneud gwaith craffu technegol arni. Yr oedd y camau gweithredu a gytunwyd gennym yn cynnwys cael dull mwy systematig o graffu ar ragoriaethau, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar offerynnau statudol a wnaed dan y weithdrefn gadarnhaol; edrych mewn modd systematig ar y pwerau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru mewn Mesurau a ddaw o San Steffan, er mwyn helpu i leihau'r bwlch presennol mewn gwaith craffu; a monitro safon y wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y pwyllgor a'r Cynulliad yn cael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud gwaith craffu effeithiol.

Ers ein hadroddiad, ond yn unol â phwyslais cyffredinol rôl ehangach y pwyllgor, yr ydym hefyd wedi dechrau ymchwiliad i'r modd y mae Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datblygu, sy'n cynnwys defnyddio eithriadau yn y materion sydd wedi'u datganoli inni. Mae hynny yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan ystod o wahanol gyrff, gan gynnwys pwyllgorau'r Cynulliad, cymdeithas ddinesig Cymru a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi.

Cyn imi symud ymlaen i sôn am ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad, yr oedd y pwyllgor hefyd yn argymhell y dylid newid ei enw i adlewyrchu'r cylch gorchwyl ehangach sydd ganddo erbyn hyn. Yr oeddem yn argymhell y dylid newid yr enw i'r 'pwyllgor pwerau dirprwyedig ac is-ddeddfwriaeth', ond deallaf fod y teitl 'y pwyllgor materion cyfansoddiadol' wedi'i ystyried hefyd. Yr wyf yn siŵr y byddai hynny'n dderbyniol i'r pwyllgor.

I droi at ymateb y Llywodraeth—a phwysleisaf mai'r ymateb yr wyf yn cyfeirio ato yw'r ymateb ysgrifenedig a gyflwynwyd ychydig amser yn ôl—edrychaf ymlaen at gyfraniad y Cwnsler Cyffredinol newydd i'r ddadl heddiw, gan fy mod wedi fy siomi'n fawr gan yr ymateb cyntaf a gafwyd gan y Llywodraeth. Er enghraifft, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru hysbysu'r pwyllgor ynghylch ymgynghoriadau ar offerynnau

was, 'No; look at the website.' We asked for better information on how European legislation is transposed by the Welsh Government. The Government's response was, 'No. That would take us too much time and cost too much.' We asked for a forward work programme for statutory instruments. The Government's response was, 'No. Our forward work planning process is not good enough to support that.' Other responses were in a similar vein. I do not expect any government to blithely accept every recommendation a committee makes, but I do expect the Government to give due weight and consideration to committee recommendations. If the Government believes that they are impracticable, it should at least try to address the underlying principles, even if there are reasons why the specific recommendation cannot be implemented. I got no sense from the Government's written response that it was doing so; I got the impression that there was unwillingness to even consider some of the procedures that we were bringing to its attention.

I am looking forward to a change to that response given that there is a new Counsel General, and I look forward to his response. We have received a written response in the form of a letter from the Business Committee, which deals with some of the recommendations that were addressed to it. I believe that we can expect a further response from it in due course, following the debate.

I wish to close by thanking the present members of the committee, who have worked so hard in putting the report together, and I look forward to the Assembly's debate on this issue.

Y Llywydd: Gan fod John Griffiths bellach wedi ei gadarnhau yn ei swydd gan Ei Mawrhydi y Frenhines, mae'n bleser gennyf alw ar y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, gan obeithio fy mod wedi cael hynny'n iawn.

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths):

statudol. Ymateb y Llywodraeth oedd, 'Na; edrychwch ar y wefan.' Gofynnodd y pwyllgor am well gwybodaeth ynghylch y modd y mae Llywodraeth Cymru'n trosi deddfwriaeth Ewropeaidd. Ymateb y Llywodraeth oedd 'Na. Byddai hynny'n cymryd gormod o amser inni ei wneud ac yn costio gormod.' Gofynnodd y pwyllgor am flaenraglen waith ar gyfer offerynnau statudol. Ymateb y Llywodraeth oedd, 'Na. Nid yw ein proses blaengynllunio gwaith yn ddigon da i gefnogi hynny.' Cafwyd ymatebion eraill i'r un perwyl. Nid wyf yn disgwyl i unrhyw lywodraeth dderbyn yn llawen pob argymhelliad y mae pwyllgor yn ei wneud, ond yr wyf yn disgwyl i'r Llywodraeth roi sylw ac ystyriaeth haeddiannol i argymhellion a gaiff eu gwneud gan bwyllgor. Os yw'r Llywodraeth o'r farn bod yr argymhellion yn anymarferol, dylai o leiaf geisio mynd i'r afael â'r egwyddorion sylfaenol, hyd yn oed os ceir rhesymau pam na ellir gweithredu'r argymhelliad penodol. Ni theimlais o ymateb ysgrifenedig y Llywodraeth ei bod yn gwneud hynny; cefais yr argraff fod rhywfaint o amharodrwydd i hyd yn oed ystyried rhai o'r gweithdrefnau yr oeddem yn tynnu sylw'r Llywodraeth atynt.

|Edrychaf ymlaen at gael ymateb gwahanol, o gofio bod gennym Gwnsler Cyffredinol newydd, ac edrychaf ymlaen at ei ymateb. Yr ydym wedi cael ymateb ysgrifenedig ar ffurf llythyr gan y Pwyllgor Busnes, sy'n ymdrin â rhai o'r argymhellion a oedd yn berthnasol iddo. Credaf y byddwn yn cael ymateb pellach gan y Pwyllgor maes o law, yn dilyn y ddadl hon.

Dymunaf orffen trwy ddiolch i aelodau presennol y pwyllgor, sydd wedi gweithio mor galed i lunio'r adroddiad, ac edrychaf ymlaen at ddadl y Cynulliad ar y mater hwn.

The Presiding Officer: As John Griffiths has now been confirmed in his post by Her Majesty the Queen, it is my pleasure to call on the Counsel General and Leader of the Legislative Programme, and I hope that I have got that right.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths):

Members are aware that the Government responded to the report, as the Chair of the committee mentioned, on 3 December. Llywydd, I would like to hear Members' contributions to the debate, and then respond as the penultimate speaker.

David Lloyd: Fel cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, yr wyf yn falch o weld yr adroddiad hwn. Mae'n adroddiad swmpus sy'n werth ei ddarllen—yn wir, mae'n ddarn o lenyddiaeth bendigedig. Byddwn yn cyngori pawb i'w ddarllen, oherwydd mae'n un o'r adroddiadau pwysicaf y byddwn yn eu trafod yn y Cynulliad. Gwn fod pawb yn dweud hynny pan fyddwn yn trafod adroddiadau, ni waeth o ba bwyllgor y deuant, ond mae'n wir yn yr achos hwn.

Fel y soniodd Janet Ryder eisoes, mae rôl y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, sef enw'r pwyllgor ar hyn o bryd, wedi ei thrawsnewid ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn naturiol, mae'r Cynulliad hefyd wedi cael ei drawsnewid. Yn ogystal â gwaith pwyllgorau deddfwriaeth rhifau 1 i 5, sy'n delio ag LCOs, Mesurau arfaethedig ac ati, mae rôl o ran craffu ar fesurau a deddfau a ddaw o Lundain ac Ewrop. Dyna oedd prif bwyslais yr adolygiad hwn, sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers dros flwyddyn yn awr, ac sydd wedi arwain at yr adroddiad ger ein bron y prynhawn yma.

O ystyried rôl estynedig y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, yr oedd yn agoriad llygaid gweld bod disgwyl i'r pwyllgor ymgymryd â'r gwaith a wneir gan bump pwyllgor yn San Steffan. Mae gan Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad fwy o bwerau na phwyllgor deddfwriaeth Senedd yr Alban.

3.50 p.m.

Bydd y rhai ohonoch sy'n cofio Pwyllgor Deddfau'r Cynulliad blaenorol yn cofio mai trin a thrafod materion technegol, a oedd yn fân iawn weithiau, oedd cylch gorchwyl y pwyllgor deddfu gynt. Fodd bynnag, mae'r maes hwnnw wedi'i drawsnewid gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn

Gŵyr yr Aelodau fod y Llywodraeth wedi ymateb i'r adroddiad, fel y soniodd Cadeirydd y pwyllgor, ar 3 Rhagfyr. Lywydd, hoffwn glywed cyfraniadau'r Aelodau i'r ddadl, ac yna ymateb fel y siaradwr olaf ond un.

David Lloyd: As former Chair of the Subordinate Legislation Committee, I am pleased to see this report. It is a substantial report worth reading—indeed, it is a wonderful piece of literature. I would advise everyone to read it as it is one of the most important reports that we will be discussing in the Assembly. I know everyone says that when we discuss reports, whatever the committee, but it is true in this case.

As Janet Ryder has already mentioned, the role of the Subordinate Legislation Committee, which is the current name of the committee, has been transformed since the introduction of the Government of Wales Act 2006. Naturally, the Assembly has also been transformed. As well as the work of legislation committees numbers 1 to 5, which deal with LCOs, proposed Measures and so on, there is a role in scrutinising legislation that comes from London and Europe. That was the main thrust of this review, which has been ongoing for over a year, and which has led to the report that is before us this afternoon.

In considering the extended role of the Subordinate Legislation Committee, it was an eye-opener to discover that the committee is expected to undertake the work that is done by five Westminster committees. The Assembly's Subordinate Legislation Committee has more powers than the legislation committee of the Scottish Parliament.

Those of you who remember the Legislation Committee of the previous Assembly will recall that its remit was to discuss technical matters, which were sometimes very minor. However, that remit has been transformed by the Government of Wales Act 2006. The remit of the Subordinate Legislation Committee is much broader now and that

llawer ehangach yn awr ac mae angen cydnabod hynny.

Mae'r adolygiad hwn sydd gerbron yn cefnogi ffordd adeiladol ac arloesol ymlaen. Mae nifer o argymhellion gerbron a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn ymateb yn adeiladol iddynt. Gobeithiaf hefyd y bydd y Pwyllgor Busnes yn ymateb yn y modd adeiladol arferol.

Yn y pen draw, yr ydym yn sôn am well system graffu. Yr ydym wastad yn sôn am graffu a bod yn dryloyw a'r ffaith bod yr adeilad hwn yn llawn gwydr fel bod pawb yn gallu gweld yr hyn a wnawn. Fodd bynnag, fel Aelodau meinciau cefn sydd â dyletswydd i graffu, ni allwn weld llawer o'r hyn sy'n digwydd rhwng y Llywodraeth yn Llundain a'r Llywodraeth yng Nghaerdydd.

Yr hyn sydd drwy'r adroddiad cyfan hwn yw'r angen am perthynas llawer gwell rhwng Llundain a Chaerdydd—un llawer mwy agored sy'n cynnwys Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth. Dyna'r her sylfaenol: cael system graffu go iawn.

Rhaid i'r Cynulliad hefyd gael mewnbwn i'r raglen ddrafft mesurau a deddfau Llundain cyn iddynt gael eu cadarnhau ar ddu a gwyn. Caiff y mesurau a'r deddfau hynny eu hanfon atom ac mae disgwyl inni eu pasio heb drafodaeth a'r nesaf peth i ddim o graffu. Felly, hoffwn bwysleisio rhai o'r argymhellion. Fel y dywedodd Janet, mae dyletswydd ar y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, o dan ei enw newydd—beth bynnag fydd hwnnw—i graffu ar ragoriaethau gwahanol offerynnau statudol ac ar ddilysrwydd yr offerynnau hynny. Dyna y mae argymhelliad 1 yn ei ddweud. Mae hynny'n golygu newid sylfaenol yn ein ffordd o weithio yn y Cynulliad. Mae argymhelliad 5 yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes edrych ar sut y gellir gwneud gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol. Byddai hynny'n golygu newid y Rheolau Sefydlog. Cawsom ddwy enghraifft ddoe o orfod pasio memoranda cydsyniad deddfwriaethol heb nemor ddim trafodaeth yn y Cynulliad.

Mae nifer o argymhellion eraill yn anelu at wella craffu a sicrhau bod y Cynulliad yn

needs to be recognised.

The review that is before us supports a constructive and innovative way forward. There are a number of recommendations and I hope that the Government will respond constructively to them. I also hope that the Business Committee will respond in the usual constructive manner.

At the end of the day, we are talking about a better system of scrutiny. We are always talking about scrutiny and being transparent and the fact that this building is full of glass so that everyone can see what we do. However, as backbench Members who have a duty to scrutinise, we cannot see much of what is happening between the Government in London and the Government in Wales.

The thread that runs through this report is the need for a far better relationship between London and Cardiff—one that is far more open that includes Members who are not part of Government. That is the fundamental challenge: to have a proper system of scrutiny.

The Assembly must also have an input to the draft legislative programme in London before that legislation is confirmed on black and white. Those measures and acts are sent to us and we are expected to pass them without discussion and with hardly any scrutiny. Therefore, I would like to highlight some of the recommendations. As Janet said, there is a duty on the Subordinate Legislation Committee, under its new name—whatever that may be—to scrutinise the merits of various statutory instruments and the validity of those instruments. That is what recommendation 1 states. That means a fundamental change in our way of working in the Assembly. Recommendation 5 asks the Business Committee to consider how scrutiny work can be carried out on legislative consent memoranda. That would mean a change to Standing Orders. We saw two examples yesterday of having to pass legislative consent memoranda without hardly any discussion in the Assembly.

There is a number of other recommendations that aim to improve scrutiny and make the

llawer mwy tryloyw. Mae pawb wedi dweud ers y cychwyn cyntaf pa mor agored a thryloyw yr ydym yn y Cynulliad, ond os edrychwch ar y manylion craffu, mae lle i wella'n syfrdanol. Mae'r argymhellion hyn yn cynnig ffordd ymlaen inni wneud y gwelliannau hynny ac edrychaf ymlaen at eu gweld yn cael eu gweithredu.

Mark Isherwood: As a member of the committee during the inquiry, it became evident that there was an urgent need to improve Welsh Government transparency and accountability to the public and to the Assembly. At this point, I hope that we can look forward to the committee's name being changed, as recommended, or possibly to the committee on constitutional affairs.

The report notes that since May 2007, the provisions of the Government of Wales Act 2006 have been in force, formally separating the Welsh Government from the National Assembly for Wales as constitutional entities: one as the Executive and the other as the legislature, as in Westminster and most parliaments and Governments across the globe.

The Assembly now has the powers to make primary legislation in the form of Measures on matters where it has acquired legislative competence. Welsh Ministers also now have the powers to make secondary legislation comparable to Ministers in Scotland and in Whitehall. Of course, there is massive public confusion about this. Everyday, every one of us is personally approached by, and is the recipient of correspondence, phone calls and e-mails from people who still do not understand that the Welsh Government and the National Assembly for Wales are different constitutional entities with a relationship built more on the Westminster model than that of a single corporate identity.

Mark Isherwood: We must take every action possible to address that in the interest of representative democratic accountability for all. In its evidence to the committee, the Law Society stated that merit scrutiny was an opportunity to probe the background of the policy that the secondary legislation was

Assembly far more transparent. Everyone has said from the outset how open and transparent we are in the Assembly, but if you look at the details of scrutiny, there is substantial room for substantial. These recommendations provide us with a way forward to make those improvements and I look forward to seeing them being implemented.

Mark Isherwood: Fel un a oedd yn aelod o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad, daeth i'r amlwg bod angen dybryd i wella tryloywder Llywodraeth Cymru a'i hatebolrwydd i'r cyhoedd ac i'r Cynulliad. Ar y pwynt hwn, gobeithiaf y gallwn edrych ymlaen at newid enw'r pwyllgor, yn unol â'r argymhelliaid, neu o bosibl i'r pwyllgor ar faterion cyfansoddiadol.

Mae'r adroddiad yn nodi bod darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi bod mewn grym er mis Mai 2007, gan wahanu Llywodraeth Cymru yn ffurfiol oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel endidau cyfansoddiadol: y naill yn Weithrediaeth, a'r llall yn ddeddfwrfa, fel sydd yn San Steffan a'r rhan fwyaf o seneddau a Llywodraethau ar draws y byd.

Erbyn hyn, mae gan y Cynulliad y pwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol ar ffurf Mesurau ar faterion y mae wedi cael cymhwysedd deddfwriaethol ar eu cyfer. At hynny, mae gan Weinidogion Cymru y pwerau erbyn hyn i lunio is-ddeddfwriaeth, tebyg i Weinidogion yn yr Alban a Whitehall. Wrth gwrs, ceir dryswch mawr ynghylch hyn ymysg y cyhoedd. Bob dydd, mae pob un ohonom yn cael ein holi gan bobl, ac yn cael gohebiaeth, galwadau ffôn a negeseuon e-bost gan bobl, sydd heb ddeall o hyd bod Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn endidau cyfansoddiadol ar wahân nad oes ganddynt un hunaniaeth gorfforaethol ond yn hytrach perthynas sydd wedi'i seilio'n fwy ar fodel San Steffan.

Mark Isherwood: Rhaid inni gymryd pob cam gweithredu posibl i fynd i'r afael â hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd cynrychiolaidd i bawb. Yn y dystiolaeth a gyflwynodd i'r pwyllgor, nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr bod craffu ar ragoriaethau'n gyfle i ymchwilio i gefndir

intended to implement, when and whether it achieves its objectives. After reviewing the evidence, and meeting with members of the House of Lords's Merits of Statutory Instruments Committee, the committee agreed that scrutiny of the merits of statutory instruments was an important function to ensure the right level of checks and balances of Ministers' use of delegated powers. When we met with the merits committee in the House of Lords, it noted that there was insufficient information on the face of the planning Bill, on that occasion, emphasising the need to focus of Bills at an early stage, rather than relying on the later stages.

We also met with the Delegated Powers and Regulatory Reform Committee in the House of Lords, whose role is to consider the powers granted to Ministers in Bills to make delegated legislation. It highlighted to us that, as well as the fact that there is no formal Welsh committee in the House of Lords, the committee does not give particular consideration to framework powers proposed for the Assembly or the Welsh Government and that there are no Welsh Members on the delegated powers committee. This identifies a huge scrutiny gap where UK delegated powers are scrutinised as they apply to UK Ministers, but Ministers in the Assembly are effectively getting away without scrutiny of those delegated powers.

Cymru Yfory told us that powers conferred through Acts of Parliament at Westminster are wholly outside the scrutiny of the Assembly as matters stand. The consent of the Assembly is not required before framework powers are devolved by an Act of Parliament. Neither does the Assembly subject the Welsh Government to any substantial scrutiny of the powers that it acquires, with the upshot that the process gives all powers to the Welsh Government and leaves the Assembly with, at best, a marginal role in the acquisition of devolved powers. The current situation is prone to lead to increasing confusion about what functions are devolved and make it harder for the

y polisi y bwriadwyd i'r is-ddeddfwriaeth ei weithredu, pan ac os byddai'n cyflawni ei hamcanion. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, a chyfarfod ag aelodau Pwyllgor Rhagoriaethau Offerynnau Statudol Tŷ'r Arglwyddi, cytunodd y pwyllgor bod craffu ar ragoriaethau offerynnau statudol yn swyddogaeth bwysig er mwyn sicrhau bod y modd y mae Gweinidogion yn defnyddio pwerau dirprwyedig yn destun prosesau rhwystro a gwrthbwysio priodol. Pan gawsom gyfarfod â'r pwyllgor rhagoriaethau yn Nhŷ'r Arglwyddi, nododd nad oedd digon o wybodaeth ar flaen y Mesur cynllunio, ar yr achlysur hwnnw, gan bwysleisio bod angen canolbwyntio ar Fesurau yn gynnar yn y broses, yn hytrach na dibynnu ar y camau diweddarach.

Cawsom gyfarfod hefyd â'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhŷ'r Arglwyddi, sy'n gyfrifol am ystyried y pwerau y mae Mesurau'n eu rhoi i Weinidogion lunio deddfwriaeth ddirprwyedig. Yn ystod y cyfarfod tynnwyd ein sylw at y ffaith nad oes pwyllgor ffurfiol sy'n gyfrifol am Gymru yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac at y ffaith nad yw'r pwyllgor yn ystyried yn benodol y pwerau fframwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, ac nad oes yr un Aelod o Gymru ar y pwyllgor pwerau dirprwyedig. Mae hynny'n nodi bwlch enfawr o safbwynt craffu, lle bydd craffu ar bwerau dirprwyedig y DU fel y maent yn berthnasol i Weinidogion y DU, ond lle nad oes dim craffu'n digwydd, i bob pwrpas, ar y pwerau dirprwyedig hynny yn achos Aelodau'r Cynulliad.

Dywedodd Cymru Yfory wrthym fod pwerau a gaiff eu cyflwyno trwy Ddeddfau Seneddol yn San Steffan yn gyfan gwbl y tu hwnt i graffu gan y Cynulliad fel y mae pethau ar hyn o bryd. Nid oes angen cael cydsyniad y Cynulliad cyn i bwerau fframwaith gael eu datganoli gan Ddeddf Seneddol. Nid yw'r Cynulliad chwaith yn gwneud gwaith craffu sylweddol ar y pwerau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cael, a chanlyniad hynny yw bod y broses yn rhoi'r holl bwerau i Lywodraeth Cymru ac yn gadael y Cynulliad, ar y gorau, â rôl ymylol i'w chwarae wrth gaffael pwerau datganoledig. Mae'r sefyllfa bresennol yn dueddol o arwain at ddryswch cynyddol ynghylch pa swyddogaethau sydd wedi'u

general public to understand what functions are devolved to which institutions. It aggravates the problems of transparency.

In response to a question that I asked, the Law Society said that the observation in its written submission was an expression of its disappointment—although it hesitates to use that word. It is looking at the Government of Wales Act 2006, and is aware that Westminster could continue to confer powers directly on the Welsh Government in legislation. However, much of the attention was focused on legislative competence Orders—a process that would lead to Measure making. The Law Society said that it was slightly taken aback by the extent to which Westminster is continuing to legislate directly for Wales, conferring powers on the Welsh Government, and its enthusiasm for this.

Alun Davies: Do you not agree with me that the key issues are scrutiny and accountability because when these powers are devolved directly to Welsh Ministers, they bypass all the scrutiny and accountability processes that we have in the Assembly, and therefore we are not able to understand the extent of the powers that are being devolved? We can appreciate that the public cannot either, but we, at the Assembly, are not able to scrutinise or understand the extent of the powers being devolved.

Mark Isherwood: I completely agree with your contribution, Alun. I will conclude, if I may, by referring briefly to my concern that the committee, due to limited resources, has to test the way of working with its broadened brief over the next six to nine months. It is not acceptable that this vital committee should be placed in this position. Following the separation of powers and the evolution of the Assembly into a parliament—a Senedd, a National Assembly for Wales, growing up as an institution means that priority in Assembly business and timetabling must be given to committees scrutinising legislation and constitutional affairs above all others.

Michael German: I do not want to disagree

datganoli, ac y mae'n ei gwneud yn anos i'r cyhoedd ddeall pa swyddogaethau a gaiff eu datganoli i ba sefydliadau. Mae'n gwaethgu'r problemau tryloywder.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnais, dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr bod y sylw yn ei thystiolaeth ysgrifenedig yn fynegiant o'i siom—er ei bod yn oedi cyn defnyddio'r gair hwnnw. Mae'n edrych ar Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n ymwybodol y gallai San Steffan barhau i gyflwyno pwerau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru wrth ddeddfu. Fodd bynnag, yr oedd llawer o'r sylw'n canolbwyntio ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol—proses a fyddai'n arwain at lunio Mesurau. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr ei bod wedi'i synnu braidd gan y graddau y mae San Steffan yn parhau i ddeddfu'n uniongyrchol i Gymru, gan gyflwyno pwerau i Lywodraeth Cymru, a'i frwdfrydedd ynghylch hyn.

Alun Davies: Oni chytunwch â mi mai'r prif broblemau yw craffu ac atebolrwydd, oherwydd pan gaiff y pwerau hyn eu datganoli'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru, maent yn osgoi'r holl brosesau craffu ac atebolrwydd sydd gennym yn y Cynulliad, ac felly nid ydym yn gallu deall graddau'r pwerau sy'n cael eu datganoli? Gallwn sylweddoli na all y cyhoedd ddeall hynny ychwaith, ond nid ydym ni, yn y Cynulliad, yn gallu craffu ar y pwerau sy'n cael eu datganoli na deall graddau'r pwerau hynny.

Mark Isherwood: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'ch cyfraniad, Alun. Yr wyf am orffen, os caf, trwy gyfeirio'n sydyn at y pryder sydd gennyf bod y pwyllgor yn gorfod rhoi prawf ar y ffordd o weithio â'i friff ehangach dros y chwech i naw mis nesaf, oherwydd bod yr adnoddau sydd ar gael yn brin. Nid yw'n dderbyniol bod y pwyllgor hollbwysig hwn yn cael ei roi yn y sefyllfa hon. Ar ôl gwahanu pwerau, ac ar ôl i'r Cynulliad esblygu'n Senedd—Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae aeddfedu fel sefydliad yn golygu bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth ym musnes ac amserlenni'r Cynulliad i bwyllgorau sy'n craffu ar ddeddfwriaeth a materion cyfansoddiadol uwchlaw popeth arall.

Michael German: Nid wyf am anghytuno

too much with Alun, but it would be sensible to remind ourselves that we are responsible—we are the legislature. Our role is to make legislation. Therefore, it is our role to ensure that we make good, understandable legislation. For that reason, this debate is so important to us finding our way and developing our route through to a proper parliamentary settlement. We need to demonstrate that we know how to make good legislation. The report before us today is a stepping stone to make sure that that happens. I remind Members that by approving this report this afternoon, they will be recommending to the Business Committee five significant changes to our Standing Orders to ensure that this process is even better.

4.00 p.m.

It is quite natural that we are finding our way, as we are a young legislature. The current Standing Order No.15 is quite broadly written, but even when it was written—even with the knowledge of the Government of Wales Act 2006—it was still impossible to predict the exact processes that we needed to work through. This report has identified where some of the legislative processes have fallen through the cracks, where we have not been able to scrutinise and ensure that we make appropriate legislation, that that legislation is fit for purpose and that it is understandable. That is the test that we all have to apply to ourselves. We can only do that if we do it effectively through our Standing Orders and through the methods and processes that the National Assembly for Wales has for itself.

There will always be tension between the legislature and the Executive. That is the principle upon which our democracy is based. Therefore, it should be understandable that there will be tension between the legislature and the Government. You would expect that as you are producing for our scrutiny and for our determination the biggest amount of our legislation. However, what is even more important is that we do not have a revising chamber. Before the Presiding

gormod ag Alun, ond byddai'n synhwyrol inni atgoffa ein hunain mai ni sy'n gyfrifol—ni yw'r ddeddfwrfa. Ein rôl ni yw deddfu. Felly, ein rôl ni yw sicrhau ein bod yn llunio deddfwriaeth dda a dealladwy. Am y rheswm hwnnw, mae'r ddadl hon mor bwysig o safbwynt cael ein traed danom a datblygu ein llwybr tuag at gael setliad seneddol iawn. Mae angen inni ddangos ein bod yn gwybod sut i lunio deddfwriaeth dda. Mae'r adroddiad sydd ger ein bron heddiw'n gam tuag at sicrhau bod hynny'n digwydd. Yr wyf am atgoffa'r Aelodau y byddant, trwy gymeradwyo'r adroddiad hwn y prynhawn yma, yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes pum newid sylweddol i'n Rheolau Sefydlog, er mwyn sicrhau bod y broses hon yn well fyth.

Mae'n ddigon naturiol ein bod yn cael ein traed danom, gan ein bod yn ddeddfwrfa ifanc. Mae Rheol Sefydlog Rhif 15, wedi'i geirio'n eithaf bras, fel y mae ar hyn o bryd, ond hyd yn oed pan gafodd ei hysgrifennu—er ein bod yn gwybod am Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006—yr oedd yn dal yn amhosibl rhagweld yr union brosesau yr oedd angen inni weithio trwyddynt. Mae'r adroddiad hwn wedi nodi achosion lle mae rhai o'r prosesau deddfu wedi syrthio trwy'r rhwyd, lle nad ydym wedi gallu gwneud gwaith craffu, a sicrhau ein bod yn llunio deddfwriaeth briodol, bod y ddeddfwriaeth honno'n addas i'w diben a'i bod yn ddealladwy. Dyna'r prawf y mae'n rhaid i bob un ohonom ei roi inni ein hunain. Ni allwn wneud hynny oni bai ein bod yn ei wneud yn effeithiol trwy ein Rheolau Sefydlog a thrwy'r dulliau a'r prosesau sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei gyfer ei hunan.

Bydd tyndra bob amser rhwng y ddeddfwrfa a'r Weithrediaeth. Dyna'r egwyddor y mae ein democratiaeth wedi'i seilio arni. Felly, dylai fod yn ddealladwy y bydd tyndra rhwng y ddeddfwrfa a'r Llywodraeth. Byddech yn disgwyl hynny, gan eich bod yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'n deddfwriaeth inni gael craffu arni a gwneud penderfyniadau yn ei chylch. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysicach fyth yw'r ffaith nad oes gennym ail siambr. Cyn i'r Llywydd ddechrau mynd i hwyl ynghylch

Officer becomes enthusiastic about these matters, I will move on and say that it makes it very much more important that we do the job properly in all of our spheres here in a monocameral system; that is, that we can act on our behalf.

I look forward to the Business Committee's response to this debate, which will strengthen the role that we can play as a proper legislature and answer our critics in any future referendum, which we all hope will appear towards the autumn of this year. We will therefore be able to answer the question of whether we are ready to make appropriate and good legislation.

The report has a number of important parts. The Chair has outlined them all, but I would like to pick up on the response from the Government. I said earlier that it was not unexpected that there would be tensions between a Government and the legislature, and I would like to discuss the response of the Government. I hope that the new Counsel General will be a little more supportive of the need for a good legislature. After all, if the Counsel General is going to be standing on street corners this year telling people to vote 'yes' in the campaign to have full legislative powers here under Schedule 7, then we need to ensure that that tension is lessened.

I know that the Counsel General is an avid user of the internet and I would like to pick up on the response to recommendation 9, which was about improving the information about Welsh provisions in Bills on Government websites. The answer that we got from the Assembly Government was that there are already memoranda on Measure powers published on both the Assembly Government legislation pages and on the Wales Office website. Today, I did a search of both websites, I entered the exact words contained within the Government's response and, to be absolutely certain, I did not just enter 'memoranda on Measure powers' but I also entered 'memorandum on Measure powers' just in case there was a slip when the present First Minister wrote this response. The words displayed were, 'There is nothing to meet your search'.

y pethau hyn, symudaf ymlaen i ddweud ei bod lawer yn bwysicach inni wneud y gwaith yn iawn ym mhob un o'n meysydd mewn system fonocameral; hynny yw, ein bod yn gallu gweithredu ar ein rhan ein hunain.

Edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Pwyllgor Busnes i'r ddaidl hon, a fydd yn cryfhau'r rôl y gallwn ei chwarae fel deddfwrfa iawn, ac ateb ein beirniaid mewn unrhyw refferendwm yn y dyfodol, yr ydym i gyd yn gobeithio y bydd yn digwydd tua'r hydref eleni. Byddwn yn gallu ateb y cwestiwn, felly, a ydym yn barod i lunio deddfwriaeth dda a phriodol.

Mae llawer rhan bwysig yn yr adroddiad. Mae'r Cadeirydd wedi amlinellu pob un ohonynt, ond hoffwn sôn am yr ymateb a gafwyd gan y Llywodraeth. Dywedais yn gynharach nad oedd yn annisgwyl i densiynau fodoli rhwng Llywodraeth a'r ddeddfwrfa, a hoffwn drafod ymateb y Llywodraeth. Gobeithio y bydd y Cwnsler Cyffredinol newydd ychydig yn fwy cefnogol i'r angen am ddeddfwrfa dda. Wedi'r cyfan, os bydd y Cwnsler Cyffredinol yn mynd i sefyll ar gorneli strydoedd eleni'n dweud wrth bobl am bleidleisio 'ie' yn yr ymgyrch i gael pwerau deddfu llawn yng Nghymru dan Atodlen 7, yna rhaid inni sicrhau bod y tyndra hwnnw'n lleihau.

Gwn fod y Cwnsler Cyffredinol yn gwneud defnydd helaeth o'r rhyngrwyd, a hoffwn sôn am yr ymateb i argymhelliad 9, a oedd yn ymwneud â gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar wefannau'r Llywodraeth am y darpariaethau i Gymru sydd wedi'u cynnwys mewn Mesurau. Yr ateb a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad oedd bod memoranda ar bwerau gwneud Mesurau eisoes yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau deddfu Llywodraeth y Cynulliad ac ar wefan Swyddfa Cymru. Heddiw, chwiliais ar y ddwy wefan, a theipiais yr union eiriau a geir yn ymateb y Llywodraeth, ac i fod yn hollol siŵr, chwiliais am 'memorandum on Measure powers' yn ogystal ag am 'memoranda on Measure powers', rhag ofn bod camgymeriad bach wedi digwydd pan ysgrifennodd y Prif Weinidog presennol ei ymateb. Cafodd neges ei harddangos yn dweud nad oedd dim yn cyfateb i hynny ar y gwefannau.

Therefore, there is a problem. If we are to rely on websites, they must give us the information. What we are talking about here are UK Government Bills that are produced in London and the ability to find the information behind them that allows us to answer the simple question of what powers the National Assembly for Wales will get as a result of a certain Bill. That is even more important when it comes to the reverse process, as we saw yesterday—as the Chair has just said—whereby we are giving power to Westminster to answer questions in that manner. Therefore, I suggest that the Government needs to act a bit better in this matter and to ensure that we get a watertight method of understanding what is before us.

Finally, I commend the name suggested by the Chair, which I believe has been mooted in many quarters as being the appropriate name for this committee. After all, if it is to be the principal committee to which matters of devolution and the constitution, and those relating to the understanding of our legislative role, are referred, then it needs a title suitable for that purpose. I therefore commend the title of ‘constitutional affairs committee’.

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): Diolch, Llywydd. I thank Members for taking part in this debate; it is important. There are issues and concerns. We are now in the third Assembly, of course, and this institution continues to develop as a legislature under the Government of Wales Act 2006, and that challenges us all to take legislation forward as effectively and productively as possible. Janet, as Chair, and the other members of the Subordinate Legislation Committee have produced a valuable body of work for this review. It is timely that we now review our processes and experiences—for example, so that the public and stakeholders have clear, easy and timely access to information on legislation.

As I said earlier, the Government’s full

Felly, mae gennym broblem. Os ydym am ddibynnu ar wefannau, rhaid iddynt roi’r wybodaeth inni. Yr hyn yr ydym yn sôn amdano yn y fan hon yw Mesurau Llywodraeth y DU a gaiff eu cynhyrchu yn Llundain, a’r gallu i ddod o hyd i’r wybodaeth y tu ôl iddynt sy’n caniatáu inni ateb y cwestiwn syml ynghylch pa bwerau y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru’n eu cael o ganlyniad i Fesur penodol. Mae hynny’n bwysicach fyth pan fo’r broses yn gweithio fel arall, fel y gwelsom ddoe—ac fel y mae’r Cadeirydd newydd ddweud—lle’r ydym yn rhoi pŵer i San Steffan ateb cwestiynau fel hynny. Felly, awgrymaf fod angen i’r Llywodraeth weithredu ychydig yn well yn y mater hwn, a sicrhau bod gennym ddull cynhwysfawr o ddeall yr hyn sydd o’n blaen.

Yn olaf, yr wyf yn cymeradwyo’r enw a awgrymwyd gan y Cadeirydd, a chredaf iddo gael ei grybwyll mewn llawer man fel yr enw priodol ar gyfer y pwyllgor hwn. Wedi’r cyfan, os hwn fydd y prif bwyllgor y cyfeirir materion datganoli a’r cyfansoddiad, a materion yn gysylltiedig â’r ddealltwriaeth o’n rôl ddeddfwriaethol ato, yna mae angen teitl ar y pwyllgor sy’n addas at y diben hwnnw. Felly, yr wyf yn cymeradwyo’r teitl ‘pwyllgor materion cyfansoddiadol’.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Diolch, Lywydd. Diolch i’r Aelodau am gymryd rhan yn y ddadl hon; mae’n ddadl bwysig. Mae yna broblemau a phryderon. Yr ydym yn y trydydd Cynulliad erbyn hyn, wrth gwrs, ac y mae’r sefydliad hwn yn parhau i ddatblygu fel deddfwrfa dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hynny’n ein herio i gyd i ddeddfu mewn modd mor effeithiol a chynhyrchiol ag sy’n bosibl. Mae Janet, fel y Cadeirydd, ac aelodau eraill y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wedi cynhyrchu corff gwerthfawr o waith ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae’n amserol inni adolygu ein prosesau a’n profiadau’n awr—er enghraifft, er mwyn i’r cyhoedd a rhanddeiliaid allu cael gwybodaeth am ddeddfwriaeth yn glir, yn rhwydd ac yn amserol.

Fel y dywedais yn gynharach, mae ymateb

response to the inquiry has been laid before the Assembly, and I will address the recommendations that directly affect the Welsh Assembly Government. Before I do that, I will pick up on Mike German's point about the likelihood of tension between the Executive and the legislature. Of course, that is the case, and you would expect to see it reflected in the report and the response, as well as being reflected in general. I very much accept the spirit in which many of today's contributions were made, that, as the new Counsel General, it is timely and appropriate for me to consider all of these matters and ensure that we make the necessary improvements in going forward. I will come back to that point later.

We have been improving the information that is made publicly available with a number of enhancements to the Assembly Government's website. Following Mike's remarks, however, I will ensure that what we have said in relation to the relevant websites proves to be the case when those websites are accessed and used. I am told that, in response to one of the report's concerns, the Assembly Government's website does now include a summary of all live consultations and, again, I will make sure that that is the case.

In any event, in addition to directly targeting stakeholders at the consultation stage of the process, we have set up an electronic newsletter for those stakeholders who wish to receive information. On subscribing to the newsletter, they will automatically be notified of consultations. Therefore, we are making improvements. We are also exploring ways of publishing information on planned consultations as the most appropriate means of keeping committees informed.

Members have referred to the separation between the Government and the Assembly, as set out in the Government of Wales Act 2006, and the Assembly's revised Standing Orders are intended to achieve a balanced level of scrutiny—that is, to achieve that

llawn y Llywodraeth i'r ymchwiliad wedi'i roi gerbron y Cynulliad, a byddaf yn rhoi sylw i'r argymhellion sy'n cael effaith uniongyrchol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyn imi wneud hynny, yr wyf am gyfeirio at bwynt Mike German ynghylch y ffaith bod tyndra'n debygol o fodoli rhwng y Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Wrth gwrs, mae hynny'n wir, a byddech yn disgwyl gweld hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad a'r ymateb, yn ogystal â chael ei adlewyrchu'n gyffredinol. Yr wyf yn derbyn yn iawn ysbryd nifer o'r cyfraniadau a gafwyd heddiw, a'i fod yn amserol ac yn briodol i mi, fel y Cwnsler Cyffredinol newydd, ystyried yr holl faterion hyn a sicrhau ein bod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol wrth symud ymlaen. Dof yn ôl at y pwynt hwnnw ddiweddarach.

Yr ydym wedi bod yn gwella'r wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd, gyda nifer o welliannau yng ngwefan Llywodraeth y Cynulliad. Yn dilyn y sylwadau a wnaed gan Mike, fodd bynnag, byddaf yn sicrhau bod yr hyn yr ydym wedi'i ddweud am y gwefannau perthnasol yn wir pan gaiff y gwefannau hynny eu cyrchu a'u defnyddio. Yr wyf ar ddeall, mewn ymateb i un o'r pryderon sydd yn yr adroddiad, fod gwefan Llywodraeth y Cynulliad bellach yn cynnwys crynodeb o bob ymgynghoriad sydd ar waith, ac unwaith eto byddaf yn cadarnhau bod hynny'n wir.

Beth bynnag, yn ogystal â thargedu rhanddeiliaid yn uniongyrchol yn ystod cymal ymgynghori'r broses, yr ydym wedi sefydlu llythyr newyddion electronig ar gyfer y rhanddeiliaid hynny sy'n dymuno cael gwybodaeth. Wrth danysgrifio i'r llythyr newyddion, byddant yn cael gwybod yn awtomatig am ymgynghoriadau. Felly, yr ydym yn gwneud gwelliannau. Yr ydym hefyd yn archwilio ffyrdd o gyhoeddi gwybodaeth am ymgynghoriadau arfaethedig fel y dull mwyaf priodol o sicrhau bod pwyllgorau'n cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae aelodau wedi cyfeirio at y modd y gwahanwyd y Llywodraeth a'r Cynulliad, fel yr eglurwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a bwriad Rheolau Sefydlog diwygiedig y Cynulliad yw sicrhau lefel gytbwys o waith craffu—hynny yw, sicrhau bod y gwaith

scrutiny while also allowing Government to progress its legislation processes effectively. Members were right in saying that that is the balance that has to be struck.

The introduction of more efficient processes, brought about by an amendment to the Statutory Instruments Act 1946, helps by allowing the Assembly more time to scrutinise LCOs and Measures. To further enhance procedure—I am happy to say that, in this respect, the committee agrees that this has been an improvement—the Assembly Government has published its regulatory impact assessment code under section 76 of the 2006 Act, along with guidance on the operation of that code, setting out the circumstances in which those regulatory impact assessments will be carried out.

In looking at the experiences of, for example, Scotland and Northern Ireland, the committee felt that we have the balance just about right. When those impact assessments are carried out, they are included as part of the explanatory memorandum and laid before the Assembly.

4.10 p.m.

On European directives, we have carefully considered the implications of providing additional information on how they will be implemented by Welsh Ministers. We feel that the current system of explanatory memoranda for the European directives sets out where there are specific Welsh interests and, given the need for effective use of resources, I do not believe that the resource implications of preparing an additional Assembly Government version of these explanatory memoranda is justified.

The report also highlights the importance of UK Bills to Wales, which is very much the case. UK Bills are used by the Assembly Government as part of the range of legislative tools available to it to achieve its policy outcomes. Assembly Government negotiations with the UK Government on Bills are conducted at various stages in the

craffu hwnnw'n digwydd gan ganiatáu i'r Llywodraeth symud ei phrosesau deddfu yn eu blaen ar yr un pryd. Yr oedd yr Aelodau'n iawn i ddweud mai dyna'r cydbwysedd y mae'n rhaid inni ei sicrhau.

Mae cyflwyno prosesau mwy effeithlon, a ddigwyddodd o ganlyniad i ddiwygiad a wnaed i Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, yn helpu trwy roi mwy o amser i'r Cynulliad graffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau. I wella'r weithdrefn ymhellach—yr wyf yn falch o ddweud yn y cyswllt hwn bod y pwyllgor yn cytuno bod hyn wedi bod yn welliant—mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi ei chod asesiad effaith rheoleiddiol dan adran 76 Deddf 2006, ynghyd ag arweiniad ar y modd y caiff y cod hwnnw ei weithredu, sy'n egluro dan ba amgylchiadau y cynhelir yr asesiadau effaith rheoleiddiol hynny.

Wrth edrych ar brofiadau'r Alban a Gogledd Iwerddon, er enghraifft, yr oedd y pwyllgor yn teimlo bod gennym y cydbwysedd cywir mwy neu lai. Pan gaiff yr asesiadau effaith hynny eu cynnal, cânt eu cynnwys yn rhan o'r memorandwm esboniadol a'u rhoi gerbron y Cynulliad.

O ran cyfarwyddebau Ewropeaidd, yr ydym wedi ystyried yn ofalus oblygiadau darparu gwybodaeth ychwanegol am y modd y cânt eu gweithredu gan Weinidogion Cymru. Teimlwn fod y system bresennol o femoranda esboniadol ar gyfer cyfarwyddebau Ewropeaidd yn egluro lle mae materion sydd o ddiddordeb penodol i Gymru, ac o gofio bod angen defnyddio adnoddau'n effeithiol, ni chredaf y gellir cyfiawnhau'r goblygiadau o ran yr adnoddau y byddai eu hangen i baratoi fersiwn ychwanegol o'r memoranda esboniadol hyn sy'n benodol i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd Mesurau'r DU i Gymru, ac mae hynny'n sicr yn wir. Caiff Mesurau'r DU eu defnyddio gan Lywodraeth y Cynulliad yn rhan o'r ystod o adnoddau deddfu sydd ar gael iddi i gyflawni ei chanlyniadau o ran polisiau. Caiff trafodaethau ynghylch Mesurau eu cynnal

process. We strongly hold the position that those negotiations are, by necessity, conducted on a Government-to-Government confidential basis and that it would not be appropriate to publish a detailed legislative statement on what powers we are seeking.

Assembly Government ministerial colleagues and officials endeavour to work closely with the Wales Office and other UK Government departments to achieve its aims within Bills. Our approach has always been to consider what is being proposed, assess it in line with our own policy development and reach early agreement as to the most appropriate way forward and the right mechanism for achieving it. This takes place in the context of the Government of Wales Act 2006, devolution guidance note 9 and departmental concordats.

The level of information on Bills that is publicly available is ultimately a matter for the UK Government. However, when a Bill containing a Measure power is introduced, a written statement and explanatory memorandum is published by the Secretary of State for Wales, and the appropriate Welsh Minister will make a written statement to the Assembly. Returning to Mike's points, the websites provide information on Bills before Parliament that contain Measure powers, and they contain relevant links to the UK Parliament website, which is the most appropriate source of information on the progress of those Bills. We do not believe that it would be appropriate or cost effective to duplicate this information. The delegated powers memorandum is also a matter for the UK Government and the production of an equivalent Welsh Assembly Government memorandum would also represent unnecessary duplication.

Llywydd, I believe all of us here—the legislature and the Executive—have a shared interest to ensure that legislation is dealt with as effectively and efficiently as possible to meet the needs of the people of Wales. I believe that we have made considerable

rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU ar wahanol gamau yn y broses. Credwn yn gryf fod y trafodaethau hynny, o angenrheidrwydd, yn cael eu cynnal ar sail gyfrinachol rhwng un Llywodraeth a'r llall, ac na fyddai'n briodol cyhoeddi datganiad deddfwriaethol manwl am y pwerau yr ydym yn eu ceisio.

Mae cyd-Weinidogion a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrechu i gydweithio'n agos â Swyddfa Cymru ac adrannau eraill Llywodraeth y DU i gyflawni ei hamcanion yn y Mesurau. Yr ydym bob amser wedi defnyddio dull o ystyried yr hyn sy'n cael ei gynnig, ei asesu yn unol â'n datblygiadau polisi ein hunain, a dod i gytundeb yn fuan ynghylch y ffordd fwyaf priodol o symud ymlaen, a'r dull cywir o gyflawni hynny. Mae hynny'n digwydd yng nghyd-destun Deddf Llywodraeth Cymru 2006, nodyn cyfarwyddyd ynghylch datganoli 9, a choncordatau adrannol.

Mae lefel y wybodaeth am Fesurau sydd ar gael i'r cyhoedd yn fater i Lywodraeth y DU yn y pen draw. Fodd bynnag, pan gaiff Mesur yn cynnwys pŵer gwneud Mesurau ei gyflwyno, caiff datganiad ysgrifenedig a memorandwm esboniadol eu cyhoeddi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a bydd y Gweinidog priodol o Gymru yn gwneud datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad. Gan ddychwelyd at y pwyntiau a wnaed gan Mike, mae'r gwefannau'n darparu gwybodaeth am Fesurau sy'n dod gerbron y Cynulliad sy'n cynnwys pwerau gwneud Mesurau, ac maent yn cynnwys y dolenni cyswllt perthnasol i wefan Llywodraeth y DU, sef y ffynhonnell wybodaeth fwyaf priodol am gynnydd y Mesurau hynny. Nid ydym yn credu y byddai dyblygu'r wybodaeth hon yn briodol nac yn gost-ffeithiol. Mae'r memorandwm pwerau dirprwyedig hefyd yn fater i Lywodraeth y DU, a byddai gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu memorandwm cyfwerth yn golygu dyblygu diangen.

Llywydd, credaf ei bod o fudd cyffredin i bob ohonom yma—y ddeddfwrfa a'r Weithrediaeth—sichrau ein bod yn ymdrin â deddfwriaeth mewn modd mor effeithiol ac effeithlon ag sy'n bosibl i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Credaf ein bod wedi

progress since the enactment of the Government of Wales Act 2006 in producing much-needed improvements, including an overall improvement in both the timeliness and quality of Welsh Ministers' legislation. Effective scrutiny is an essential part of that process, along with making best use of available resources—resources of both the legislature and Executive.

Once again, I thank the committee for its report and the future work that it has scheduled, and thank Assembly Members for taking part in this debate. As Counsel General, I believe it is now timely for me to look at the experience of the third Assembly to date, the processes involved and how we can continue to drive improvement. Accordingly, Llywydd, drawing on the work of the Subordinate Legislation Committee, the Business Committee and other sources, I will be carrying out my own review, working with Ministers, Members, committees, officials and external interested parties to take forward our legislature in Wales and to ensure our people are as best served as possible by relevant processes and procedures. Diolch yn fawr.

Janet Ryder: I would like to thank all Members who have contributed to this debate today. Dai Lloyd's contribution highlighted several issues contained in the report: the changing nature of the report; how the committee's workload has increased; and the fact that five committees in Westminster do the work of our one committee. Other Members highlighted the need to increase resources. We have looked at the resources available to that committee but we may need to look at that again. I agree that we need a more open relationship with Westminster. We have already started discussions with the Welsh Affairs Committee, and I hope that they will continue.

We have started to look at the merits of Orders, as Dai mentioned, and we will be looking at two proposed Measures tomorrow that have particular merits to which we wish to draw attention.

gwneud cynnydd sylweddol ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006, o ran gwneud gwelliannau yr oedd mawr eu hangen o safbwynt amseroldeb a safon deddfwriaeth Gweinidogion Cymru. Mae craffu effeithiol yn rhan hanfodol o'r broses honno, ynghyd â gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael—adnoddau'r ddeddfwrfa ac adnoddau'r Weithrediaeth.

Unwaith eto, yr wyf yn diolch i'r pwyllgor am ei adroddiad a'r gwaith y mae wedi'i drefnu ar gyfer y dyfodol, ac yn diolch i Aelodau'r Cynulliad am gymryd rhan yn y ddadl hon. Fel y Cwnsler Cyffredinol, credaf ei bod yn amserol imi edrych yn awr ar brofiad y trydydd Cynulliad hyd yn hyn, y prosesau sydd dan sylw a sut y gallwn barhau i sbarduno gwelliant. Felly, Lywydd, gan dynnu ar waith y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, y Pwyllgor Busnes a ffynonellau eraill, byddaf yn cynnal fy adolygiad fy hun, gan weithio gyda Gweinidogion, Aelodau, pwyllgorau, swyddogion a phartïon allanol â diddordeb i symud ein deddfwrfa ymlaen yng Nghymru, a sicrhau bod ein pobl yn cael eu gwasanaethu cystal ag sy'n bosibl gan brosesau a gweithdrefnau perthnasol. Diolch yn fawr.

Janet Ryder: Hoffwn ddiolch i bob Aelod sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon heddiw. Yr oedd cyfraniad Dai Lloyd yn tynnu sylw at nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad: natur newidiol yr adroddiad; sut y mae llwyth gwaith y pwyllgor wedi cynyddu; a'r ffaith bod pum pwyllgor yn San Steffan yn gwneud y gwaith y mae un pwyllgor yn ei wneud i ni. Tynnodd Aelodau eraill sylw at yr angen i sicrhau bod rhagor o adnoddau ar gael. Yr ydym wedi edrych ar yr adnoddau sydd ar gael i'r pwyllgor hwnnw, ond mae'n bosibl y bydd angen inni edrych ar hynny eto. Cytunaf fod angen inni gael perthynas fwy agored â San Steffan. Yr ydym eisoes wedi dechrau trafodaethau gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig, a gobeithio y byddant yn parhau.

Yr ydym wedi dechrau edrych ar ragoriaethau'r Rheolau, fel y soniodd Dai, a byddwn yn edrych ar ddau Fesur arfaethedig yfory sydd â rhagoriaethau arbennig yr ydym am dynnu sylw atynt.

Mark's contribution in quoting that evidence stressed the confusion that can arise, as the role of the committee can be misunderstood. That point was also emphasised by Alun Davies in his brief contribution. We need a clear system. Every speaker stressed the need to have a clear website, and when we say that information will be on the website, it needs to be there, as Mike German highlighted. The information is not always there, and sometimes websites are not easy to negotiate. Given that the aim is to make the Assembly as open and accessible as possible, it is important that access to information is clear and that it is of good quality, but that is not always the case. It is not always the case for Assembly Members or for people outside, looking in.

The same can be said for the structures in which we operate. I welcome what the Counsel General just said, and the commitment that he gave to look at the recommendations and at how the committee is working. I welcome his proposed review of processes, and I hope that the committee can contribute to that review in some way. We need to look at how we are working, and everyone who has spoken has stressed that. If it is not clear to Members, it is certainly not clear to members of the public. Government has to get its business through, but there has to be effective scrutiny. Every Member who spoke in the debate stressed the need for that scrutiny. I welcome the proposals and the changes that have been put forward, but we need that level of scrutiny. If enabling proper scrutiny to take place means that we have to look at changing Standing Orders or lengthening the timescales, that will have to happen.

I thank everyone who contributed to the debate, and I finish by quoting some of the evidence from the Law Society:

'The Assembly must think about moving from having this kind of committee, which is based on a Westminster model and was set up to be the guardian of the process of

Yr oedd cyfraniad Mark wrth ddyfynnu'r dystiolaeth honno'n pwysleisio'r dryswch a all godi, gan y gall rôl y pwyllgor gael ei chamddeall. Pwysleisiodd Alun Davies y pwynt hwnnw hefyd yn ei gyfraniad byr. Mae arnom angen system glir. Pwysleisiodd pob siaradwr fod arnom angen gwefan glir, a phan fyddwn yn dweud y bydd gwybodaeth ar gael ar y wefan, mae angen iddi fod yno, fel y pwysleisiodd Mike German. Nid yw'r wybodaeth yno bob amser, ac weithiau nid yw'n hawdd gweithio eich ffordd o gwmpas gwefannau. O gofio mai'r nod yw gwneud y Cynulliad mor agored a hygyrch ag sy'n bosibl, mae'n bwysig gallu cael gwybodaeth yn glir a'i bod o safon, ond nid felly y mae bob amser. Nid felly y mae bob amser i Aelodau'r Cynulliad neu bobl o'r tu allan sy'n edrych i mewn.

Gellir dweud yr un peth am y strwythurau yr ydym yn gweithredu ynddynt. Yr wyf yn croesawu'r hyn y mae'r Cwnsler Cyffredinol newydd ei ddweud, a'r ymrwymiad a roddodd i edrych ar yr argymhellion ac ar sut y mae'r pwyllgor yn gweithio. Yr wyf yn croesawu ei adolygiad arfaethedig o'r prosesau, a gobeithio y bydd y pwyllgor yn gallu cyfrannu at yr adolygiad hwnnw mewn rhyw fodd. Mae angen inni edrych ar sut yr ydym yn gweithio, ac mae pawb sydd wedi siarad wedi pwysleisio hynny. Os nad yw hynny'n glir i'r Aelodau, mae'n sicr nad yw'n glir i'r cyhoedd. Rhaid i'r Llywodraeth gyflawni ei busnes, ond mae'n rhaid wrth graffu effeithiol. Yr oedd pob Aelod a siaradodd yn y ddadl yn pwysleisio bod angen y craffu hwnnw. Yr wyf yn croesawu'r cynigion a'r newidiadau sydd wedi'u cyflwyno, ond mae angen y lefel honno o waith craffu arnom. Os yw galluogi gwaith craffu priodol i ddigwydd yn golygu bod yn rhaid inni ystyried newid ein Rheolau Sefydlog neu ymestyn ein hamserlenni, bydd yn rhaid i hynny ddigwydd.

Yr wyf yn diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddadl, ac yr wyf yn gorffen trwy ddyfynnu ychydig o'r dystiolaeth a gafwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr:

Rhaid i'r Cynulliad ystyried symud o gael y math hwn o bwyllgor, sy'n seiliedig ar fodel San Steffan ac a sefydlwyd i fod yn warchodwr y broses o ddirprwyo pŵerau i

delegating powers to Ministers, to developing a committee that has a remit for looking at how the legislative process—the body of legislation as it affects Wales—is developing as a whole’.

That would be reflected in a name change for the committee, and it is important that we do that because, as our powers grow, we must have the structures to scrutinise adequately the work that is going through. I thank everyone for their contribution today, and I commend the report to the Assembly.

Y Llywydd: Diolch yn fawr. Byddaf yn mwynhau gwrandao ar bob dadl yr wyf yn llywyddu arni, ond yr wyf yn cytuno â'r Aelodau a ddywedodd bod y ddadl hon wedi bod yn allweddol. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes yn ogystal â Llywydd y Cynulliad, byddaf yn darparu ymateb llawn maes o law ar ôl gallu cynnal trafodaeth â'r Cwnsler Cyffredinol.

Y cwestiwn yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, datganaf fod y cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Siarter Tlodi Tanwydd The Fuel Poverty Charter

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

Mark Isherwood: I move that

the National Assembly for Wales supports the fuel poverty charter and calls on the Welsh Assembly Government to incorporate the policy aims of the charter in its forthcoming fuel poverty strategy. (NDM4360)

Weinidogion, i ddatblygu pwyllgor sy'n gyfrifol am edrych ar sut y mae'r broses ddeddfu—yr holl ddeddfwriaeth fel y mae'n effeithio ar Gymru—yn datblygu'n gyffredinol.

Byddai newid enw'r pwyllgor yn adlewyrchu hynny, ac y mae'n bwysig inni newid ei enw, oherwydd wrth i'n pwerau gynyddu rhaid bod gennym y strwythurau i graffu'n ddigonol ar y gwaith sy'n cael ei wneud. Yr wyf yn diolch i bawb am eu cyfraniad heddiw, ac yn cymeradwyo'r adroddiad i'r Cynulliad.

The Presiding Officer: Thank you very much. I enjoy listening to every debate that I preside over, but I agree with those Members who said that this debate has been critical. As Chair of the Business Committee in addition to being Presiding Officer of the Assembly, I will provide a full response in due course after consulting the Counsel General.

The question is that we agree the motion. Are there any objections? I see that there are not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

Mark Isherwood: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r siarter tlodi tanwydd ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgorffori nodau polisi'r siarter yn ei strategaeth tlodi tanwydd a gyhoeddir cyn bo hir. (NDM4360)

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 4.19 p.m.
Peter Black took the Chair at 4.19 p.m.*

All fuel poverty programmes are not reaching everyone in Wales equally. We must ensure once and for all that all fuel-poor households, regardless of where people live, what benefits they receive, or how they heat their homes, are being helped, because there are no more or less deserving fuel poor.

Fundamental sustainable development and social justice principles, which do not see tackling fuel poverty solely in the context of the climate change agenda, and that balance social, economic, psychological and environmental issues must be the driving forces behind action to end fuel poverty.

4.20 p.m.

The UK and Welsh Governments have a legal duty under the Warm Homes and Energy Conservation Act 2000 to do everything reasonably practicable to eliminate fuel poverty. The average household energy bills increased by 33 per cent last year, exceeding £1,200 per annum and twice the average bill five years ago, with more than 50,500 households in debt to electricity suppliers and 46,600 to gas suppliers. High energy prices in Wales are compounded by poor housing stock and low income. Around 320,000 households in Wales—one in four—experience fuel poverty, which is defined as having to spend 10 per cent or more of their income on energy to heat their homes adequately. That may result in a choice between heating and eating properly.

Beyond financial consequences, living in fuel poverty affects people's health, increasing the risk of common ailments such as colds, flu and respiratory infections, including bronchitis. It resulted in an estimated 2,500 excess winter deaths last winter in Wales, up 74 per cent in a single year, with 90 per cent occurring in the pensioner population. Indirect effects include stress in children and

Nid yw pob rhaglen tlodi tanwydd yn cyrraedd pawb yng Nghymru mewn modd cyfartal. Rhaid inni sicrhau, unwaith ac am byth, bod pob aelwyd sy'n dioddef tlodi tanwydd, ni waeth ble mae pobl yn byw, pa fudd-daliadau y maent yn eu cael, neu sut y maent yn gwresogi eu cartref, yn cael cymorth, oherwydd nid oes neb sy'n dioddef tlodi tanwydd yn haeddu mwy neu lai o gymorth na'i gilydd.

Rhaid i'r camau gweithredu a gymerir i roi terfyn ar dlodi tanwydd gael eu hysgogi gan egwyddorion sylfaenol datblygu cynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol, nad ydynt yn ystyried mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng nghyd-destun yr agenda newid yn yr hinsawdd yn unig, ac sy'n cydbwysio materion cymdeithasol, economaidd, seicolegol ac amgylcheddol.

Mae gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol dan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 i wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i ddileu tlodi tanwydd. Cododd biliau ynni cartrefi cyffredin 33 y cant y llynedd, gan groesi £1,200 y flwyddyn, sydd ddwywaith gymaint ag y byddai pobl yn ei dalu ar gyfartaledd bum mlynedd yn ôl. Mae dros 50,500 o aelwydydd mewn dyled i gyflenwyr trydan a 46,600 o aelwydydd i gyflenwyr nwy. Yr hyn sy'n gwneud y sefyllfa o ran prisiau ynni uchel yn waeth yng Nghymru yw cyflwr gwael y stoc tai a'r ffaith bod pobl ar incwm isel. Mae oddeutu 320,000 o aelwydydd yng Nghymru—un o bob pedair—mewn tlodi tanwydd. Y diffiniad o aelwyd sydd mewn tlodi tanwydd yw aelwyd sy'n gorfod gwario 10 y cant neu fwy o'i hincwm ar ynni i wresogi'r cartref yn ddigonol. Gall hynny arwain at orfod dewis rhwng gwresogi'r cartref a bwyta'n iawn.

Ar wahân i'r canlyniadau ariannol, mae byw mewn tlodi tanwydd yn effeithio ar iechyd pobl, gan gynyddu'r perygl o ddioddef afiechydon cyffredin megis annwyd, ffliw a heintiau'r system anadlu, gan gynnwys bronchitis. Amcangyfrifir bod tlodi tanwydd wedi arwain at 2,500 o farwolaethau ychwanegol y gaeaf yng Nghymru yn ystod y gaeaf diwethaf, sy'n gynydd o 74 y cant

adults, long-term depression and anxiety, social exclusion, damaged health and life chances for families and individuals, and poorer educational attainment. Moreover, there are broader economic implications for education, employment and health services.

That is why we have tabled this motion, drafted in consultation with the Wales fuel poverty coalition, which states that:

‘the National Assembly for Wales supports the fuel poverty charter and calls on the Welsh Assembly Government to incorporate the policy aims of the charter in its forthcoming fuel poverty strategy’.

The fuel poverty coalition has come together to develop a fuel poverty charter to highlight the urgent action needed to put the fuel poverty agenda in Wales ‘back on track’—to use its words. Twenty-three Assembly Members from all parties have already signed the charter. Membership of the coalition is ever-growing, but currently stands at over 40 organisations. The coalition calls for a detailed action plan setting out how and when fuel poverty can be eradicated in Wales. It calls for support to all fuel-poor households to stay warm until fuel poverty is eradicated, and for a co-ordinated and united approach across the statutory sector at UK and Wales levels, involving partners from the private, voluntary and community sectors.

The coalition is particularly concerned that the proposed all-Wales programme to replace the current home energy efficiency scheme will reduce the number of households receiving home energy improvements by 80 per cent, at a time when more people are in desperate need of help. Changes to the HEES scheme must be cost-effective to ensure that the maximum number of people in need of help can benefit. However, HEES is not an emergency heating solution, contrary to what

mewn un flwyddyn, ac yr oedd 90 y cant o'r rheini a fu farw'n bensiynewyr. Mae'r effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys straen ar blant ac oedolion, iselder ysbryd a phryder hirdymor, allgáu cymdeithasol, niwed i iechyd teuluoedd ac unigolion a'u cyfleoedd mewn bywyd, a chyrhaeddiad addysgol is. At hynny, ceir goblygiadau economaidd ehangach o ran addysg, cyflogaeth a gwasanaethau iechyd.

Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn, a ddrafftwyd drwy ymgynghori â chynghrair tlodi tanwydd Cymru, sy'n dweud bod:

‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r siarter tlodi tanwydd ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgorffori nodau polisi'r siarter yn ei strategaeth tlodi tanwydd a gyhoeddir cyn bo hir’.

Mae'r gynghrair tlodi tanwydd wedi dod ynghyd er mwyn datblygu siarter tlodi tanwydd i dynnu sylw at yr angen i weithredu ar fyrder i sicrhau bod yr agenda tlodi tanwydd yng Nghymru'n cael ei rhoi ‘yn ôl ar y trywydd cywir’—a defnyddio'i geiriau hi. Mae 23 o Aelodau'r Cynulliad o bob plaid eisoes wedi llofnodi'r siarter. Mae aelodaeth y gynghrair yn tyfu o hyd, ond ar hyn o bryd mae dros 40 o sefydliadau'n aelodau ohoni. Mae'r gynghrair yn galw am gynllun gweithredu manwl sy'n nodi sut a phryd y bydd tlodi tanwydd yn cael ei ddileu yng Nghymru. Mae'n galw am gymorth i bob aelwyd sydd mewn tlodi tanwydd i gadw'n gynnes nes byddwn wedi dileu tlodi tanwydd, ac am ymagwedd gydlynol ac unedig ar draws y sector statudol ar lefel y DU a Chymru, sy'n cynnwys partneriaid o'r sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol.

Mae'r gynghrair yn pryderu'n benodol y bydd y rhaglen arfaethedig i Gymru gyfan, y bwriedir iddi ddisodli'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref presennol, yn arwain at leihau nifer yr aelwydydd sy'n cael gwelliannau'n gysylltiedig ag ynni cartref 80 y cant, ar adeg pan fo angen cymorth yn ddybryd ar fwy o bobl. Rhaid i newidiadau yn y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref fod yn gosteffeithiol er mwyn sicrhau bod y nifer uchaf posibl o bobl y mae arnynt angen

the Minister indicated earlier, and many fuel-poor households are not eligible anyway. An area-based approach is potentially an excellent way of reaching those who would normally be difficult to engage with. However, the only area-based approaches specifically referred to in the strategy are those that have carbon reduction as their primary aim, rather than fuel poverty reduction. The coalition would therefore like to see area-based approaches being much more focused on the specific needs of the fuel poor.

The charter calls for a package of advice and support that is available to people in fuel poverty through a range of sources, including trusted advice agencies, and it highlights the importance of identifying those eligible for the support available. The coalition is concerned that the proposed central hub may not be sufficiently focused on joining up existing trusted advice agencies and risks adding an extra layer of cost and administration when the priority should be supporting those agencies that are already successfully providing advice to the most vulnerable. That model has been adopted in Scotland, and analysis suggests that it may not be successful in Wales.

The charter calls for robust data to show who and where the fuel poor are in Wales. The current strategy does not provide any data on whether there has been a deepening of fuel poverty. It offers nothing on whether the definition of vulnerable groups has expanded or on how the Welsh Government's approach should respond to such pressures. The coalition is concerned that the Welsh Government is developing proposals to address a problem that is only partially understood on the basis of outdated evidence, and that such evidence will not become fully available until the Welsh Government undertakes a review of the composition of fuel-poor households in Wales. The

cymorth yn cael budd ohono. Fodd bynnag, yn groes i'r hyn a nododd y Gweinidog yn gynharach, nid ateb brys i broblemau gwresogi yw'r cynllun, ac nid yw llawer o aelwydydd sy'n dioddef tloidi tanwydd yn gymwys beth bynnag. Gallai dull gweithredu ar sail ardal fod yn ffordd ardderchog o gyrraedd y rheini y byddai'n anodd ymwneud â hwy fel rheol. Fodd bynnag, yr unig ddulliau gweithredu ar sail ardal y cyfeirir atynt yn benodol yn y strategaeth yw'r rhai y mae lleihau allyriadau carbon, yn hytrach na lleihau tloidi tanwydd, yn brif nod iddynt. Byddai'r gynghrair felly'n hoffi gweld dulliau gweithredu ar sail ardal yn canolbwyntio llawer mwy ar anghenion penodol y sawl sy'n dioddef tloidi tanwydd.

Mae'r siarter yn galw am becyn cyngor a chymorth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef tloidi tanwydd trwy ystod o ffynonellau, gan gynnwys asiantaethau cynghori y gellir ymddiried ynddynt, ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd adnabod y rheini sy'n gymwys i gael y cymorth sydd ar gael. Mae'r gynghrair yn pryderu na fydd y gwasanaeth canolog arfaethedig efallai'n canolbwyntio digon ar gydgyssylltu'r asiantaethau cynghori sy'n bodoli eisoes ac y mae pobl yn ymddiried ynddynt, a bod perygl iddo greu haen ychwanegol o gost a gweinyddu, pan ddylai cefnogi'r asiantaethau hynny sydd eisoes yn darparu cyngor yn llwyddiannus i'r sawl sydd fwyaf agored i niwed fod yn flaenoriaeth. Mae'r Alban wedi mabwysiadu'r model hwnnw, ac mae'r gwaith dadansoddi'n awgrymu na fydd yn llwyddo yng Nghymru efallai.

Mae'r siarter yn galw am ddata cadarn i ddangos pwy sy'n dioddef tloidi tanwydd a ble maent yn byw yng Nghymru. Nid yw'r strategaeth bresennol yn darparu dim data ynghylch p'un a yw tloidi tanwydd wedi gwaethygu. Nid yw'n cynnig dim gwybodaeth ynghylch p'un a yw'r diffiniad o grwpiau sy'n agored i niwed wedi ehangu, nac ynghylch sut y dylai dull gweithredu Llywodraeth Cymru ymateb i bwysau o'r fath. Mae'r gynghrair yn pryderu bod Llywodraeth Cymru'n datblygu cynigion i fynd i'r afael â phroblem nad yw ond wedi'i deall yn rhannol ar sail hen dystiolaeth, ac na fydd dystiolaeth o'r fath ar gael yn llawn nes bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad

definition of fuel poverty given in the strategy matches that laid down in the UK fuel poverty strategy 2001. However, the revised strategy should also account for severe fuel poverty, defined as the need to spend 20 per cent of income to maintain an adequate level of warmth.

Many of those in fuel poverty in Wales may be in severe fuel poverty, requiring different solutions and greater support than those who are only just on the margins of fuel poverty. Evidence gathered by Macmillan Cancer Support, Barnardo's and the New Policy Institute indicates that there has been a widening of the level of support needed. Examples of vulnerable households in fuel poverty not covered by the current definition of vulnerable groups include carers, families with children aged over 16, looked-after children, the working fuel poor and cancer patients. The strategy should provide more information on how the Welsh Government will work with the UK Government to bring an equitable share of UK energy efficiency schemes to Wales, and ensure that they are targeted at the most vulnerable, especially considering that the proposed approach centres on maximising energy company funding before Welsh Government funding is used.

The coalition calls for the Welsh Government to establish a cross-departmental ministerial fuel poverty task force. Such a group of Welsh Ministers would be tasked with meeting the Government's legal duties on fuel poverty so that action on fuel poverty is incorporated into strategies across Government. The task force should link closely and meet with UK Ministers to influence the issues outside its direct control. Within Wales, the Welsh Government has the ability to place a statutory duty on local authorities to tackle fuel poverty. An example of how that lever has been used in other departments of the Welsh Government can be seen in the Proposed Children and Families

o gyfansoddiad aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r diffiniad o dlodi tanwydd a geir yn y strategaeth yn cyfateb i'r diffiniad a geir yn strategaeth tlodi tanwydd y DU a gyhoeddwyd yn 2001. Fodd bynnag, dylai'r strategaeth ddiwygiedig ystyried tlodi tanwydd difrifol hefyd, a ddiffinnir fel yr angen i wario 20 y cant o incwm aelwyd ar gynnal lefel ddigonol o wres.

Mae'n bosibl bod llawer o'r rheini sy'n dioddef tlodi tanwydd yng Nghymru'n dioddef tlodi tanwydd difrifol, a bod angen atebion gwahanol a mwy o gymorth arnynt na'r rheini nad ydynt ond ar gyrion tlodi tanwydd. Mae tystiolaeth a gasglwyd gan Gymorth Canser Macmillan, Barnardo's a'r Sefydliad Polisi Newydd yn nodi bod lefel y cymorth y mae ei angen wedi ehangu. Mae enghreifftiau o aelwydydd sy'n agored i niwed ac sy'n dioddef tlodi tanwydd, nad yw'r diffiniad presennol o grwpiau agored i niwed yn berthnasol iddynt, yn cynnwys gofalwyr, teuluoedd â phlant dros 16 oed, plant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gweithio ac sy'n dioddef tlodi tanwydd, a chleifion cancer. Dylai'r strategaeth ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddod â chyfran deg o gynlluniau effeithlonrwydd ynni'r DU i Gymru, a sicrhau bod y cynlluniau hynny'n cael eu hanelu at y rhai mwyaf agored i niwed, yn enwedig o ystyried bod y dull gweithredu arfaethedig yn canolbwyntio ar sicrhau'r cyllid mwyaf posibl gan gwmnïau ynni cyn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru.

Mae'r gynghair yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu tasglu tlodi tanwydd trawsadrannol i Weinidogion. Tasg y grŵp hwn o Weinidogion Cymru fyddai bodloni dyletswyddau cyfreithiol y Llywodraeth o ran tlodi tanwydd fel y gellir ymgorffori camau gweithredu ar dlodi tanwydd mewn strategaethau ar draws y Llywodraeth. Dylai fod gan y tasglu gyswllt agos â Gweinidogion y DU, a dylai gyfarfod â hwy er mwyn dylanwadu ar faterion sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y tasglu. Yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i roi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a

(Wales) Measure. However, the strategy fails to identify this lever, despite recognising the key potential within local authorities to tackle fuel poverty. This will require strategic and clear guidance from the Welsh Government.

Of the fuel poor in Wales, 85 per cent are likely to be vulnerable, according to the Welsh Government's fuel poverty strategy consultation, and yet the strategy contains no explanation of how the Welsh Government will meet its 2010 target to eradicate fuel poverty among vulnerable households, or whether there is a new target date that it is now working towards. Although the Minister has publicly acknowledged in Plenary that the target will not be met, there is no indication in the draft fuel poverty strategy of what progress has been made towards that target, what new target is now being aimed for, or what steps will be taken to reach a new target. In addition, indications are that updated data on fuel poverty in Wales for 2008 will not be made available until the end of 2010. The coalition expected the strategy to set out a clear path to eradicate fuel poverty by 2018 but does not think that the strategy meets this expectation. On the day that the Scottish Government has announced that it will extend its energy advice programme to help 10,000 more households, I call on every Member in this Chamber, including the 23 who have already signed up to the charter, to support this motion on a consensual, cross-party basis, so that we may go forward in partnership with the Welsh Government to address the issues raised by the 40 plus organisations in the coalition.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales:

Theuluoedd (Cymru) yn enghraifft o'r modd y defnyddiwyd y gallu hwnnw yn adrannau eraill Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth yn cydnabod y gallu hwn, er iddi gydnabod potensial allweddol mewn awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu arweiniad clir a strategol yn hyn o beth.

Yn ôl yr ymgynghoriad ar strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru, mae 85 y cant o'r rheini sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn debygol o fod yn agored i niwed, ac eto i gyd nid yw'r strategaeth yn egluro o gwbl sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cyrraedd targed 2010, sef dileu tlodi tanwydd ymysg aelwydydd agored i niwed, ac nid yw'n egluro a yw bellach yn gweithio tuag at ddyddiad targed newydd. Er i'r Gweinidog gydnabod yn gyhoeddus mewn cyfarfod llawn na fydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd, nid yw fersiwn ddrafft y strategaeth tlodi tanwydd yn cynnwys arwydd o gwbl o'r cynnydd a wnaed tuag at y targed hwnnw, y targed newydd yr anelir ato erbyn hyn, neu'r camau a gymerir i gyrraedd targed newydd. At hynny, ceir arwyddion y bydd yn ddiwedd 2010 cyn y rhyddheir data wedi'u diweddarau ar dlodi tanwydd yng Nghymru yn 2008. Yr oedd y gynghrair yn disgwyl i'r strategaeth nodi llwybr clir ar gyfer dileu tlodi tanwydd erbyn 2018 ond nid yw'n credu bod y strategaeth yn bodloni'r disgwyliad hwn. Ar y diwrnod y mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi y bydd yn ymestyn ei rhaglen cyngor am ynni i helpu 10,000 yn fwy o aelwydydd, galwaf ar bob Aelod yn y Siambr hon, gan gynnwys y 23 sydd eisoes wedi cefnogi'r siarter, i gefnogi'r cynnig hwn yn gydsyniol, yn drawsbleidiol, fel y gallwn symud ymlaen mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r problemau a godwyd gan y 40 a mwy o sefydliadau sy'n aelodau o'r gynghrair.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiau welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. notes that the Welsh Assembly Government has recently concluded a consultation on its forthcoming fuel poverty strategy;

2. looks forward to the policy aims of the fuel poverty charter being addressed in that strategy; and

3. welcomes the recent additional investment provided by the Welsh Assembly Government to this priority area.

Mick Bates: I move amendment 2 in the name of Peter Black. Add as a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to refocus the home energy efficiency scheme to ensure that it tackles fuel poverty more effectively.

I congratulate the Welsh Conservatives on bringing forward this debate today and on the work undertaken by Mark Isherwood particularly in chairing the cross-party group on fuel poverty.

I will start with the figures about excess winter deaths that were published yesterday, and reinforce them with a quotation from Graeme Francis, head of policy and public affairs for Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales. He stated, in referring to the figures that show a 74 per cent increase in deaths last winter,

‘The shocking figures are a very real concern for older people in Wales. That there was such a sharp increase in excess winter deaths in 2008-09—the highest increase in Wales for almost a decade—is totally intolerable... There is a firm link between fuel poverty, ill-health and death among our pensioners.’

4.30 p.m.

What could make it more clear that fuel poverty is one of the great issues of unfairness that exists in Wales today? I am

1. yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cwblhau ymgynghoriad ar ei strategaeth tlodi tanwydd arfaethedig yn ddiweddar;

2. yn edrych ymlaen at weld y strategaeth honno'n mynd i'r afael â nodau polisi'r siarter tlodi tanwydd; ac

3. yn croesawu'r buddsoddiad ychwanegol a wnaed yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at y maes blaenoriaeth hwn.

Mick Bates: Cynigiau welliant 2 yn enw Peter Black. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i newid ffocws y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn fwy effeithiol.

Yr wyf yn llongyfarch y Ceidwadwyr Cymreig ar gyflwyno'r ddafl hon heddiw, a'r gwaith a wnaed gan Mark Isherwood yn benodol wrth gadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd.

Yr wyf am ddechrau gyda'r ffigurau am farwolaethau ychwanegol y gaeaf a gyhoeddwy ddoe, a'u hatgyfnerthu gan ddyfyniad gan Graeme Francis, pennaeth polisi a materion cyhoeddus Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru. Wrth gyfeirio at y ffigurau sy'n dangos cynnydd o 74 y cant yn nifer y marwolaethau yn ystod y gaeaf diwethaf, meddai,

Mae'r ffigurau brawychus yn destun pryder gwirioneddol i bobl hŷn yng Nghymru. Mae'r ffaith bod cynnydd mor sydyn yn nifer marwolaethau ychwanegol y gaeaf yn 2008-09—y cynnydd mwyaf yng Nghymru ers bron i ddegawd—yn gwbl annioddefol... Ceir cyswllt pendant rhwng tlodi tanwydd, afiechyd a marwolaeth ymysg ein pensynwyr.

Beth a allai ddangos yn fwy clir mai tlodi tanwydd yw un o'r problemau mwyaf o ran annhegwch sy'n bodoli yng Nghymru

certain that all of us share the views expressed by Mark in opening this debate, and that every one of us wishes to bring fairness to all people in Wales and eradicate fuel poverty.

The Welsh Liberal Democrats and I agree with the fuel poverty coalition that there is much to be done to improve the Government's fuel poverty charter. One of the central principles is that as many households as possible should receive energy efficiency measures, which is essential. Fundamentally, there is little point in drawing up strategies unless they will be delivered. Ultimately, what is needed in order to have the greatest impact on fuel poverty is the most effective targeting of resources towards the people who need it the most. I share the view that Mark expressed that the biggest impact is always gained when one area is surveyed and every household is contacted, as Warm Wales has done in Wrexham and Neath Port Talbot. The implementation of that style of work has been an important step forward that needs to be spread further. By the Government's own admission, the home energy efficiency scheme only affects 29 per cent of applicants who are in fuel poverty. In autumn 2007, Energywatch also condemned the scheme as being too south-Wales-centric, despite the fact that there is still evidence that there were greater concentrations of poverty in mid and north Wales.

There is no doubt that the high level of very old single-walled homes, which are difficult to heat and insulate, is one of the prime causes for this. The whole issue of rural fuel poverty is overlooked. A recent Commission for Rural Communities report outlined the hardship facing many rural communities and proposed, first, that the sale of domestic fuel oil and liquefied petroleum gas should be regulated equally within the domestic energy market. All too often, people in isolated areas pay the highest price, particularly for liquefied petroleum gas. Secondly, it proposed that robust social tariffs for domestic fuel, oil and liquefied petroleum gas should be introduced to alleviate fuel poverty. Thirdly, the Warm Front Scheme needs to be made more flexible in respect of

heddiw? Yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn rhannu'r safbwyntiau a fynegwyd gan Mark wrth agor y ddadl hon, a bod pob un ohonom yn dymuno dod â thegwch i bawb yng Nghymru a dileu tlodi tanwydd.

Yr wyf fi a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cytuno â'r gynghrair tlodi tanwydd bod llawer o waith i'w wneud i wella siarter tlodi tanwydd y Llywodraeth. Un o'r egwyddorion canolog yw y dylai cynifer o aelwydydd ag sy'n bosibl gael mesurau effeithlonrwydd ynni, sy'n hanfodol. Yn y bôn, nid oes llawer o ddiben llunio strategaethau oni bai eu bod yn cael eu gwireddu. Yn y pen draw, yr hyn y mae angen ei wneud i sicrhau'r effaith fwyaf ar dlodi tanwydd yw targedu adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol posibl at y bobl hynny y mae arnynt eu hangen fwyaf. Fel Mark, credaf mai trwy arolygu un ardal a chysylltu â phob aelwyd y sicrheir yr effaith fwyaf bob tro, yn union fel y mae Cymru Gynnes wedi'i wneud yn Wrecsam a Chastell-nedd Port Talbot. Mae gweithio fel hyn wedi bod yn gam pwysig ymlaen y mae angen ei ehangu ymhellach. Mae'r Llywodraeth ei hun yn cyfaddef mai ar 29 y cant yn unig o ymgeiswyr sydd mewn tlodi tanwydd y mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn effeithio. Yn ystod hydref 2007, beirniadodd Golwg ar Ynni'r cynllun hefyd am ganolbwyntio'n ormodol ar y de, er gwaethaf y ffaith bod tystiolaeth o hyd i ddangos bod mwy o achosion o dlodi yn y canolbarth a'r gogledd.

Nid oes amheuaeth nad y nifer fawr o gartrefi hen iawn â waliau sengl sy'n anodd eu gwresogi a'u hinswleiddio yw un o brif achosion hynny. Caiff holl broblem tlodi tanwydd gwledig ei hanwybyddu. Yr oedd adroddiad yn ddiweddar gan y Comisiwn Cymunedau Gwledig yn amlinellu'r caledi sy'n wynebu llawer o gymunedau gwledig, ac yr oedd yn cynnig, yn gyntaf, y dylid rheoleiddio gwerthu olew tanwydd a nwy petrolewm hylifedig domestig i'r un graddau yn y farchnad ynni domestig. Yn rhy aml o lawer, pobl mewn ardaloedd anghysbell sy'n talu'r pris uchaf, yn enwedig am nwy petrolewm hylifedig. Yn ail, yr oedd yn cynnig lliniaru tlodi tanwydd trwy gyflwyno tariffau cymdeithasol cadarn ar gyfer olew tanwydd a nwy petrolewm hylifedig

rural areas because many rural homes are unsuitable for the forms of assistance that are currently available, notably loft and cavity-wall insulation. When you have a 400-year-old house with thick stone walls, cavity-wall insulation is not applicable. We need to have flexible schemes that address these issues.

Furthermore, when she responds, I would like the Minister to address the issue of how much CERT money comes to Wales. The Sustainability Committee has asked the energy companies how much they actually spend in Wales on alleviating fuel poverty. In fairness, it is only British Gas that is in control of real figures. The figures of the others are slightly sparse. I know that the Minister is committed to making sure that we have the full CERT moneys coming to Wales. I would like to hear how she is doing on that.

Finally, we know that alleviating fuel poverty offers a great chance to move towards achieving your microgeneration targets. It also helps to reduce carbon emissions. It gives jobs to people in areas, often to small businesses, and it also makes people's lives more comfortable and will ultimately reduce fuel poverty and make Wales a country where fairness is the standard bearer of our ambition.

Nick Bourne: I thank Mick Bates for that very generous opening, and particularly for his tribute to Mark Isherwood, who has done outstanding work on this area. I am grateful for the opportunity to contribute to this important debate on fuel poverty that my party has tabled for debate today. There is no doubt that everyone in the National Assembly regards this issue as important. As long ago as 2003, the Welsh Assembly Government said that, as far as reasonably practicable, which is always a lawyer's saving phrase, fuel poverty would be eradicated among vulnerable households by 2010, in social housing by 2012, and eradicated completely by 2018. Yet, for some reason, those eradication targets mysteriously disappeared

domestig. Yn drydydd, mae angen gwneud y cynllun Warm Front yn fwy hyblyg yn achos ardaloedd gwledig, gan fod llawer o gartrefi gwledig yn anaddas ar gyfer y mathau o gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, sef gwaith inswleiddio atigau a waliau ceudod yn benodol. Mae inswleiddio waliau ceudod yn amherthnasol os oes gennych dŷ sy'n 400 mlwydd oed gyda waliau cerrig trwchus. Mae arnom angen cynlluniau hyblyg sy'n rhoi sylw i'r materion hyn.

At hynny, pan fydd yn ymateb, hoffwn i'r Gweinidog roi sylw i faint o arian y targed lleihau allyriadau carbon sy'n dod i Gymru. Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi gofyn i gwmnïau ynni faint y maent yn ei wario mewn gwirionedd yng Nghymru ar liniaru tlodi tanwydd. Er tegwch, dim ond Nwy Prydain sydd â rheolaeth ar ffigurau go iawn. Digon prin yw ffigurau'r gweddill. Gwn fod y Gweinidog wedi ymrwmo i sicrhau bod Cymru'n cael yr holl arian sy'n ddyledus iddi dan y targed lleihau allyriadau carbon. Hoffwn glywed sut hwyl y mae'n ei chael ar hynny.

Yn olaf, gwyddom fod lliniaru tlodi tanwydd yn gyfle gwych i symud tuag at gyrraedd eich targedau microgynhyrchu. Mae'n helpu lleihau allyriadau carbon hefyd. Mae'n rhoi swyddi i bobl mewn ardaloedd, i fusnesau bach yn aml, mae'n gwneud bywydau pobl yn fwy cyfforddus, ac yn y pen draw bydd yn lleihau tlodi tanwydd ac yn gwneud Cymru'n wlad lle caiff ein huchelgais ei harwain gan degwch.

Nick Bourne: Yr wyf yn diolch i Mick Bates am ei gyfraniad agoriadol hael iawn, ac yn arbennig am ei deyrnged i Mark Isherwood sydd wedi gwneud gwaith rhagorol yn y maes hwn. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon ar dlodi tanwydd, y mae fy mhlaidd wedi'i chyflwyno i'w thrafod heddiw. Nid oes amheuaeth nad yw pawb yn y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hwn yn fater pwysig. Cyn belled yn ôl â 2003, dywedodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai tlodi tanwydd, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, sef cymal amodol cyfreithiwr bob tro, yn cael ei ddileu ymysg aelwydydd agored i niwed erbyn 2010, yn cael ei ddileu mewn tai cymdeithasol erbyn 2012, ac yn cael ei

from the 'One Wales' document. Having said that, the pledge reappears, although somewhat vaguely, in the Welsh Assembly Government's fuel poverty strategy, which was published for consultation at the end of 2009. To date, the Welsh Assembly Government is missing this target; there can be little doubt of that. The evidence suggests that it has little chance of hitting that target in 2010.

One thing that needs to be put right quickly is the fog around the statistics and the evidence. I know that the Minister, famously, makes use of evidence bases, but the statistics and the evidence that will help us to reach the 2010 target are not there—the statistics seem to dry up around 2006. Those figures date from before the impact of the recession and the massive rises in energy price were felt. Data on fuel poverty in 2008 will not be available until later in 2010, which, clearly, is far too late to help to achieve the 2010 target.

Furthermore, there is no indication in the draft fuel poverty strategy of the progress made towards achieving the 2010 target regarding vulnerable households. The evidence base that the Minister rightly wants, and which is vital, is simply not there. That has to be addressed very quickly. We cannot hope to make progress without better information on where we are at the moment and on what progress, if any, is being made, what the shortfall is, and what we have to do to reach that target. The most recent statistics strongly suggest that the problem is getting worse: the number of Welsh households in fuel poverty rose between 2004 and 2006.

I agree with the fuel poverty charter coalition that, in order to help to ensure that the Welsh Assembly Government gets back on track, we need a more radical and comprehensive approach. As a party we have produced some radical and comprehensive proposals. I note what Mick Bates said about the need to be

ddileu'n llwyr erbyn 2018. Eto i gyd, am ryw reswm ac yn rhyfedd ddigon, diflannodd y targedau hynny ar gyfer dileu tlodi tanwydd o ddogfen 'Cymru'n Un'. Wedi dweud hynny, mae'r addewid yn ailymddangos, er braidd yn niwlog, yn strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth y Cynulliad, a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghori yn ei chylch ddiwedd 2009. Hyd yma, nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi llwyddo i gyrraedd y targed hwn; nid oes fawr o amheuaeth am hynny. Awgryma'r dystiolaeth mai prin yw ei gobaith o gyrraedd y targed hwnnw yn 2010.

Un peth y mae angen ei unioni'n gyflym yw'r diffyg eglurder am yr ystadegau a'r dystiolaeth. Gwn fod y Gweinidog yn enwog am ddefnyddio sylfeini tystiolaeth, ond nid yw'r ystadegau a'r dystiolaeth a fydd yn ein helpu i gyrraedd targed 2010 ar gael—mae'n ymddangos bod yr ystadegau'n dod i ben tua 2006. Mae'r ffigurau hynny'n dyddio o'r cyfnod cyn inni deimlo effaith y dirwasgiad a'r codiadau anferth mewn pris ynni. Ni fydd data ynghylch tlodi tanwydd yn 2008 ar gael tan yn ddiweddarach yn 2010, sy'n amlwg yn rhy hwyr o lawer i'n helpu i gyrraedd targed 2010.

At hynny, nid yw fersiwn ddrafft y strategaeth ar dlodi tanwydd yn cynnwys arwydd o gwbl o'r cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd targed 2010 ar gyfer aelwydydd agored i niwed. Yn syml, nid yw'r sylfaen dystiolaeth sy'n hanfodol, ac y mae'n ddigon teg bod y Gweinidog am ei chael, yn bodoli. Rhaid rhoi sylw i hynny ar fyrder. Nid oes gennym obaith gwneud cynnydd heb fod gennym well gwybodaeth am ble'r ydym arni ar hyn o bryd, pa gynnydd sy'n cael ei wneud os oes cynnydd o gwbl, beth yw'r diffyg, a beth mae'n rhaid inni ei wneud i gyrraedd y targed hwnnw. Mae'r ystadegau diweddaraf yn awgrymu'n gryf bod y broblem yn gwaethygu: rhwng 2004 a 2006 gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelwydydd yng Nghymru sydd mewn tlodi tanwydd.

Cytunaf â chynghrair y siarter tlodi tanwydd fod angen inni gael dull gweithredu mwy cynhwysfawr a radical os ydym am helpu sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn ôl ar y trywydd cywir unwaith eto. Fel plaid, yr ydym wedi llunio rhai cynigion radical a chynhwysfawr. Yr wyf yn nodi'r hyn a

flexible with regard to cavity-wall and loft insulation—that is certainly true—but such insulation will help to ease a lot of the problems.

I appreciate that energy efficiency is not the same as fuel poverty. The two overlap, however, they are not the same. We need to look, as the Government in Westminster has done, at financial help. We have to work with energy companies, as they are clearly vital to this. On a practical level, the Welsh Assembly Government should set up a cross-departmental fuel poverty group, which should oversee fuel poverty measures and should work with UK Ministers, Ofgem and groups in Wales that are working to address fuel poverty. That would be a positive way forward. In the meantime, this remains a serious problem, and the evidence is that it is getting more serious, with around 250,000 households—not individuals—in fuel poverty. Given the nature of this winter, this problem will get worse before it gets better. I look forward to hearing what the Minister has to say regarding the practical measures that the Government will take.

Alun Davies: From listening to the speeches made this afternoon, particularly from the Conservative benches, you would never have thought that it was the party that introduced value added tax of 17.5 per cent on domestic fuel. One of the greatest single causes of fuel poverty was created by a Conservative Government. That really is a lesson for us all. When you see the Conservatives in opposition, you see crocodile tears, and when they are in Government, you see some vicious actions that attack the most vulnerable people in our society. When voting and debating this afternoon, we should also remember that the Conservatives opposed the winter fuel payment to pensioners. We have not only the policies, but the will and the commitment to fund the promises that we make, whereas the Conservative Party will cry crocodile tears in opposition and will vote down every opportunity that we provide to address fuel

ddywedodd Mick Bates ynghylch yr angen i fod yn hyblyg o ran inswleiddio atigau a waliau ceudod—mae hynny'n sicr yn wir—ond bydd gwaith inswleiddio o'r fath yn helpu i leddfu llawer o'r problemau.

Yr wyf yn sylweddoli nad yw effeithlonrwydd ynni'r un fath â thlodi tanwydd. Mae'r ddau beth yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ond nid ydynt yr un fath â'i gilydd. Mae angen inni edrych ar gymorth ariannol, fel y mae'r Llywodraeth yn San Steffan wedi ei wneud. Rhaid inni weithio gyda chwmnïau ynni, gan eu bod yn amlwg yn hollbwysig i hyn. Yn ymarferol, dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu grŵp tlodi tanwydd trawsadrannol, a ddylai gadw golwg ar fesurau tlodi tanwydd a gweithio gyda Gweinidogion y DU, Ofgem, a grwpiau yng Nghymru sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Byddai honno'n ffordd gadarnhaol o symud ymlaen. Yn y cyfamser, mae'r broblem hon yn dal yn ddifrifol, ac y mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn mynd yn fwy difrifol, gydag oddeutu 250,000 o aelwydydd—nid unigolion—mewn tlodi tanwydd. O gofio natur y gaeaf hwn, bydd y broblem hon yn gwaethygu cyn gwella. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud am y camau ymarferol y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd.

Alun Davies: O wrando ar yr areithiau a draddodwyd y prynhawn yma, yn enwedig o feinciau'r Ceidwadwyr, ni fyddech erioed wedi meddwl mai'r blaid honno a gyflwynodd dreth ar werth o 17.5 y cant ar danwydd domestig. Llywodraeth Geidwadol a greodd un o achosion unigol pennaf tlodi tanwydd. Mae honno'n wers inni i gyd yn wir. Pan fo'r Ceidwadwyr yn wrthblaid, gwelwn ffug-ddagrau, a phan fônt mewn Llywodraeth, gwelwn gamau gweithredu creulon sy'n ymosod ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Wrth bleidleisio a dadlau y prynhawn yma, dylem gofio hefyd i'r Ceidwadwyr wrthwynebu'r taliad tanwydd gaeaf i bensynwyr. Yn ogystal â'r polisïau, mae gennym yr ewyllys a'r ymrwymiad i ariannu'r addewidion a wnawn, tra bydd y Blaid Geidwadol yn wylo ffug-ddagrau fel gwrthblaid ac yn pleidleisio yn erbyn pob cyfle a ddarparwn i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymysg y bobl sydd fwyaf agored i

poverty among the most vulnerable people in society.

Mark Isherwood: Do you recognise that the coalition did not ask the opposition to find time for this debate today in order to trade party political insults, but in order to address the real concerns that it has raised in a charter that is completely consensual, cross-party and cross-cutting, which includes dozens of front-line organisations? Please cut out the party politics and focus on the fuel poverty issues in this debate.

4.40 p.m.

Alun Davies: I can well understand why you are too ashamed to defend the record of the Conservative Party in Government. I am proud of the record of this party in Government. Since 2001, the home energy efficiency scheme has provided assistance to over 100,000 households in Wales, which is nearly 10 per cent of our total population. That has ensured that people have had the opportunity to install energy efficiency measures in their own homes. Through HEES, this Government has provided over £100 million of support in the form of real action for people in their own homes. I am also proud that the funding available for the home energy efficiency scheme for 2009-10 has been increased to £23.8 million—the largest investment in this scheme since it started. That is the reality of taking action rather than making promises. That is the reality of taking action today to ensure that people are provided with help and support whenever they need it.

I spoke in the debate earlier, and since I have now left the Sustainability Committee and that its Chair is in the Chamber today, I will say that it would be useful to bring in the energy companies and talk to them about what they are doing to address fuel poverty and to ensure that people have access to social tariffs. I remember the first time that we threatened to use the new 2006 powers to bring these people before a committee in order to ensure that they were taking action to

niwed mewn cymdeithas.

Mark Isherwood: A ydych yn sylweddoli bod y gynghrair wedi gofyn i'r wrthblaid ddod o hyd i amser ar gyfer y ddadl hon heddiw, nid er mwyn inni ddefnyddio gwleidyddiaeth bleidiol i sarhau ein gilydd, ond er mwyn inni fynd i'r afael â'r pryderon gwirioneddol y mae'r gynghrair wedi'u codi mewn siarter gwbl gydsyniol, trawsbleidiol a thrawsbynciol, sy'n cynnwys degau o sefydliadau rheng flaen? Rhowch y gorau i wleidyddiaeth bleidiol a chanolbwyntiwrch ar y materion tldi tanwydd yn y ddadl hon.

Alun Davies: Gallaf ddeall yn iawn pam mae arnoch ormod o gywilydd i amddiffyn hanes y Blaid Geidwadol mewn Llywodraeth. Yr wyf yn falch iawn o hanes y blaid hon mewn Llywodraeth. Er 2001 mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi darparu cymorth i dros 100,000 o aelwydydd yng Nghymru, sef bron i 10 y cant o gyfanswm ein poblogaeth. Mae hynny wedi sicrhau bod pobl wedi cael cyfle i osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi eu hunain. Trwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, mae'r Llywodraeth hon wedi darparu dros £100 miliwn o gymorth ar ffurf camau gweithredu go iawn i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Yr wyf hefyd yn falch bod y cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn 2009-10 wedi'i gynyddu i £23.8 miliwn—sef y buddsoddiad mwyaf yn y cynllun hwn ers iddo ddechrau. Dyna yw realiti gweithredu yn hytrach na gwneud addewidion. Dyna yw realiti gweithredu heddiw er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cymorth a chefnogaeth pryd bynnag y mae arnynt eu hangen.

Siaradais yn y ddadl yn gynharach, a chan fy mod wedi gadael y Pwyllgor Cynaliadwyedd erbyn hyn, a chan fod Cadeirydd y Pwyllgor yn y Siambr heddiw, yr wyf am ddweud y byddai'n ddefnyddiol tynnu'r cwmnïau ynni i mewn a siarad â hwy am yr hyn y maent yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a sicrhau bod tariffau cymdeithasol ar gael i bobl. Cofiaf y tro cyntaf inni fygwth defnyddio pwerau newydd 2006 i ddod â'r bobl hyn gerbron pwyllgor er mwyn sicrhau

ensure that the poor and vulnerable in this country, who suffer fuel poverty, had their needs met, not only by Government, but by the energy companies. It is important that we hold those people to account.

In developing a strategy, Minister, I know that you have taken on board the issues that have been addressed in the charter and that you have attempted to ensure that all of its demands are part of a policy. I think that you did that before the charter was launched because of your commitment to these issues. However, when you respond to this debate, will you let us know when you expect to have up-to-date figures on fuel poverty? We know that the current figures relate to 2004, and that was before steep rises in energy prices. We need to understand the extent of the problem as it is today in order to ensure that we can understand the sorts of actions that you will take to address fuel poverty. I want to see a detailed action plan. We spoke earlier about the need, not only for actions and activity, but for outcomes and to achieve changes to people's lives. There is little point in us having policies and strategies in this place and debating them on a Wednesday, or whichever day of the week it happens to be, unless we change people's lives and their experience of living in Wales.

We all know of the impact that fuel poverty has on people's lives. We know that children lie awake in this country, cold in their beds, and that older people suffer terrible illness because of the impact of fuel poverty. We know that some people today are terrified to turn up the heating in this appalling weather because they are afraid of the impact of fuel poverty. I hope that when you respond to this debate this afternoon, Minister, you will be able to give us a detailed action plan with timelines. I also hope to understand how exactly you will ensure that we not only meet our targets on fuel poverty, but change the lives of people in Wales.

Jonathan Morgan: I start by saying how much I welcome this debate. Debating the complex picture of tackling fuel poverty is

eu bod yn gweithredu i wneud yn siŵr bod anghenion pobl dlawd ac agored i niwed y wlad hon, sy'n dioddef tlodi tanwydd, yn cael eu diwallu, nid yn unig gan y Llywodraeth, ond gan y cwmnïau ynni hefyd. Mae'n bwysig inni ddwyn y bobl hyn i gyfrif.

Wrth ddatblygu strategaeth, Weinidog, gwn ichi ystyried y materion sydd wedi cael sylw yn y siarter, ac ichi geisio sicrhau bod yr holl bethau y gelwir amdanynt gan y siarter yn rhan o bolisi. Credaf ichi wneud hynny cyn i'r siarter gael ei lansio oherwydd eich ymrwymiad i'r materion hyn. Fodd bynnag, pan fyddwch yn ymateb i'r ddadl hon, a wnewch chi ddweud wrthym pryd yr ydych yn disgwyl cael ffigurau wedi'u diweddarau ar dlodi tanwydd? Gwyddom fod y ffigurau cyfredol yn perthyn i 2004, a bod hynny cyn y codiadau enfawr mewn prisiau ynni. Mae angen inni ddeall maint y broblem fel y mae heddiw, er mwyn sicrhau y gallwn ddeall y mathau o gamau gweithredu y byddwch yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Yr wyf am weld cynllun gweithredu manwl. Buom yn siarad yn gynharach ynghylch yr angen nid yn unig am gamau gweithredu a gweithgarwch, ond am ganlyniadau a sicrhau newidiadau i fywydau pobl. Nid oes llawer o ddiben inni gael polisiau a strategaethau yn y lle hwn a dadlau yn eu cylch ar ddydd Mercher, neu ar ba ddiwrnod bynnag arall o'r wythnos, oni bai ein bod yn newid bywydau pobl a'u profiad o fyw yng Nghymru.

Gwyddom i gyd am effaith tlodi tanwydd ar fywydau pobl. Gwyddom fod plant yn y wlad hon yn gorwedd ar ddi-hun, yn oer yn eu gwelyau, a bod pobl hŷn yn dioddef salwch ofnadwy oherwydd effaith tlodi tanwydd. Gwyddom fod rhai pobl heddiw'n arswydo rhag troi'r gwres i fyny yn y tywydd ofnadwy hwn am eu bod yn ofni effaith tlodi tanwydd. Pan fyddwch yn ymateb i'r ddadl hon y prynhawn yma, Weinidog, gobeithio y byddwch yn gallu rhoi cynllun gweithredu manwl gydag amserlen inni. Yr wyf hefyd yn gobeithio deall sut yn union y byddwch yn sicrhau ein bod nid yn unig yn cyrraedd ein targedau ar dlodi tanwydd, ond yn newid bywydau pobl yng Nghymru.

Jonathan Morgan: Hoffwn ddechrau trwy ddweud cymaint yr wyf yn croesawu'r ddadl hon. Mae'n eithriadol o bwysig cael dadl ar

extremely important. Regardless of what Alun Davies said in his speech, I think that there is a broad consensus in the Chamber on the actions that need to be taken to eradicate fuel poverty, not just for vulnerable groups, for whom the Government hopes to eradicate it during 2010, but for the whole of Wales and for those whom we seek to help by 2018.

I welcome the fact that there are targets. We should be setting out clear benchmarks; it is right for the Government to try to establish a way of measuring achievement, although the possibility of meeting the 2010 target for eradicating fuel poverty for vulnerable groups looks incredibly unlikely. If the Government intends to stick to its targets, then it needs to outline what measures will be introduced and what support will be provided to back up those targets, and, in particular, what Government departments outside of the Minister's own department will do to support her initiatives to eradicate fuel poverty.

On 7 November, the Assembly had a debate—a Welsh Conservatives debate—during which the Minister announced that there would be a review of progress to date and an updated strategy. What happened to that review, Minister? Did it take place, how it was conducted, and, if it did take place, what did it discover? Is the Assembly Government now in a position to indicate what the progress is to date? I have a sneaky suspicion that no review has taken place and all that has happened is that the Government has published another consultation document and an updated strategy. My concern is that the strategic development and direction of Government is based on old data and an incomplete picture.

As the leader of the Welsh Conservatives indicated earlier on, there are two lots of interesting data in the Government's strategy document. The first is that in 2004, it was estimated that there were 134,000 households in Wales in fuel poverty. Of that figure, 85 per cent—around 115,000 households—were

holl gymhlethdod mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Er gwaethaf yr hyn a ddywedodd Alun Davies yn ei araith, credaf fod cydsyniad cyffredinol yn y Siambr ynghylch y camau gweithredu y mae angen eu cymryd i ddileu tlodi tanwydd, nid yn unig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed y mae'r Llywodraeth yn gobeithio dileu tlodi tanwydd yn eu mysg yn ystod 2010, ond ar gyfer Cymru gyfan a'r rheini yr ydym am geisio'u helpu erbyn 2018.

Croesawaf y ffaith bod targedau. Dylem fod yn gosod meincnodau clir; mae'n iawn i'r Llywodraeth geisio pennu dull o fesur cyflawniad, er ei bod yn edrych yn annhebygol tu hwnt y bydd yn bosibl cyrraedd targed 2010 ar gyfer dileu tlodi tanwydd ymysg grwpiau agored i niwed. Os yw'r Llywodraeth yn bwriadu cadw at ei thargedau, mae angen iddi amlinellu pa fesurau a gaiff eu cyflwyno a pha gymorth a gaiff ei ddarparu i gefnogi'r targedau hynny, ac yn benodol, beth fydd adrannau'r Llywodraeth ar wahân i adran y Gweinidog ei hun yn ei wneud i gefnogi ei mentrau i ddileu tlodi tanwydd.

Ar 7 Tachwedd, cafodd y Cynulliad ddadl—dadl gan y Ceidwadwyr Cymreig—pan gyhoeddodd y Gweinidog y bwriad i gynnal adolygiad o'r cynnydd a wnaed hyd yma a chyhoeddi strategaeth wedi'i diweddarau. Beth ddigwyddodd i'r adolygiad hwnnw, Weinidog? A gafodd ei gynnal, sut y cafodd ei gynnal, ac os cafodd ei gynnal, beth oedd ei ganfyddiadau? A yw Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa erbyn hyn i nodi pa gynnydd a wnaed hyd yma? Yr wyf yn rhyw amau na chynhaliwyd adolygiad ac mai'r cyfan sydd wedi digwydd yw bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori arall a strategaeth wedi'i diweddarau. Yr wyf yn pryderu bod gwaith datblygu a chyfeiriad strategol y Llywodraeth wedi'u seilio ar hen ddata a darlun anghyflawn.

Fel y nododd arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gynharach, mae dwy set o ddata diddorol yn nogfen strategaeth y Llywodraeth. Yn ôl y set gyntaf, amcangyfrifwyd bod 134,000 o aelwydydd yng Nghymru'n dioddef tlodi tanwydd yn 2004. O'r ffigur hwnnw, yr oedd 85 y cant—

classed as vulnerable. On that basis, to achieve the 2010 target of eliminating vulnerable groups in fuel poverty, at that point there were 115,000 households that needed to be helped. The report also points out, with regard to the modelling work that was done in 2007, that by 2006 there were an estimated 243,000 households in fuel poverty, of which a similar proportion—around 85 per cent—were classed as vulnerable. That is 206,000 households. Unless you can show the picture today, the most up-to-date figures that you have are based on modelling work done in 2007, which assumes that by 2006 there were 206,000 households classed as vulnerable. Can you really say, hand on heart, that that number of households will be taken out of the vulnerable fuel poverty category by the end of this calendar year? I sincerely doubt that. I do not think that there is anything that you can rely on today to demonstrate that that number of households in Wales will be taken out of the vulnerable category of those that are regarded as fuel poor.

Over that two-year period, we have seen a dramatic increase in the number of people who require assistance and are regarded as fuel poor. They are regarded as being in fuel poverty principally due to the increase in energy prices. The Assembly Government admits in its strategy document that fuel poverty is directly affected by the rise in fuel prices. Therefore, you need to indicate what you are doing to work with Ofgem, fuel companies and the UK Government to address the issue of fuel prices, because your own document admits, through the data, that between now and 2018—by when you need to meet your final target—fuel prices will increase time and again, year on year. If that is the case, and fuel prices will continue to rise, how on earth will you reach your target of eliminating fuel poverty in Wales by 2018? There is a serious point in the strategy, which the umbrella organisation that Mark Isherwood referred to has picked up on, about a lack of coordination. There needs to be a much more coordinated effort, otherwise you

tua 115,000 o aelwydydd—yn cael eu hystyried yn rhai agored i niwed. Ar sail hynny, er mwyn cyrraedd targed 2010, sef dileu tlodi tanwydd ymysg grwpiau sy'n agored i niwed, yr oedd angen cymorth bryd hynny ar 115,000 o aelwydydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi, yng nghyswllt y gwaith modelu a wnaed yn 2007, yr amcangyfrifwyd bod 243,000 o aelwydydd yn dioddef tlodi tanwydd erbyn 2006, a bod cyfran debyg o blith y rheini—oddeutu 85 y cant—yn cael eu hystyried yn rhai agored i niwed. Mae hynny'n cyfateb i 206,000 o aelwydydd. Oni allwch ddangos sut mae pethau heddiw, mae'r ffigurau diweddaraf sydd gennych yn seiliedig ar waith modelu a wnaed yn 2007, sy'n tybio bod 206,000 o aelwydydd yn cael eu hystyried yn rhai agored i niwed erbyn 2006. A allwch ddweud mewn gwirionedd, yn hollol ddiffuant, y bydd y nifer honno o aelwydydd yn cael eu tynnu o'r categori aelwydydd agored i niwed sy'n dioddef tlodi tanwydd erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon? Yr wyf yn amau hynny'n fawr. Nid wyf yn credu bod dim y gallwch ddibynnu arno heddiw i ddangos y bydd y nifer honno o aelwydydd yng Nghymru'n cael eu tynnu o'r categori aelwydydd agored i niwed a gaiff eu hystyried yn rhai sydd mewn tlodi tanwydd.

Dros y cyfnod hwnnw o ddwy flynedd, yr ydym wedi gweld cynnydd dramatig yn nifer y bobl y mae arnynt angen cymorth ac yr ystyrir eu bod yn dioddef tlodi tanwydd. Ystyrir eu bod yn dioddef tlodi tanwydd oherwydd y cynnydd mewn prisiau ynni'n bennaf. Yn ei dogfen strategaeth, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfaddef bod y cynnydd mewn prisiau ynni'n effeithio'n uniongyrchol ar dlodi tanwydd. Felly, mae angen ichi nodi'r hyn yr ydych yn ei wneud i weithio gydag Ofgem, cwmnïau tanwydd a Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â phroblem prisiau tanwydd, oherwydd mae eich dogfen chi eich hun yn cyfaddef, trwy'r data, y bydd prisiau tanwydd yn codi dro ar ôl tro, flwyddyn ar ôl blwyddyn, rhwng yn awr a 2018—sef y flwyddyn y mae angen ichi gyrraedd eich targed terfynol. Os felly, ac os bydd prisiau tanwydd yn dal i godi, sut ar wyneb y ddaear y byddwch yn cyrraedd eich targed, sef dileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018? Mae pwynt difrifol yn y strategaeth y mae'r sefydliad ambarél y

will not reach your targets, because this is a complex picture. We need to hear more from the Minister today about how that coordination will be achieved.

Bethan Jenkins: I am pleased to be able to take part in today's debate. The first point that I want to make is that, as we are well aware, fuel poverty and child poverty are inextricably linked. That is not just my view, but that of the Children's Commissioner for Wales, who has said previously that the current economic circumstances provide a more challenging environment. However, the recession must not be used as an excuse. He goes on to say that child poverty is an issue of children's rights, which exist in any environment. Exactly the same is true of the effect of fuel poverty on the children and young people of Wales. Parents and young single people face difficult choices in juggling priorities in paying for essentials. The children's commissioner signed up to the fuel poverty charter for Wales, which I have also supported, because the rights and the welfare of children and young people have never really been fully addressed within the fuel poverty agenda.

4.50 p.m.

Fuel poverty impacts upon children in different ways: in stress, lower educational attainment, social exclusion and, of course, in relation to health and wellbeing. When I shadowed a welfare rights officer in Neath Port Talbot last year, visiting families in Neath Port Talbot to fill out disability living allowance forms, I could see from the houses that fuel poverty was linked quite clearly to child poverty. The Minister must consider that issue in future.

Another challenge for the Welsh Government is how to deliver support fairly. The Joseph Rowntree Foundation estimates that families working in low-income jobs account for as much as a half of all households where there is child poverty. I worry about that, because those people do not qualify for benefits. I know that benefits are an issue for

cyfeiriodd Mark ato wedi'i godi, ynghylch diffyg cydgysylltu. Mae angen cydgysylltu'r ymdrech i raddau mwy helaeth o lawer, neu fel arall ni fyddwch yn cyrraedd eich targedau, oherwydd mae hwn yn ddarlun cymhleth. Mae angen inni glywed mwy gan y Gweinidog heddiw am y modd y bydd y cydgysylltu hwnnw'n digwydd.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn falch cael cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Y pwynt cyntaf yr wyf am ei wneud yw bod cysylltiad anorfod rhwng tlodi tanwydd a thlodi plant, fel y gŵyr pob un ohonom. Nid fy marn i'n unig yw honno, ond barn Comisiynydd Plant Cymru hefyd, sydd wedi dweud cyn hyn bod yr amgylchiadau economaidd presennol yn amgylchedd mwy heriol. Fodd bynnag, rhaid peidio â defnyddio'r dirwasgiad yn esgus. Aiff y Comisiynydd rhagddo i ddweud bod tlodi plant yn fater o hawliau plant, sy'n bodoli mewn unrhyw amgylchedd. Mae'r un peth yn union yn wir am effaith tlodi tanwydd ar blant a phobl ifanc Cymru. Mae rhieni a phobl ifanc senl yn wynebu dewisiadau anodd wrth geisio cydbwysu blaenoriaethau i dalu am bethau hanfodol. Cefnogodd y comisiynydd plant siarter tlodi tanwydd Cymru, ac yr wyf fi hefyd wedi'i chefnogi, am nad yw'r agenda tlodi tanwydd erioed wedi mynd i'r afael yn iawn â hawliau a lles plant a phobl ifanc.

Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar blant mewn gwahanol ffyrdd: fel straen, cyflawniad addysgol is, allgáu cymdeithasol, ac wrth gwrs, o ran eu hiechyd a'u lles. Pan fûm yn cysgodi swyddog hawliau lles yng Nghastell-nedd Port Talbot y llynedd, yn ymweld â theuluoedd yn yr ardal i lenwi ffurflenni lwfans byw i'r anabl, gallwn weld o'r tai bod cyswllt amlwg rhwng tlodi tanwydd a thlodi plant. Rhaid i'r Gweinidog ystyried y broblem honno yn y dyfodol.

Her arall i Lywodraeth Cymru yw sut mae darparu cymorth yn deg. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn amcangyfrif bod cynifer â hanner yr holl aelwydydd lle ceir tlodi plant yn aelwydydd lle ceir teuluoedd sy'n gweithio mewn swyddi incwm isel. Yr wyf yn pryderu ynghylch hynny, am nad yw'r bobl hyn yn gymwys i gael budd-daliadau.

Westminster, but if those people are in fuel poverty and their income is above the threshold at which they can receive support, then we must consider that in Wales.

On a local level, we need to question local authorities. It will be interesting to know how the Proposed Children and Families Measure will feature in tackling fuel poverty and how local authorities really get to grips with this issue.

It is not only children who are affected by fuel poverty. Some 2,500 people died as a result of the winter weather last year. That is a 74 per cent increase on the previous year. Age Concern Cymru and Help the Aged believes that fuel poverty among the elderly will worsen in 2010. We all agree that that cannot continue. Age Concern Cymru and Help the Aged argue for recognition of the fact that older people are particularly affected by fuel price rises because they tend to live on fixed incomes, spend more time at home, and have underlying medical conditions. These charities also believe that limiting fuel poverty support to those who qualify for means-tested benefits and who live in inefficient homes will disadvantage large numbers of older people living on incomes just over the benefits threshold.

Consumer Focus Wales goes further than Age Concern Cymru and Help the Aged. It argues that, in practice, the successor to the home energy efficiency scheme could help fewer fuel-poor households than it does at present. Identifying inefficient homes and bringing them up to standard will cost more, but there is no detail about the standard that these homes will be brought up to and whether there will be a cap on the costs.

I join Consumer Focus Wales in calling on the Welsh Government to follow Scotland's example. It has pledged to keep the energy assistance package under review. We should

Gwn mai San Steffan sy'n gyfrifol am fudd-daliadau, ond os yw'r bobl hyn mewn tloidi tanwydd a'u hincwm uwchlaw'r trothwy lle gallant gael cymorth, yna rhaid inni ystyried hynny yng Nghymru.

Ar lefel leol, mae angen inni holi awdurdodau lleol. Bydd yn ddiddorol gwybod pa ran y bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â thloidi tanwydd, a sut y bydd awdurdodau lleol yn mynd i'r afael mewn gwirionedd â'r broblem hon.

Nid ar blant yn unig y mae tloidi tanwydd yn effeithio. Bu farw rhyw 2,500 o bobl y llynedd o ganlyniad i dywydd y gaeaf. Mae hynny'n gynnydd o 74 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Mae Age Concern Cymru a Help the Aged o'r farn y bydd tloidi tanwydd ymysg yr henoed yn gwaethygu yn 2010. Yr ydym i gyd yn cytuno na all hynny barhau. Mae Age Concern Cymru a Help the Aged yn dadlau y dylid cydnabod y ffaith bod codiadau mewn prisiau tanwydd yn effeithio'n benodol ar bobl hŷn am eu bod yn tueddu i fyw ar incwm sefydlog a threulio mwy o amser gartref, ac am eu bod yn tueddu i fod ag anhwylderau meddygol. Mae'r elusennau hyn hefyd yn credu y bydd cyfyngu ar gymorth o ran tloidi tanwydd i bobl sy'n gymwys i gael budd-daliadau ar sail prawf modd, ac sy'n byw mewn cartrefi aneffeithlon o ran ynni, er anfantais i lawer iawn o bobl hŷn sy'n byw ar incwm sydd ychydig uwchlaw'r trothwy lle gallant gael budd-daliadau.

Mae Llais Defnyddwyr Cymru yn mynd ymhellach nag Age Concern Cymru a Help the Aged. Dadleua y gallai olynydd y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, yn ymarferol, helpu llai o aelwydydd sy'n dioddef tloidi tanwydd nag y mae'r cynllun yn ei wneud ar hyn o bryd. Bydd yn costio mwy i adnabod cartrefi aneffeithlon a'u gwella i gyrraedd y safon, ond ni cheir manylion o gwbl ynghylch y safon y bydd y cartrefi hyn yn ei chyrraedd, nac ynghylch p'un a fydd terfyn uchaf ar y costau.

Ymunaf â Llais Defnyddwyr Cymru wrth alw ar Lywodraeth Cymru i ddilyn esiampl yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi addo cadw golwg ar y pecyn cymorth ynni. Dylem

also do that in Wales. When Holyrood concluded that criteria similar to those in Wales left too few people eligible for assistance, it undertook to amend that scheme immediately.

While I welcome the fact that the Tories have brought forward this debate, I concur with Alun Davies and ask them to press their Westminster colleagues to implement a cut in VAT on fuel should they win the general election, as they so plainly expect to do. I would also like to ask whether they agree with the statement in the fuel poverty charter, that

‘Liberal market-driven systems and policies have failed to safeguard people from fuel poverty.’

I am sure that that is a blow to their agenda of privatising public utilities. Does that not show that the market caused fuel poverty and that the Tories do not have a leg to stand on in preaching to the Welsh Assembly Government on this issue?

I would like to finish on a positive note. I look forward to listening to ways in which we can progress on this issue. Plaid Cymru launched a fuel poverty campaign in 2008 and we have consistently called for a windfall tax on energy companies to help to pay for insulation and to reduce the costs for the fuel poor. These progressive changes can make a difference and we will continue to campaign at this level.

Andrew R.T. Davies: I congratulate my colleague, Mark Isherwood, on his opening contribution and his dedication to this cause through the cross-party group in the Assembly. The motion tabled is a consensual motion, and we began with consensus across the Chamber. It is regrettable that Alun Davies started off on such a party-political note, because I do not think that anyone in this Chamber would subscribe to castigating anyone for causing fuel poverty, given the various aspects that have been raised during this debate and the points that have been made. It is regrettable that, in 2010, so many

wneud hynny yng Nghymru hefyd. Pan ddaethpwyd i'r casgliad yn Holyrood y byddai meini prawf tebyg i'r rheini yng Nghymru'n golygu y byddai nifer rhy fach o bobl yn gymwys i gael cymorth, cafwyd ymrwymiad i ddiwygio'r cynllun hwnnw ar unwaith.

Er fy mod yn croesawu'r ffaith fod y Torïaid wedi cyflwyno'r ddadl hon, yr wyf yn cydfynd ag Alun Davies ac yn gofyn iddynt bwyso ar eu cydweithwyr yn San Steffan i dorri'r dreth ar werth ar danwydd os byddant, fel y maent yn amlwg yn disgwyl, yn ennill yr etholiad cyffredinol. Hoffwn ofyn hefyd a ydynt yn cytuno â'r datganiad canlynol yn y siarter tlodi tanwydd,

‘Nid yw systemau a pholisïau toreithiog a arweinir gan y farchnad wedi llwyddo i ddiogelu pobl rhag tlodi tanwydd.’

Yr wyf yn siŵr bod hynny'n ergyd i'w hagenda i breifateiddio cyfleustodau cyhoeddus. Onid yw hynny'n dangos mai'r farchnad sydd wedi achosi tlodi tanwydd ac nad oes gan y Torïaid goes i sefyll arni wrth bregethu wrth Lywodraeth y Cynulliad ynghylch hyn?

Hoffwn orffen ar nodyn cadarnhaol. Edrychaf ymlaen at glywed sut y gallwn symud ymlaen ar y mater hwn. Yn 2008 lansiodd Plaid Cymru ymgyrch tlodi tanwydd, ac yr ydym wedi galw'n gyson am dreth ar oreilw cwmnïau ynni er mwyn helpu i dalu am waith inswleiddio a lleihau costau pobl sy'n dioddef tlodi tanwydd. Gall y newidiadau blaengar hyn wneud gwahaniaeth, a byddwn yn parhau i ymgyrchu ar y lefel hon.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn llongyfarch fy nghydweithiwr, Mark Isherwood, ar ei gyfraniad agoriadol a'i ymroddiad i'r achos hwn trwy grŵp trawsbleidiol y Cynulliad. Mae'r cynnig a gyflwynwyd yn un cydsyniol, a dechreuasom â chydsyniad ar draws y Siambr. Gresyn i Alun Davies ddechrau â chymaint o wleidyddiaeth bleidiol, oherwydd nid wyf yn credu y byddai neb yn y Siambr yn cytuno y dylid ceryddu unrhyw un am achosi tlodi tanwydd, o gofio'r gwahanol agweddau a godwyd yn ystod y ddadl hon a'r pwyntiau a wnaed. Mae'n destun gofid, yn 2010, bod cynifer o aelwydydd yn dioddef

households suffer from fuel poverty and the consequences of fuel poverty, which were touched upon by Bethan Jenkins, such as child poverty, exclusion, and all of the other social consequences that arrive on people's doorsteps.

I want to focus on several points that have already been touched on briefly by Members. It is crucial that we have figures and facts that we can work from to ensure that we can develop strategies, particularly Government strategies, when we are talking about putting large sums of public money into initiatives to help people to come out of fuel poverty.

Looking at this debate as an individual, I find it alarming that the figures that the Minister is working to are so out of date. I hope that when she responds to the debate, she will offer some comfort to the various Members who have raised concerns that action is being taken, so that we can work with up-to-date figures and facts and can move forward on the goal of eradicating fuel poverty.

The extortionate increases in fuel prices over the past couple of years will not show up in the 2007 figures that the Minister is currently working to. I was looking at the price of oil today, and the price per barrel has only fluctuated by about \$3 to \$4 over the past two to three weeks. Yet if you try to purchase oil, you will find that it has gone up 15p a litre—there is nothing like a bit of snow on the ground to force the price up. I ask the Minister to look constructively at the proposals that the Australian—*[Interruption.]* The Labour benches can snigger as much as they like, but Labour has had 13 years to put this right, and, frankly, it has failed. A good model to look at is the Australian model. A fuel commissioner has been introduced into the market to work with companies and vulnerable groups to ensure that there is no exploitation, but that there are the benefits of market forces to deliver supplies to individuals.

Bethan Jenkins: This is a market-driven

tlodi tanwydd a chanlyniadau tlodi tanwydd, y cyfeiriodd Bethan Jenkins atynt, megis tlodi plant, allgáu, a'r holl ganlyniadau cymdeithasol eraill sy'n dod i ran pobl.

Yr wyf am ganolbwyntio ar nifer o bwyntiau y mae Aelodau eraill eisoes wedi'u crybwyll. Wrth sôn am ddefnyddio symiau mawr o arian cyhoeddus mewn mentrau i helpu pobl i ddod allan o dlodi tanwydd, mae'n hollbwysig bod gennym ffeithiau a ffigurau y gallwn weithio ar eu sail i sicrhau ein bod yn gallu datblygu strategaethau, yn enwedig strategaethau'r Llywodraeth.

O edrych ar y ddadl hon fel unigolyn, mae'n codi braw arnaf i feddwl bod y ffigurau y mae'r Gweinidog yn gweithio gyda hwy mor hen. Pan fydd yn ymateb i'r ddadl hon, yr wyf yn gobeithio y bydd yn cynnig rhywfaint o gysur i'r amryw Aelodau sydd wedi mynegi pryder, bod camau gweithredu'n cael eu cymryd fel y gallwn weithio gyda'r ffeithiau a'r ffigurau diweddaraf a symud ymlaen tuag at y nod, sef dileu tlodi tanwydd.

Ni fydd y codiadau afresymol mewn prisiau tanwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i'w gweld yn ffigurau 2007, y mae'r Gweinidog yn gweithio gyda hwy ar hyn o bryd. Yr oeddwn yn edrych ar bris olew heddiw, ac nid yw pris casgen wedi amrywio mwy na rhyw \$3 i \$4 dros y ddwy neu dair wythnos diwethaf. Er hynny, os byddwch yn ceisio prynu olew, fe welwch fod ei bris wedi codi 15c y litr—nid oes dim byd gwell nag ychydig o eira ar lawr i wthio'r pris i fyny. Gofynnaf i'r Gweinidog edrych mewn modd adeiladol ar gynigion y model a geir yn Awstralia—*[Torri ar draws.]* Gall y meinciau Llafur biffian chwerthin gymaint ag y mynnant, ond mae'r Blaid Lafur wedi cael 13 blynedd i unioni hyn, ac, a siarad yn blaen, mae wedi methu. Mae'r model a geir yn Awstralia'n un da i edrych arno. Mae comisiynydd tanwydd wedi'i gyflwyno i'r farchnad i weithio gyda chwmnïau a grwpiau agored i niwed er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu hecsbloetio, ond bod manteision grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio i sicrhau cyflenwadau i unigolion.

Bethan Jenkins: Economi sy'n cael ei gyrru

economy. The fact is that your Government, the Tories, introduced this. There is no interest in the consumer; they are interested in profits and profits only.

Andrew R.T. Davies: That is complete rubbish, Bethan, and it just shows the extremity of your views. We will never lift the wealth of the Welsh population by going to the extremes that you portray. The Australian model is sensible, and I would welcome the Minister's response as to whether she would be prepared to look at it, because it has made a difference in general.

I would also welcome the Minister's view on the point about companies using various initiatives to meet their obligations. In his contribution yesterday to the statement on Copenhagen, Brian Gibbons referred to the challenge in relation to social justice and climate change and carbon reduction. He mentioned the initiatives and incentives that are put in place and the conflicting points. I can see him nodding his head, and the record will show that. It was stated in newspapers over Christmas that one particular company had sent out 10 million low-energy bulbs to meet its obligation, irrespective of whether the householders wanted them or not. It was not serving the best interests of the consumer, yet it got the governmental concession in meeting its carbon reduction target. It is therefore vital that the Minister here in Cardiff works with her colleagues at Westminster to ensure that the initiatives are in place to engage with the private sector and the voluntary sector so that we can get benefits to people's doorsteps to lift them out of fuel poverty, rather than just having window dressing.

I will briefly touch on a personal aspect of the evidence that was provided for this debate by Macmillan cancer nurses. It was about the situation in which cancer patients find themselves, when they get that terrible diagnosis—I speak as someone who has had two family members succumb to cancer, and knows of the consequences and how it throws everything out of synch, and the lack of help

gan y farchnad yw hon. Y ffaith yw mai eich Llywodraeth chi, y Torïaid, a'i cyflwynodd. Nid oes ganddynt ddiddordeb o gwbl yn y defnyddiwr: elw, a dim byd arall, yw'r unig beth y mae ganddynt ddiddordeb ynddo.

Andrew R.T. Davies: Dwli llwyr yw hynny, Bethan, ac y mae'n dangos i'r dim mor eithafol yw eich safbwyntiau. Ni fyddwn byth yn cynyddu cyfoeth poblogaeth Cymru trwy fynd i'r eithafion a ddarlunnir gennych. Mae model Awstralia yn un synhwyrol, a byddwn yn falch clywed yn ymateb y Gweinidog a fyddai'n barod i edrych arno, oherwydd mae wedi gwneud gwahaniaeth yn gyffredinol.

Byddwn hefyd yn falch o glywed barn y Gweinidog am y pwynt ynghylch cwmnïau'n defnyddio gwahanol fentrau i fodloni eu rhwymedigaethau. Yn ei gyfraniad ddoe ynghylch y datganiad ar Copenhagen, cyfeiriodd Brian Gibbons at yr her o ran cyfiawnder cymdeithasol a'r newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon. Cyfeiriodd at y mentrau a'r cymhellion sy'n cael eu cyflwyno a'r pwyntiau sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Gwelaf ei fod yn nodio, a bydd y cofnod yn dangos hynny. Adroddwyd mewn papurau newydd dros gyfnod y Nadolig bod un cwmni penodol wedi dosbarthu 10 miliwn o fylbiau rhad-ar-yntni i fodloni ei rwymedigaeth, heb ystyried a oedd pobl am eu cael neu beidio. Nid er lles y defnyddiwr y gwnaeth y cwmni hynny, ac eto yr oedd y llywodraeth yn fodlon bod y cwmni'n cwrdd â'i darged o ran lleihau allyriadau carbon. Mae'n hanfodol felly bod y Gweinidog yma yng Nghaerdydd yn gweithio gyda'i chydweithwyr yn San Steffan i sicrhau bod y mentrau ar waith i ymwneud â'r sector preifat a'r sector gwirfoddol fel y gallwn sicrhau bod manteision yn dod i ran pobl i'w codi allan o dlodi tanwydd, yn hytrach na bod gennym bethau sy'n edrych yn dda'n unig.

Soniaf yn fyr am agwedd bersonol ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y ddadl hon gan nyrsys canser Macmillan. Yr oedd y dystiolaeth yn ymwneud â sefyllfa y bydd cleifion canser yn eu cael eu hunain ynddi pan gânt y diagnosis erchyll hwinnw—yr wyf yn siarad fel un sydd wedi colli dau aelod o'i deulu i ganser, a gwn am y canlyniadau a'r modd y mae'n troi popeth wyneb i waered,

and information that patients and their families perceive to be available on receiving that diagnosis. In particular, a more joined-up approach for health and social workers is needed, so that they work with various voluntary organisations to ensure that information is provided to cancer sufferers. Some 77 per cent of individuals who are diagnosed with cancer sadly do not receive any form of information on the help available on fuel support and fuel efficiency. Some 50 per cent of applicants to Macmillan Cancer Support for financial help want help with fuel payments. I hope that the Minister will work with her Cabinet colleagues to address the issue of the flow of information to people in that predicament.

a'r modd y mae cleifion a'u teuluoedd yn teimlo nad oes cymorth a gwybodaeth ar gael pan gânt y diagnosis hwnnw. Yn benodol, mae angen dull gweithredu mwy cydgyssylltiedig ar weithwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol, er mwyn iddynt weithio gyda gwahanol fudiadau gwirfoddol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i gleifion cancer. Yn anffodus, nid yw tua 77 y cant o unigolion sy'n cael gwybod bod cancer arnynt yn cael gwybodaeth o gwbl am y cymorth sydd ar gael o ran tanwydd ac effeithlonrwydd tanwydd. Mae tua 50 y cant o'r rheini sy'n gwneud cais i Gymorth Cancer Macmillan am gymorth ariannol yn dymuno cael cymorth i dalu am danwydd. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gweithio gyda'i chydweithwyr yn y Cabinet i fynd i'r afael â'r broblem o ddarparu gwybodaeth i bobl yn y sefyllfa honno.

5.00 p.m.

Eleanor Burnham: I feel genuinely saddened to think that we are one of the richest nations in the world and we have all this poverty, whether it is child poverty, older people poverty or fuel poverty. I was sickened yesterday when thinking about the billions of pounds in bonuses that those cheeky bankers receive. When you think that we could use that money on roads to get rid of the snow or give it to people who need to keep themselves warm, it is scandalous.

Eleanor Burnham: Mae meddwl ein bod yn un o'r gwledydd cyfoethocaf yn y byd a bod yr holl dlodi hwn gennym, boed yn dlodi plant, yn dlodi pobl hŷn neu'n dlodi tanwydd, yn peri tristwch gwirioneddol imi. Yr oeddwn yn ffieiddio ddod wrth feddwl am y taliadau bonws gwerth biliynau o bunnoedd y mae'r bancwyr digywilydd hynny'n eu cael. Mae'n warthus meddwl y gallem fod yn defnyddio'r arian hwnnw ar ffyrdd i gael gwared â'r eira, neu'n ei roi i bobl y mae angen iddynt gadw'n gynnes.

The fuel poverty charter—which I am pleased that many of us have signed up to, without being hypocritical or sanctimonious—has a striking note called 'eating or heating—the uncomfortable truth about fuel poverty'. It says that from around 320,000 households in Wales, one in four experience fuel poverty. In technical terms, this means that they have to spend 10 per cent or more of their income on energy to adequately heat their home. This means that they may not be able to afford to heat or power their homes, as well as eat properly. Is that not disgraceful? As I said, we are one of the richest nations in the world.

Yn y siarter tlodi tanwydd—yr wyf yn falch bod llawer ohonom wedi'i chefnogi, heb fod yn rhagrithiol neu'n hunangyfiawn—ceir y pennawd trawiadol canlynol, 'bwyd ynteu gwres—y gwir anghyfforddus am dlodi tanwydd'. Dywed fod oddeutu 320,000 o aelwydydd yng Nghymru, sef un o bob pedair, yn dioddef tlodi tanwydd. Mewn termau technegol, golyga hynny fod yn rhaid iddynt wario 10 y cant neu fwy o'u hincwm ar ynni i wresogi eu cartref yn ddigonol. Golyga hynny na fyddant efallai'n gallu fforddio gwresogi na phweru eu cartrefi na bwyta'n iawn. Onid yw hynny'n gywilyddus? Fel y dywedais, yr ydym yn un o wledydd cyfoethocaf y byd.

As Nick said, many people in rural areas have problems because they are not on the

Fel y dywedodd Nick, mae gan lawer o bobl mewn ardaloedd gwledig broblemau am nad

mains supply, and we heard from Andrew R.T. Davies about the recent hikes in fuel prices. Disproportionate numbers of people in rural areas are suffering more than the rest of us. It is important to look at how one can regulate it—we all believe in market forces, and so on—but it is an area where people are profiteering. Macmillan Cancer Support was mentioned, and other ill people who are immobile who desperately need extra heating.

Earlier, I challenged the Minister for Environment, Sustainability and Housing about the fuel poverty charter, and I was delighted to hear that she had addressed the relevant bodies on this. However, I challenge the Government to establish—as others have—a cross-departmental fuel poverty taskforce because we live in difficult times.

On weather stations covering Welsh postcodes which trigger cold weather payments, the Welsh Liberal Democrats leader mentioned that Swansea, which, as we know, is on the coast, and she talked about inland areas which have a different microclimate. Similarly in north Wales, I notice that Crosby weather station on Merseyside, which is by the sea, affects everyone inland. If you go to Coedpoeth, it is a little colder than Crosby—in fact, it is colder than where I live on the flat in Rossett, but we have had an enormous amount of snow. The point that I am coming to is that I had an interesting letter from a gentleman who wanted me to bring this up with the Minister. He said that a friend of his who lives in the Crewe area has already had two payments this winter, and she openly admits that the weather in Crewe has been nothing like it has been in north Wales. I know that the Minister loves being challenged, so I challenge her to tell me what common sense applies to weather stations covering Welsh postcodes being on the coast of Merseyside?

ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad, a chlywsom gan Andrew R.T. Davies am y codiadau mawr diweddar ym mhrisiau tanwydd. Mae nifer anghymesur o bobl mewn ardaloedd gwledig yn dioddef yn fwy na'r gweddill ohonom. Mae'n bwysig ystyried sut y gallwn reoleiddio hynny—mae pob un ohonom yn credu yng ngrymoedd y farchnad ac yn y blaen—ond y mae'n faes lle mae pobl yn gwneud elw afresymol. Crybwyllwyd Cymorth Canser Macmillan, a phobl sâl eraill nad ydynt yn gallu symud ac arnynt angen mwy o wres yn ddybryd.

Yn gynharach, heriais y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ynghylch y siarter tloidi tanwydd, ac yr oeddwn yn falch iawn clywed ei bod wedi siarad â'r cyrff perthnasol am hyn. Fodd bynnag, yr wyf yn herio'r Llywodraeth—fel y gwnaeth eraill—i sefydlu tasglu tloidi tanwydd trawsadrannol gan ein bod yn byw mewn adegau anodd.

O ran gorsafoedd tywydd sy'n ymdrin â chodau post yng Nghymru ac yn cael eu defnyddio i benderfynu taliadau tywydd oer, cyfeiriodd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru at Abertawe sydd, fel y gwyddom, ar yr arfordir, a soniodd am ardaloedd ymhellach yn y tir sydd â microhinsawdd wahanol. Yn yr un modd yn y gogledd, yr wyf yn sylwi bod gorsaf dywydd Crosby ar Lannau Mersi, sydd ger y môr, yn effeithio ar bawb ymhellach i'r tir. Os ewch i Goed-poeth, mae ychydig yn oerach na Crosby—a dweud y gwir, mae'n oerach na lle'r wyf i'n byw ar y tir gwastad yn yr Orsedd, ond yr ydym wedi cael llwyth o eira. Y pwynt yr wyf am ei wneud yw fy mod wedi cael llythyr diddorol gan ŵr a oedd am imi godi hyn â'r Gweinidog. Dywedodd fod ganddo gyfaill sy'n byw yn ardal Crewe, sydd eisoes wedi cael dau daliad y gaef hwn, ac mae'n cyfaddef yn agored nad yw'r tywydd yn Crewe wedi bod yn ddim byd tebyg i'r hyn a gafwyd yn y gogledd. Gwn fod y Gweinidog wrth ei bodd yn cael ei herio, felly, heriaf hi i ddweud wrthyf ble mae'r synnwyr cyffredin pan fo gorsafoedd tywydd sy'n ymdrin â chodau post yng Nghymru wedi'u lleoli ar arfordir Glannau Mersi?

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 5.04 p.m.

The Presiding Officer took the Chair at 5.04 p.m.

On the boiler scrappage scheme, will you clarify that scheme, Minister? Many people have discussed this with me over the last few weeks because they cannot do the same in Wales as in England. Therefore, how can you help with boiler scrappage?

Jane Davidson: I warmly welcome the debate on this important issue, which was reflected in the number of questions that I was asked about people's concern in relation to energy efficiency, energy conservation and fuel poverty. I am delighted to hear that the fuel poverty coalition is growing in membership because it consists of a large range of organisations which have been active in the fuel poverty coalition.

It is worth rehearsing two points that did not come up during the debate. The first is that, between 2004 and 2007, we were on target to meet our targets for 2010, in the sense that incomes and energy prices were steady and energy efficiency was being tackled effectively through the home energy efficiency scheme. When I have looked back through previous budget debates, I have seen that there were no particular issues each year about the home energy efficiency scheme, but we were not seeing the kind of price rises and challenges in relation to income that we have seen recently due to the recession. It is worth pointing out that, although we are trying to do a great deal in partnership with the UK Government, the energy companies, Ofgem and the fuel poverty advisory group, which has an independent chair, and I have also been in front of the cross-party fuel group and working with Neighbourhood Energy Action and others, these are only elements to tackle the target that can be delivered in Wales through Welsh powers. Issues around income levels and energy price levels are outwith the Assembly Government, although we use every opportunity to influence them.

The second point is about data. I am delighted that so many people brought up the issue of data. I wrote the word in capital

O ran y cynllun sgrapio boeleri, a wnewch chi egluro'r cynllun hwnnw, Weinidog? Mae llawer o bobl wedi trafod hyn â mi dros yr ychydig wythnosau diwethaf am nad ydynt yn gallu gwneud yr un peth yng Nghymru ag y mae pobl yn ei wneud yn Lloegr. Felly, sut y gallwch helpu â sgrapio boeleri?

Jane Davidson: Yr wyf yn croesawu'n fawr y ddadl ar y mater pwysig hwn, a adlewyrchwyd yn nifer y cwestiynau a ofynnwyd imi am bryderon pobl ynghylch effeithlonrwydd ynni, arbed ynni, a thlodi tanwydd. Yr wyf yn falch iawn o glywed bod aelodaeth y gynghrair tlodi tanwydd yn cynyddu, oherwydd mae'n cynnwys ystod eang o sefydliadau sydd wedi bod yn weithgar yn y gynghrair tlodi tanwydd.

Mae'n werth sôn am ddau bwynt na chawsant eu codi yn ystod y ddadl. Y pwynt cyntaf yw'r ffaith inni fod, rhwng 2004 a 2007, ar y trywydd iawn i gwrdd â'n targedau ar gyfer 2010, yn yr ystyr i incwm pobl a phrisiau ynni fod yn gyson ac inni fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni'n effeithiol trwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Wrth edrych yn ôl ar ddadleuon blaenorol ynghylch y gyllideb, gwelais nad oedd problemau penodol bob blwyddyn ynghylch y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, ond nid oeddem yn gweld y math o godiadau mewn prisiau a'r anawsterau o ran incwm yr ydym wedi'u gweld yn ddiweddar o ganlyniad i'r dirwasgiad. Mae'n werth nodi, er ein bod yn ceisio gwneud llawer mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, y cwmnïau ynni, Ofgem a'r grŵp cynghori ar dlodi tanwydd, sydd â chadeirydd annibynnol, ac er fy mod hefyd wedi bod gerbron y grŵp trawsbleidiol ar danwydd ac wedi bod yn gweithio gyda Neighbourhood Energy Action ac eraill, elfennau'n unig yw'r rhain i fynd i'r afael â'r targed y gellir ei gyflawni yng Nghymru trwy'r pŵerau sydd gennym yng Nghymru. Mae materion sy'n ymwneud â lefelau incwm a phrisiau ynni y tu allan i reolaeth Llywodraeth y Cynulliad, er ein bod yn defnyddio pob cyfle i ddylanwadu arnynt.

Mae'r ail bwynt yn ymwneud â data. Yr wyf yn falch iawn bod cynifer o bobl wedi cyfeirio at hynny. Ysgrifennais y gair mewn

letters when Nick mentioned it, but a number of other Members also mentioned it. Data are critical, because we found that, having moved steadily towards a target that we assumed that we would meet when I inherited this portfolio, when aspects of the delivery changed, we did not have the data to determine to where we were moving forward. One of the big issues in this debate, which has come up time and again with the coalition, has been how we get the right data because we are now working from modelled data. We will have data at the end of this year, and you cannot hurry data because they must be statistically proven. From those data, we will be able to make much more accurate predictions than in 2009 and 2010. However, I will be interested in people's response to the fuel poverty strategy in dealing with this.

The third point that I wanted to make, which was acknowledged by a number of the Members who spoke, is the difference between energy efficiency and fuel poverty. I thought that it would be helpful to bring together the fuel poverty strategy with our national energy efficiency and savings plan when we went out to consultation on this last year. Members of the coalition—which had not formally become a coalition at that point—said that they felt that that was not helpful. They wanted energy efficiency to be separated from fuel poverty, in the sense that they wanted the fuel poverty strategy and the response to the statutory elements of our responsibilities to be in a separate document that they could respond to separately. We have already been through two iterations of this: we have been through the iteration in the national energy efficiency and savings plan and we have been through the current iteration in the fuel poverty strategy. Therefore, the only reason that I am unable to support your motion as worded in that you are putting through your motion the total view of the coalition and I need to look at the response to the consultation, not only from coalition members but from a number of statutory agencies on delivery. The consultation on our fuel poverty strategy closed only last week.

However, I am committed to looking at all

priflythrennau pan gyfeiriodd Nick ato, ond cyfeiriodd nifer o Aelodau eraill ato hefyd. Mae data'n hollbwysig oherwydd, ar ôl symud yn gyson tuag at darged yr oeddem yn tybio y byddem yn ei gyrraedd pan etifeddais y portffolio hwn, pan newidiodd agweddau ar y gwaith cyflawni, gwelsom nad oedd gennym y data i benderfynu i ble'r oeddem yn symud ymlaen. Un o'r prif faterion yn y ddadl hon, y mae'r gynghair wedi'i godi dro ar ôl tro, yw sut mae cael y data cywir, oherwydd yr ydym bellach yn gweithio gyda data sydd wedi'u modelu. Bydd gennym ddata ddiwedd eleni, ac ni allwch ruthro data oherwydd rhaid iddynt gael eu profi'n ystadegol. O'r data hynny, byddwn yn gallu llunio rhagfynegiadau llawer mwy cywir nag yn 2009 a 2010. Fodd bynnag, bydd gennyf ddiddordeb mewn clywed ymateb pobl i'r strategaeth tlodi tanwydd wrth ymdrin â hyn.

Y trydydd pwynt yr oeddwn am ei wneud, ac fe'i cydnabuwyd gan nifer o'r Aelodau a siaradodd, yw'r gwahaniaeth rhwng effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd. Pan aethom i ymgynghori ynghylch hyn y llynedd, meddyliais y byddai'n ddefnyddiol tynnu ynghyd y strategaeth tlodi tanwydd a'n cynllun cenedlaethol ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion ynni. Dywedodd aelodau'r gynghair—nad oedd yn gynghair ffurfiol bryd hynny—nad oeddent yn teimlo y byddai hynny'n ddefnyddiol. Yr oeddent am i effeithlonrwydd ynni gael ei gadw ar wahân i dlodi tanwydd, yn yr ystyr eu bod am i'r strategaeth tlodi tanwydd a'r ymateb i elfennau statudol ein cyfrifoldebau fod mewn dogfen ar wahân y gallent ymateb iddi ar wahân. Yr ydym eisoes wedi bod trwy ddau gylch: yr ydym wedi bod trwy gylch y cynllun cenedlaethol ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion ynni, ac yr ydym wedi bod trwy gylch presennol y strategaeth tlodi tanwydd. Felly, yr unig reswm pam na allaf gefnogi eich cynnig fel y'i geiriwyd yw am eich bod yn cyfleu drwy eich cynnig holl farn y gynghair, ac y mae angen imi edrych ar yr ymateb i'r ymgynghoriad, nid yn unig gan aelodau'r gynghair, ond gan nifer o asiantaethau statudol sy'n ymwneud â chyflawni. Yr wythnos diwethaf yn unig y daeth yr ymgynghoriad ynghylch ein strategaeth tlodi tanwydd i ben.

Fodd bynnag, yr wyf wedi ymrwymo i

the proposals in the fuel poverty charter and the recommendations that it contains, which are a key consideration in our analysis. My officials will tell you that I keep testing their responses against what the charter is saying in terms of where we will go with our strategy. Many of the actions contained in the charter are already reflected in the draft strategy, but I cannot, at this point—I hope that no Minister from any party would—prejudge the outcome of a proper Government consultation, particularly since that consultation will lead to new regulations regarding the home energy efficiency scheme.

Therefore, I hope that the amendment that has been tabled by the Government, amendment 1, is framed in such a way that Members can support. Our focus is on ensuring that, as a Government, we are taking the most effective action that we can on fuel poverty across all portfolios; that the action that we take is informed by expert advice, including from those working on the ground with those vulnerable to fuel poverty across Wales; and is jointly owned and delivered in partnership with a wide range of statutory and third-sector organisations, including those organisations that signed the charter and members of the independently-led fuel poverty advisory group.

5.10 p.m.

Jonathan Morgan: I am grateful to the Minister for giving way. No-one doubts the challenge that we face, Minister, but, bearing in mind what you said earlier about the modelling work currently being undertaken, which should give a clear picture of fuel poverty in Wales sometime during this year, do you not agree that it is farcical having a target to remove the most vulnerable groups from fuel poverty by 2010 when, clearly, you not know what the figures are? The target is quite meaningless, and, in essence, you need to be remodelling and re-considering that target to see what appropriate benchmarks can be used. Will you now admit that the

edrych ar yr holl gynigion yn y siarter tlodi tanwydd a'r argymhellion a geir ynnddi, a fydd yn ystyriaethau allweddol yn ein dadansoddiad. Fe ddywedai fy swyddogion wrthyfch fy mod byth a hefyd yn profi eu hymatebion yn erbyn yr hyn y mae'r siarter yn ei ddweud ynghylch ble byddwn yn mynd â'n strategaeth. Mae'r strategaeth ddrafft eisoes yn adlewyrchu llawer o'r camau gweithredu sydd yn y siarter, ond ar hyn o bryd ni allaf ragfarnu canlyniad ymgynghoriad cywir gan y Llywodraeth—a gobeithio na fyddai'r un Gweinidog o'r un blaid yn gwneud hynny—yn enwedig gan y bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n arwain at reoliadau newydd ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref.

Gobeithio, felly, fod y gwelliant a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, gwelliant 1, wedi'i fynegi yn y fath fodd fel y gall yr Aelodau ei gefnogi. Yr ydym yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod ni, fel Llywodraeth, yn cymryd y camau gweithredu mwyaf effeithiol posibl ar dlodi tanwydd ar draws pob portffolio; bod cyngor arbenigol yn sail i'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd, gan gynnwys cyngor gan y rheini sy'n gweithio ar lawr gwlad gyda phobl a allai ddioddef tlodi tanwydd ledled Cymru; a bod pawb yn teimlo perchnogaeth ar y camau gweithredu hynny ac yn eu cyflwyno mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys y sefydliadau hynny a lofnododd y siarter ac aelodau o'r grŵp cynghori ar dlodi tanwydd, sy'n cael ei arwain yn annibynnol.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Nid oes neb yn amau'r her sy'n ein hwynebu, Weinidog, ond o gofio'r hyn a ddywedwyd gennyfch yn gynharach am y gwaith modelu sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd ac a ddylai roi darlun clir o dlodi tanwydd yng Nghymru rywbryd yn ystod eleni, oni chytunwch ei bod yn chwerrthinllyd cael targed i ddileu tlodi tanwydd ymysg y grwpiau mwyaf agored i niwed erbyn 2010 pan nad ydych, yn amlwg ddigon, yn gwybod beth yw'r ffigurau? Mae'r targed yn hollol ddiystyr, ac yn y bôn, mae angen ichi ailfodelu ac ailystyried y targed hwnnw er mwyn gweld pa feincnodau

2010 target cannot be reached?

Jane Davidson: I do not think that having the 2010 statutory target was farcical. It will continue to be a prick in the side of Government to ensure that there is additional money available. What we are looking to do with the fuel poverty strategy is to ensure that that money is targeted as effectively as possible.

The budget for the home energy efficiency scheme for the financial year 2009-10 was £23.8 million, which is the highest level of investment in the scheme since it started. It is a critical element, as Mick Bates said in his contribution, and as many of us have explored through the work of the Sustainability Committee, the match between the current home energy efficiency scheme and fuel poverty is totally inappropriate. Therefore, what we have done in our draft fuel poverty strategy is to try to ensure that that match is appropriate, but, in doing so, more money must be spent on individual houses, which means that less people will benefit from our scheme. Going back to something that Jonathan said about co-ordination, the critical element is how we ensure that we co-ordinate what we do in our scheme on fuel poverty with what the energy companies are doing, not only through their carbon emissions reduction target programmes, but also through their community energy saving programme, which is the social programme element that they are required to deliver by Government. Our intention is to target the Assembly Government funding at those households most in need and living in the most energy inefficient properties. That means that we are fully taking account of the issues, particularly in north-west Wales, that came out in the evidence base of the fuel poor.

Alongside that, we have also won substantial extra money from the strategic capital investment fund for the Arbed programme—the strategic energy programme that I mentioned in my answers to questions today.

priodol y gellir eu defnyddio. A wnewch chi gyfaddef yn awr na ellir cyrraedd targed 2010?

Jane Davidson: Ni chredaf fod cael targed statudol ar gyfer 2010 yn chwerthinllyd. Bydd yn parhau'n ddraenen yn ystlys y Llywodraeth i sicrhau bod arian ychwanegol ar gael. Yr hyn yr ydym yn gobeithio'i wneud gyda'r strategaeth tlodi tanwydd yw sicrhau bod yr arian hwnnw'n cael ei dargedu mor effeithiol ag sy'n bosibl.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10 yr oedd y gyllideb ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn £23.8 miliwn, sef y buddsoddiad mwyaf yn y cynllun ers iddo ddechrau. Fel y dywedodd Mick Bates yn ei gyfraniad, mae'n elfen allweddol, ac fel y mae nifer ohonom wedi gweld trwy waith y Pwyllgor Cynaliadwyedd, mae'r gyfatebiaeth rhwng y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref presennol a thlodi tanwydd yn hollol amhriodol. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn y fersiwn ddrafft o'n strategaeth tlodi tanwydd felly yw ceisio sicrhau bod y gyfatebiaeth yn briodol, ond wrth wneud hynny, rhaid gwario mwy o arian ar dai unigol, sy'n golygu y bydd llai o bobl yn elwa ar ein cynllun. I ddychwelyd at rywbeth a ddywedodd Jonathan am gydgysylltu gwaith, yr elfen allweddol yw sut yr ydym yn sicrhau ein bod yn cydgysylltu'r hyn a wnawn yn ein cynllun ar dlodi tanwydd â'r hyn y mae'r cwmnïau ynni'n ei wneud, nid yn unig trwy eu rhaglenni yng nghyswllt y targed lleihau allyriadau carbon, ond hefyd trwy eu rhaglen arbed ynni yn y gymuned, sef yr elfen yn ymwneud â rhaglen gymdeithasol y mae'r Llywodraeth yn mynnu bod y cwmnïau'n ei chyflawni. Ein bwriad yw targedu cyllid Llywodraeth y Cynulliad at yr aelwydydd hynny sydd fwyaf mewn angen ac sy'n byw yn yr eiddo mwyaf aneffeithlon o ran ynni. Golyga hynny ein bod yn ystyried yn llawn y problemau, yn enwedig yn y gogledd-orllewin, a ddaeth i'r amlwg yn sylfaen dystiolaeth y rheini sy'n dioddef tlodi tanwydd.

Ochr yn ochr â hynny, yr ydym hefyd wedi ennill arian ychwanegol sylweddol o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol ar gyfer rhaglen Arbed—y rhaglen ynni strategol y cyfeiriais ati wrth ateb cwestiynau heddiw. Dros

Arbed, over three years, will contribute some £350 million to home energy efficiency. Therefore, we will have money that is delivered via our scheme, targeted at the most fuel poor. Arbed is also an energy efficiency scheme, and we are trying to get a better marriage with the fuel poor by delivering Arbed in areas that have the 15 per cent greatest links with income poverty. It is focused on the lowest super output areas, in terms of census data, that qualify for the community energy social programme; therefore, it targets the 15 per cent most deprived. It goes much wider than the Heads of the Valleys programme, given that we want it to operate across the whole strategic regeneration areas. We will see a further 7,000 to 12,000 households helped there, and 30,000 to 50,000 homes being improved through the Welsh housing quality standard prior to 2012.

Therefore, there is a mix of issues, but the critical element is always whether the fixed amount of money that we have in the home energy efficiency scheme, delivered to a fuel poverty perspective, is delivered in the best way. That is what we consulted upon and this debate will contribute very much to the way that we take this forward. I have always sought to take this forward consensually across all parties. Although, as some of my colleagues would say, some have come later to the table than others, we can now all move together in ensuring that we deliver the best outcome for those who are in severest fuel poverty in Wales. It worries me hugely that there will now be a category of those people who are deemed in severe fuel poverty because 20 per cent of their income is taken for their fuel needs.

The recent cold weather underlines the huge importance of tackling this now, but we need to see how many other programmes we can bend to this agenda. I give you my assurance that we will look very hard at all of the policy principles that are outlined in the charter and

gyfnod o dair blynedd, bydd Arbed yn cyfrannu rhyw £350 miliwn at effeithlonrwydd ynni cartref. Felly, bydd gennym arian a ddarperir trwy ein cynllun ac a dargedir at y rhai sy'n dioddef y tlodi tanwydd mwyaf. Mae Arbed hefyd yn gynllun effeithlonrwydd ynni, ac yr ydym yn ceisio sicrhau gwell cyfatebiaeth â'r rheini sy'n dioddef tlodi tanwydd trwy gyflwyno Arbed mewn ardaloedd sydd ymhlith y 15 y cant lle ceir y cysylltiadau mwyaf â thlodi o ran incwm. Mae'n canolbwyntio ar yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf, o safbwynt data'r cyfrifiad, sy'n gymwys i fod yn rhan o'r rhaglen arbed ynni yn y gymuned; felly, mae'n targedu'r 15 y cant mwyaf difreintiedig. Mae'n llawer ehangach na rhaglen Blaenau'r Cymoedd, o gofio ein bod am iddi weithredu ar draws yr holl ardaloedd adfywio strategol. Byddwn yn gweld 7,000 i 12,000 yn rhagor o aelwydydd yn cael cymorth yno, a 30,000 i 50,000 o gartrefi'n cael eu gwella trwy safon ansawdd tai Cymru cyn 2012.

